

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

Oherwydd COVID-19 a iechyd a diogelwch Cyngorwyr a staff, ni all aelodau'r cyhoedd na'r wasg fynychu'r cyfarfod wyneb i wyneb. Gellir gwyllo'r cyfarfod ar ZOOM.

Dydd Iau, 9 Mehefin 2022

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir CYFARFOD o Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn Siambr y Cyngor, Penmorfa ac o bell trwy fideo-gynhadledda ar Dydd Mercher, 15 Mehefin 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
3. **CONTEST - Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU (Tudalennau 3 - 12)**
4. **Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad a Chyflwyniad i drefniadau Hunanasesu Perfformiad yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Tudalennau 13 - 72)**
5. **Cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2021 a 7 Mawrth 2022 a'r Asesiad Llesiant Lleol (Tudalennau 73 - 90)**
6. **Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 2 a 3 2021-22 (Tudalennau 91 - 220)**
7. **Adroddiad ar gofnod penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur Covid-19 (Tudalennau 221 - 230)**
8. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 231 - 236)**
9. **Rhaglen Flaen Ddrafft (Tudalennau 237 - 246)**

10. Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd ei fod er sylw brys y Pwyllgor

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
DYDDIAD:	15-06-2022
LLEOLIAD:	Cyfarfod hybrid
TEITL:	CONTEST – Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU
DIBEN YR ADRODDIAD:	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu ynghylch y trefniadau sydd ar waith i gyflawni strategaeth CONTEST yng Ngheredigion, ledled y rhanbarth ac yn genedlaethol
PAM MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:	Gan mai hwn yw'r Pwyllgor Craffu sydd wedi ei ddynodi i fod â throsolwg o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'i his-grwpiau

Y CEFNDIR:

Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn mynnu bod pob awdurdod rhagnodedig yn rhoi "sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth". Nodir y canlynol yn awdurdodau rhagnodedig: Awdurdodau Lleol; yr Heddlu; Carchardai; Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc; y Gwasanaethau Prawf; Ysgolion; Colegau; Prifysgolion ac Iechyd.

Mae CONTEST – Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU (Mehefin 2018) yn atgyfnerthu'r fframwaith strategol sydd wedi hen ennill ei blwyf ac a ddefnyddir wrth gyflawni'r strategaeth, sef y pedwar llinyn (sef y pedair 'P' yn Saesneg):

Atal (Prevent) – atal pobl rhag troi'n derfysgwyr neu rhag cefnogi terfysgaeth

Amddiffyn (Protect) – cryfhau'r amddiffyniad rhag ymosodiad terfysgol

Ymlid (Pursue) – atal ymosodiadau terfysgol

Paratoi (Prepare) – lliniaru effaith ymosodiad terfysgol.

Mae swyddogion o'r Gwasanaeth Partneriaethau a Pherfformiad yn hwyluso ac yn cadeirio Bwrdd CONTEST Ceredigion sy'n cyfarfod bob chwarter ac sy'n is-grŵp i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion. Mae'r Bwrdd yn arwain ar thema 2 Cynllun Cyflawni Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion ac yn cydweithio er mwyn ymateb i agenda genedlaethol CONTEST, gyda phwyslais penodol ar gyflawni yr hyn mae Atal yn ei fynnu, sef atal pobl rhag troi'n derfysgwyr neu eu hatal rhag cefnogi terfysgaeth.

Mae Atodiad 1 yn darparu gwybodaeth bellach ynglŷn â CONTEST a'r trefniadau sydd ar waith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, er mwyn sicrhau cynllunio ac ymateb cydlynus i'r agenda hon.

Tudalen 4

A gwblhawyd Aseiad Effaith Ni chwblhawyd AEI gan
Integredig (AEI)? Os naddo, nad yw'r adroddiad yn
nodwch pam newid i bolisi na
gwasanaeth.

**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

Crynodeb:
Hirdymor:
Integreiddio:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:

ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau sydd ar waith i gyflawni strategaeth CONTEST yng Ngheredigion, ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol.

Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y trefniadau presennol i gyflawni CONTEST, a bod yn ymwybodol o gyfraniad staff y Cyngor yn y gwaith pwysig hwn.

Enw Cyswllt:

Alun Williams

Swydd:

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r
Cyhoedd

Dyddiad yr Adroddiad:

20-01-2022

Acronymau:

CONTEST – Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU

Atodiad 1



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

CONTEST – Trosolwg Atal ac Amddiffyn

Cyflwyniad

Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU yw CONTEST. Ei hamcanion yw lleihau'r perygl o derfysgaeth fel bod pobl yn gallu byw eu bywydau yn rhydd ac yn hyderus – mae'n cynnwys 4 llinyn thematig (yn Saesneg fe'u gelwir fel arfer yn bedair 'P'):-

Atal (Prevent) – atal pobl rhag troi'n derfysgwyr neu rhag cefnogi terfysgaeth (cymryd mantais ar bobl fregus)

Amddiffyn (Protect) – cryfhau ein hamddiffyniad rhag ymosodiad terfysgol

Paratoi (Prepare) – lliniaru effaith ymosodiad terfysgol


Ymlid (Pursue) – atal ymosodiadau terfysgol.

Er nad yw polisi Gwrthderfysgaeth yn fater datganoledig, eto i gyd mae hynny'n wir i raddau mae'r strategaeth gyflawni. Yng Nghymru, drwy **Fframwaith Contest Cymru**, a ddiwygiwyd yn ddiweddar, rydym yn gweithio mewn cydweithrediad â'n hasiantaethau partner i ymateb i'r bygythiad mewn modd sy'n ceisio diogelu ein cymuned a gwarchod bywyd.

Fframwaith CONTEST Cymru

Lansiwyd strwythur llywodraethu newydd ar gyfer CONTEST Cymru ddiwedd 2020. Roedd Llywodraeth Cymru am sicrhau cysondeb ac atebolrwydd wrth gyflawni Gwrthderfysgaeth yng Nghymru.

Mae'r fframwaith newydd yn cael ei reoli ochr yn ochr â Fforymau Lleol Cymru Gydnerth sydd wedi hen ennill eu plwyf, er mwyn adlewyrchu'r amrywiol rolau a chyfrifoldebau.



Ffig1.

Gosodir yr amcanion gan fyrddau CONTEST lleol, sy'n cyfarfod bob tri mis. Maent yn gweithio yn ôl cynlluniau cyflawni safonol gyda chanlyniadau cyffredin. Mae'r byrddau'n cynnwys partneriaid lleol ac maent yn derbyn diweddariadau cudd-wybodaeth Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth gan Wrthderfysgaeth Cymru, sy'n cynorthwyo yn y broses o lunio gweithgaredd lleol a rhoi gwybodaeth yn ei gylch. Mae Bwrdd CONTEST Ceredigion yn cael ei hwyluso a'i gadeirio gan swyddogion y tîm Partneriaethau a Pherfformiad.

Rhoddir gwybod am gynnydd i'r Byrddau CONTEST rhanbarthol ac yn y pen draw i Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng y Byrddau Cenedlaethau Strategol (gweler ffigur 1).

Tudalen 6

Elfen bwysig o adolygiad CONTEST Cymru oedd gosod y cyfrifoldebau am Argyfyngau Sifil posibl, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a'r cyfrifoldeb o gyflawni CONTEST dan un portffolio Diogelwch Cenedlaethol newydd o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r ymagwedd hon yn elwa ar gydweithio ac yn diogelu rhag unrhyw ddyblygu.

Elfennau Cyflawni CONTEST – Y 4 Ilinyn

Atal (dyletswydd*)

RYDYM YN CANOLBWYNTIO AR ATAL POBL RHAG CAEL EU DENU AT EITHAFIAETH

Mae gan strategaeth Atal dri amcan:-

- Herio'r ideoleg sy'n cefnogi terfysgaeth a'r sawl sy'n ei hybu
- Diogelu pobl fregus
- Cefnogi sectorau a sefydliadau lle mae radicaleiddio'n berygl

Mae Adran 26 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn gosod **dyletswydd ar rai cyrff ("awdurdodau rhagnodedig") i "roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth", wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau.*

Ymestynnwyd cyfrifoldeb Atal 'Prevent' yn 2011 i gynnwys ymdrin â phob math o derfysgaeth ac eithafiaeth di-drais. Mae terfysgwyr sy'n gysylltiedig â'r adain dde eithafol hefyd yn bygwth ein diogelwch a'n sicrwydd yn barhaus ac mae hyn yn arbennig o berthnasol yn lleol.

Mae Adran 36 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn amlinellu'r ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol a phartneriaid paneli lleol i roi cefnogaeth i bobl sy'n agored i gael eu denu at derfysgaeth. Yn Lloegr a Chymru, bodlonir y ddyletswydd hon drwy baneli 'Channel', gweler tudalennau 4 a 5 am fwy o fanylion.

Amddiffyn (dyletswydd)

BYDDWN YN DIOGELU EIN POBL A'N LLEOEDD RHAG YMOSODIAD TERFYSGOL

Yr haf diwethaf, lansiodd y Swyddfa Gartref ymgynghoriad cyhoeddus ar **Ddyletswydd Amddiffyn*** newydd arfaethedig, gan gyflawni ymrwymiad maniffesto i wella diogelwch a sicrwydd lleoedd a mannau cyhoeddus. Y bwriad oedd myfyrio ar wersi yn dilyn ymosodiadau terfysgol 2017 yn ogystal ag ymosodiadau mwy diweddar.

Tudalen 7

Cydllynwyd ymateb Ceredigion i'r ymgynghoriad gan swyddogion Argyfyngau Sifil posibl, yn dilyn ymgynghoriadau â'r Grŵp Arweiniol ac Aelodau Etholedig. Yn ogystal, cyfrannwyd ein pryderon a'n sylwadau at ymateb rhanbarthol.

Arweiniodd yr Ymgynghoriad at ymatebion niferus, ymhlith yr uchaf erioed, dros 2700, i ymgynghoriad gan y Swyddfa Gartref, rhyddhawyd y canlyniadau ddydd Llun 10 Ionawr 2022. (Gweler [Protect Duty - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#))



I fynd yn syth at y dogfennau Cymraeg (Dyletswydd Diogelu), dilyner y dolenni isod:-

<https://www.gov.uk/government/consultations/protect-duty/outcome/government-response-document-welsh>

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1045279/21-029193-01_Home_Office_Protect_Duty_Consultation_External_Report-Final_1_.pdf

O'r Ymgynghoriad ymddengys fod cefnogaeth eang i gyflwyno cyfrifoldebau amddiffynnol ychwanegol ac i ymagwedd deddfwriaethol, fodd bynnag mae pryderon ynghylch adnoddau a hyfforddiant.

Er nad oes manylion wedi'u cyhoeddi eto, yn realistig gallai deddfwriaeth gymryd blwyddyn arall i ymddangos, rhannwyd llawer o gynigion drafft y Swyddfa Gartref cyn creu adroddiad ar yr Ymgynghoriad.

- Bydd y Ddyletswydd yn ceisio defnyddio deddfwriaeth bresennol yn fwy effeithiol i gyflawni ei chanlyniadau diogelwch o ran meysydd chwaraeon, stadiymau cyngherddau, lleoliadau cynadleddau a lleoliadau sy'n agored i'r cyhoedd ayb. Mae posibilrwydd y gallai hyn ddod â sectorau eraill dan y Ddyletswydd, er enghraifft, gweithredwyr bysiau a bysiau moethus, porthladdoedd masnachol a llongau sydd wedi eu cofrestru yn y DU.
- Fel rhan o'r Ddyletswydd, efallai y bydd gofynion gorfodi a allai gynnwys asesiadau risg diogelwch rheolaidd a chynlluniau parodrwydd cam wrth gam.
- Mae'r Ddyletswydd yn rhagweld rhaglen arolygiadau llai manwl a ddilynir gan fodelu gorfodaeth gymesur sy'n cynnwys sancsiynau sifil.

Mae'n amlwg y gall Awdurdodau Lleol ddisgwyl yn hyderus y bydd y gofynion arnynt yn cynyddu.

Paratoi

BYDDWN YN PARATOI EIN HYMATEB I YMOSODIADAU AC YN LLEIHAW EU HEFFAITH

Tudalen 8

Mae rhai pethau sy'n amlwg yn debyg i waith a gyflawnwyd eisoes ar yr ochr gydnerthedd. Dyna sy'n cyfrif am y perthnasau gwaith agos a'r cydweithio clòs rhwng Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a Byrddau CONTEST, er mwyn osgoi dyblygu.

Ymlid

*BYDDWN YN MYND AR ÔL TERFYSGWYR AC YN GWEITHIO ER MWYN EU DWYN I
GYFIAWNDER*


(HEDDLU Diogelwch Cenedlaethol)

Mae'r llinyn hwn yn cael ei gyflawni'n bennaf gan rwydwaith Gwrthderfysgaeth yr Heddlu a Chyrff Diogelwch Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw thema'n bodoli ar ei phen ei hun ac mae'n amlwg bod meysydd cydweithio clir wedi'u nodi'n fanwl yn yr amcanion cyffredin.

CONTEST – Diogelu

Rhaglen wirfoddol, gyfrinachol yw ‘Channel’ sy’n gweithredu ledled Cymru a Lloegr i ddiogelu pobl a nodwyd yn rhai sy’n agored i gael eu denu at derfysgaeth. Cynhelir proses Panel ‘Channel’ o dan Ddyletswydd Statudol Adran 36 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Mae’n broses ddiogelu.

Diagram 1.0: Diagram o'r Llwybr



Canllaw Statudol Newydd y Swyddfa Gartref 2020

Canllaw Dyletswydd 'Channel' – Diogelu Pobl sy'n Agored i gael eu denu at Derfysgaeth.

Mwy o bwyslais ar y canlynol:

- Ymyrraeth Gynnar/Atal
- Cynnwys Aelodau'r Teulu yn y broses
- Fframwaith Sicrwydd Ansawdd

Cyfraddau Atgyfeirio: o fewn y flwyddyn ddiwethaf (rhwng mis Mai 2020 a mis Tachwedd 2021) cafwyd:

- Mwy o atgyfeiriadau mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol
- Proses Paneli 'Channel' sydd bellach yn cael ei rheoli dan y Gwasanaeth Diogelu

Prif themâu'r atgyfeiriadau:

- Ideoleg Ansicr/Cymysg
- Eithafiaeth Islamaidd

Beth sy'n gweithio'n dda ym mhroses y Panel 'Channel':

- Aml-asiantaeth wedi ei sefydlu ledled y sir, gan gynnwys gwasanaethau amrywiol y Cyngor
- Mae gan y Panel 'Channel' Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd sydd wedi dilyn hyfforddiant arbenigol y Swyddfa Gartref; a Chyflawni 'Channel' yn Lleol
- Mae'r Cadeirydd yn Rheolwr Awdurdod Lleol gyda chefnidir Diogelu
- Cynhaliodd Heddlu Dyfed-Powys hyfforddiant yn ddiweddar i Aelodau'r Panel
- Mae defnyddio Darparwyr Ymyrraeth yn allweddol i'r broses
- Mynediad at wasanaethau arbenigol sy'n gweithio gyda phobl a allai fod yn agored i gael eu denu at derfysgaeth

Fframwaith Sicrwydd Ansawdd

Datganiad Sicrwydd Blynyddol Panel 'Channel' – Cwblhawyd ym mis Ebrill 2022.

5 Maes Rheoli Allweddol (cyfanswm o 36 Safon)

1. Gofynion Cyfreithiol o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth 2015
2. Llywodraethiant Strategol
3. Cymwyseddau Cadeirio/Sgiliau
4. Swyddodgaeth a Ffurf y Panel
5. Diogelu Data

CONTEST – Strategaeth Hyfforddi

“ Mae'r bobl iawn ar draws y sefydliad yn derbyn y lefel iawn o hyfforddiant sy'n ofynnol i'w helpu i ddeall y risg o radicalesiddio a gwybod sut i gael cefnogaeth yn lleol.
(Dyletswydd Prevent i Awdurdodau Lleol, Meincnod 7)



Cyflwyniad

Mae Canllaw Dyletswydd 'Prevent' yn cadarnhau pa mor bwysig yw cynnig hyfforddiant i staff er mwyn gallu adnabod arwyddion radicalesiddio a bod yn hyderus wrth atgyfeirio unigolion a all dderbyn cefnogaeth yn y cyfnod cyn droseddol.


Mae aelodau staff Cyngor Sir Ceredigion yn rhyngweithio gydag amrywiaeth eang o bobl ac maent mewn sefyllfa dda i adnabod unigolion, teuluoedd neu gymunedau a all gael eu paratoi'n amhriodol ar gyfer gweithgaredd eithafol neu derfysgol.

Er mwyn cefnogi'r amcan hwn, mae tîm Dysgu a Datblygu Cyngor Sir Ceredigion wedi gweithio mewn partneriaeth â thimau Diogelwch a Diogelu Cymunedol i adolygu a blaenoriaethu ei hyfforddiant Atal 'Prevent' ledled y sefydliad.

Oherwydd amrywiaeth rolau'r rheng flaen, mabwysiadwyd ymagwedd raddol, gan sicrhau bod y staff priodol yn derbyn hyfforddiant ar y lefel berthnasol.

Clustnodwyd gwasanaethau rheng flaen a rhoddwyd blaenoriaeth hyfforddi i rolau rheng flaen penodol, os oedd y rôl yn cynnwys gwaith uniongyrchol rheolaidd gydag unigolion bregus, er enghraifft, i bob ymarferydd yn y gwasanaeth cymdeithasol, cwmselwyr ysgol, arweinwyr diogelu dynodedig ayb.

Lefelau Hyfforddi



Gweithdy= Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth o 'Prevent', i gael mwy o wybodaeth gweler troednodyn*

Hyfforddiant - Crynodeb o'r Cynnydd a wnaed hyd yma

- Mae hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o 'Prevent' (WRAP) ar gael i staff y rheng flaen, mae'r hyfforddiant wedi ei symud i fod ar-lein ac mae wedi parhau yn ystod y pandemig
- Mae hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o Prevent (WRAP) wedi ei hyrwyddo ac mae ar gael i'r gwasanaethau a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ceredigion a'n partneriaid
- Derbyniodd Rheolwyr Corfforaethol y Gwasanaeth Gydol Oes a Llesiant hyfforddiant arbenigol i godi ymwybyddiaeth o 'Prevent' a Phaneli 'Channel', a chyflwynwyd yr hyfforddiant hwnnw gan Heddlu Dyfed-Powys (Gorffennaf 2021)
- Cyflwynwyd 'Briffio Strategol' gan 'Prevent' i uwch arweinwyr ar draws y Cyngor ym mis Tachwedd 2021

Cynlluniau Hyfforddi ar gyfer y Dyfodol

- Datblygu pecyn e-ddysgu mewnol ar gyfer aelodau perthnasol o staff a hyfforddiant ategol (dogfen friffio 7 munud i staff)
- Cyflwyno hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer Aelodau Etholedig i godi ymwybyddiaeth a'u cynorthwyo i ddeall eu rôl yn y Ddyletswydd (y dyddiad i'w gadarnhau ar gyfer 2022)
- Briffio Strategol i Lywodraethwyr Ysgolion a Phenaethiaid – cwrs gloywi/diweddariad ynghylch 'Prevent'

****Beth yw'r Hyfforddiant i Godi Ymwybyddiaeth o Prevent (WRAP)?**

- Hyfforddiant sydd wedi ei gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref ac a gyflwynir gan hyfforddwyr achrededig
- Mae'n para 3 awr 45 munud

Amcanion Hyfforddi

- Deall Strategaeth Atal 'Prevent'
- Adnabod yr arwyddion sy'n dangos bod rhywun yn agored i gael ei radicleiddio
- Gwybod sut i ymateb i bryderon ac adrodd amdanynt

At bwy mae'n cael ei anelu?

- Pob aelod o staff ar y rheng flaen sydd â chyswllt uniongyrchol ag oedolion, plant a phobl ifanc
- Uwch swyddogion a goruchwylwyr y byddai aelodau eraill o staff yn debygol o fynd atynt am gyngor
- Pob aelod o staff a chanddynt rolau sy'n golygu bod ganddynt gyfrifoldeb am ddiogelwch plant ac oedolion
- Pob aelod o staff sydd mewn rolau a fydd â chyfrifoldebau allweddol am ddiogelu plant ac oedolion ac a fydd efallai yn gorfod cynorthwyo staff eraill gyda gweithdrefnau.

Cyngor Sir CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
Dyddiad y cyfarfod:	15 Mehefin 2022
Lleoliad:	O bell drwy Gynhadledd Fideo
Teitl:	Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad a Chyflwyniad i drefniadau Hunanasesu Perfformiad yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
Diben yr adroddiad:	Cyflwyno fersiwn ddrafft y Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad a'r broses Hunanasesu newydd
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet	Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau

Cefndir

Mae Rhan 6 y ddeddf newydd, sef **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** yn disodli hen Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac yn cyflwyno cyfundrefn perfformiad newydd i'r Prif Gynghorau, sy'n seiliedig ar hunanasesu. (Ceir Canllaw ar Ran 6 y Ddeddf yn Atodiad 1).

Bwriad y gyfundrefn perfformiad newydd yw adeiladu a chynnal diwylliant lle mae cynghorau wrthi'n barhaus yn ceisio gwella a rhagori ar y modd y maent yn gwneud pob dim, waeth pa mor dda y maent yn perfformio eisoes. Mae'r Ddeddf yn disgwyl y bydd cynghorau yn ymdrechu i wneud mwy ac yn ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl a chymunedau lleol. Un ffordd o wneud hyn yw drwy herio'r *status quo* yn barhaus, gan ofyn cwestiynau ynghylch y modd y gweithredir ar hyn o bryd.

Mae'r Ddeddf wedi cyflwyno pum dyletswydd benodol i Gynghorau:

- Y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus
- Y ddyletswydd i ymgynghori ar berfformiad
- Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad
- Y ddyletswydd i drefnu Asesiad o Berfformiad gan Banel
- Y ddyletswydd i ymateb i adroddiad ar Asesiad o Berfformiad gan Banel

Mae pwyslais hunanasesu ar ganlyniadau yn hytrach nag ar broses a bydd angen i awdurdodau lleol fabwysiadu dull o asesu eu perfformiad a fydd yn wahanol i'r dull a ddefnyddiwyd yn y gorffennol. Bydd angen bod yn fwy hunanfyfiol.

Tudalen 14

Mae Pennod 2 y Canllaw yn nodi'r rôl hanfodol y mae disgwyl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei chwarae yn y Broses Hunanasesu. Mae'r rôl hon yn golygu y bydd y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- Derbyn fersiwn ddrafft Adroddiad Hunanasesu'r Cyngor
- Adolygu fersiwn ddrafft yr Adroddiad Hunanasesu a gwneud argymhellion o ran y casgliadau neu'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd
- Derbyn yr Adroddiad Hunanasesu terfynol pan fo wedi'i gyhoeddi, gan gynnwys sylwadau yn nodi pam y derbyniodd neu na dderbyniodd yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Y Sefyllfa Bresennol

Hunanasesu

Yn ystod y misoedd diwethaf, datblygwyd proses ar gyfer cynnal Hunanasesiad a bydd y broses honn yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 15 Mehefin 2022 (gweler y sleidiau yn Atodiad 2).

Egwyddorion Craidd y Broses Hunanasesu yw:

- Cyhoeddi Adroddiad Hunanasesu sy'n cyflawni gofynion y ddwy ddeddf ganlynol:
 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – pennu ac adolygu cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol
 - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus, ymgynghori ar berfformiad, adrodd ar berfformiad, trefnu Asesiad o Berfformiad gan Banel ac ymateb i Asesiad ar Berfformiad gan Banel.
- Defnyddio dull Cwestiynau Allweddol neu ddull "Linellau Ymholi Allweddol" i sicrhau bod y broses yn canolbwyntio ar ganlyniadau, safbwynt y sefydliad cyfan ynghylch perfformiad a'i bod yn broses sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Cynnal gweithdy blynyddol i ymgymryd â'r Hunanasesiad, er mwyn gwneud y canlynol:
 - Nodi cryfderau, cyfleoedd a meysydd i'w gwella
 - Nodi'r dystiolaeth ar gyfer y sefyllfa bresennol
 - Diweddarau sgoriau
 - Nodi ein huchelgais a'r camau gweithredu ar gyfer gwella
- Cynnwys Hunanasesu o fewn System Berfformio Teifi a chreu 'Dangosfwrdd' Hunanasesu
- Cyhoeddi'r Adroddiad Hunanasesu yn flynyddol, h.y. un cylch = tua blwyddyn
- Cyhoeddi'r adroddiad hunanasesu ym mis Tachwedd i gydfynd â threfniadau cynllunio a llywodraethu corfforaethol eraill e.e. mae Hunanasesu yn sbardun allweddol ar gyfer Cynlluniau Busnes.

Dod yn rhan o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a Strategaeth Gorfforaethol

Nid yw hunanasesu yn broses sy'n sefyll ar ei phen ei hun, yn hytrach mae wedi ei chynnwys yn rhan o **drefniadau corfforaethol parhaus y Cyngor o safbwynt cynllunio a rheoli perfformiad**. Er enghraifft, mae'n hanfodol ar gyfer symbylu cynllunio busnes a rheoli risg, ac mae'n defnyddio canlyniadau monitro Cynlluniau Busnes a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol er mwyn gwerthuso ein perfformiad presennol a chwblhau'r hunanasesiad.

Yn ogystal, mae'n ategu'r broses o gynhyrchu strategaeth Gorfforaethol y Cyngor drwy ddarparu safbwynt y sefydliad cyfan ynghylch perfformiad, er mwyn cynorthwyo yn y broses o bennu blaenoriaethau. Fframwaith Perfformiad cyffredinol y Cyngor, sy'n cynnwys y broses hunanasesu, yw'r mecanwaith hefyd i sicrhau bod nodau ac amcanion Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yn cael eu cyflawni, wrth i ni gynllunio a monitro ein perfformiad, adrodd yn ei gylch a'i herio.

Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion broses Rheoli Perfformiad er mwyn sicrhau lefelau perfformio, effeithlonrwydd a chanlyniadau gwell i bobl leol. Fodd bynnag, mae cyflwyno cyfundrefn perfformiad newydd i Gynghorau, sy'n seiliedig ar Hunanasesu, ynghyd â'r angen i ddangos yr arfer orau ddiweddaraf, yn golygu bod angen diweddarau'r broses.

Mae Atodiad 3 yn amlinellu fersiwn ddrafft y Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad newydd arfaethedig, i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ei ystyried. Mae'r Datganiad drafft yn amlinellu egwyddorion arweiniol ymagwedd y Cyngor i reoli perfformiad yn y dyfodol, ac mae'n rhoi ystyriaeth i'r ddeddfwriaeth newydd a'r arfer orau.

Yn benodol, mae'n tanlinellu'r rôl hanfodol y mae rheoli perfformiad yn ei chwarae yn y broses o sicrhau canlyniadau gwell i bobl a chymunedau Ceredigion, drwy gynorthwyo gyda'r dasg o bennu polisi ac wrth wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Er mwyn cael y budd pennaf o reoli perfformiad, bydd y Cyngor yn sefydlu Fframwaith Rheoli Perfformiad effeithiol a fydd yn cael ei ymgorffori yn niwylliant y sefydliad.

Bydd fersiwn ddrafft y Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad a'r broses Hunanasesu benodol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 15 Mehefin 2022.

**Argymhelliad/Argymhellion): Derbyn a chymeradwyo fersiwn ddrafft y
Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad a'r trefniadau**

Tudalen 16

Hunanasesu (yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadu (Cymru) 2021, gan wneud argymhellion fel sy'n briodol pan gaiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r Cabinet ar 6 Medi 2022.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Mabwysiadu Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad, a ddiweddarwyd ac sy'n amlinellu'r egwyddorion arweiniol ar gyfer rheoli perfformiad yn y Cyngor ac sy'n bodloni gofynion Rhan 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Hysbysu'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu am y cynnydd a wneir o ran Adran 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Atodiadau:

Atodiad 1 – Canllaw i Ran 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Atodiad 2 – Sleidiau'r Broses Hunanasesu

Atodiad 3 – Fersiwn Ddrafft y Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)

Swyddog Adrodd:

Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)

Dyddiad:

24 Mai 2022



Perfformiad a llywodraethu prif gynghorau

Canllawiau statudol ar Ran 6,
Pennod 1, o Ddeddf Llywodraeth
Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Canllawiau statudol i brif gynghorau ar Ran 6, Pennod 1, o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau statudol i brif gynghorau ynghylch arfer eu swyddogaethau perfformiad a llywodraethu o dan Ran 6, Pennod 1, o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Bwriedir i'r canllawiau hyn fod yn ganllawiau o dan adran 89(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar ôl iddi gychwyn.

Y camau sy'n ofynnol

Rhaid i brif gynghorau roi sylw i'r canllawiau hyn wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 6, Pennod 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r pwerau a'r dyletswyddau ym Mhennod 1 o Ran 6 yn gymwys o 1 Ebrill 2021, ac eithrio'r swyddogaethau sy'n ymwneud ag asesiadau perfformiad gan banel, a ddaw i rym yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf ym mis Mai 2022. Rhaid i gynghorau roi sylw i'r canllawiau cyn gynted ag y bydd y pwerau a'r dyletswyddau perthnasol yn dod i rym.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Is-adran Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol

Y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Email: LGPartnerships@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru

Rhagair

Mae cryfhau a grymuso llywodraeth leol yn ganolog i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu newydd a nodir yn y Ddeddf yn elfen sylfaenol o hyn – mae'n diffinio prif gynghorau'n bendant fel sefydliadau sy'n gwella eu hunain drwy system sy'n seiliedig ar hunanasesu ac ar asesiadau o berfformiad gan baneli.

Bwriad y dull hwn yw adeiladu ar ddiwylliant lle mae cynghorau'n herio'r status quo yn barhaus, yn gofyn cwestiynau ynghylch sut y maent yn gweithredu, ac yn ystyried yr arferion gorau yng Nghymru ac yn ehangach. Bydd yn bwysig i'r sector cyfan arwain y gwaith o weithredu'r drefn newydd, cefnogi gwelliant a rhannu datblygiadau arloesol ac arferion gorau.

Fy nisgwyliad i yw, wrth ystyried pa mor dda y mae cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad a nodir yn y Ddeddf, naill ai fel rhan o hunanasesiad neu asesiad o berfformiad gan banel, yw y dylid rhoi'r pwyslais bob amser ar anelu at fod y gorau. Mae'r graddau y mae cyngor yn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau cyfreithiol yn rhan greiddiol o ofnion perfformiad y cyngor. Fodd bynnag, dylai cynghorau bob amser fod yn ymdrechu i wneud mwy - nid dim ond bodloni'r gofynion sylfaenol, ond ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.

Gan ddefnyddio tai fel enghraifft, gallwn i gyd ymrwymo i'r uchelgais o ddarparu tai digonol i bawb, gydag awdurdodau'n ymyrryd yn gynharach ac yn mynd y tu hwnt i gyflawni'r gofynion deddfwriaethol gofynnol yn unig. Fy uchelgais yw diwylliant lle mae pob rhan o gyngor bob amser yn anelu at wneud yn well ym mhopeth a wnânt, waeth pa mor dda y maent yn perfformio eisoes. Bydd hunanasesu gonest ac agored ar bob lefel o'r cyngor yn rhan sylfaenol o hyn.

Rwyf hefyd yn gweld cydweithio, er enghraifft rhwng cyflogwyr ac undebau llafur, yn bwysig er mwyn gwella perfformiad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a chyfrannu at well llesiant i weithwyr. Mae'r Prif Weinidog wedi nodi ein bwriad i ddeddfu i ymgorffori egwyddor partneriaeth gymdeithasol yn nhrefniadaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. O'r herwydd, rwy'n gweld gweithredu arferion partneriaeth gymdeithasol yn rhan allweddol o waith cyngor wrth iddo arfer ei swyddogaethau a defnyddio ei adnoddau'n effeithiol.

Rwy'n ddiolchgar i gydweithwyr ym maes llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill am weithio mor adeiladol i lunio'r canllawiau hyn ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn ogystal â pbawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ffurfiol ar y fersiwn ddrafft. Mae'r egwyddor o gyd-ddatblygu yn ganolog i sicrhau bod y canllawiau hyn yn werthfawr i gynghorau, yn hwyluso gweithredu'r darpariaethau ac, yn anad dim, yn sicrhau bod y dull newydd yn gyfle ystyrllon i gryfhau llywodraeth leol yn barhaus.

Julie James AS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Cynnwys

Crynodeb.....	5
Y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus.....	5
Y ddyletswydd i ymgynghori ar berfformiad	5
Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad.....	5
Y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel.....	6
Y ddyletswydd i ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel	6
Pennod 1 – Cyd-destun polisi a diben y gyfundrefn perfformiad a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.....	8
Cyd-destun polisi	8
Y nodau llesiant fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.....	9
Y pum ffordd o weithio	9
Diben y darpariaethau ar gyfer perfformiad a llywodraethu	10
Yr amgylchedd ehangach y mae'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu yn gweithredu oddi mewn iddo	11
Cymorth i wella	14
Pennod 2 – Y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus, ymgynghori arno ac adrodd arno drwy hunanasesiad	15
Cyflwyniad.....	15
Dyletswydd prif gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus.....	15
Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad drwy hunanasesu.....	15
Diben hunanasesu	16
Y dull hunanasesu	16
Rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith.....	19
Adroddiad hunanasesu	20
Cymryd camau mewn perthynas â hunanasesu	21
Pwy y dylid ei gynnwys yn yr hunanasesiad	22
Cynnwys pwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor	22
Cyhoeddi'r adroddiad hunanasesu.....	22
Pennod 3 – Y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo.	24
Cyflwyniad.....	24
Dyletswydd prif gyngor i drefnu asesiad o berfformiad gan banel.....	24

Tudalen 21

Diben asesiad o berfformiad gan banel	25
Y dull o gynnal asesiad o berfformiad gan banel	26
Amseru	27
Paratoi cyn yr asesiad.....	28
Penodi panel.....	28
Rôl y panel wrth gynnal asesiad o berfformiad gan banel.....	29
Adroddiad ar asesiad gan banel	31
Cyhoeddi'r adroddiad ar asesiad gan banel.....	32
Ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad gan banel.....	32
Cynnwys y pwyllgor llywodraethu ac archwilio	33
Cyhoeddi'r ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad gan banel.....	33
Pennod 4 – Arolygiadau arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru	34
Cyflwyniad.....	34
Y pŵer i gynnal arolygiad arbennig	34
Y ddyletswydd i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – prif gyngor	35
Y ddyletswydd i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – Gweinidogion Cymru	36
Pennod 5 – Cefnogaeth a chymorth i wella perfformiad ac ymyrraeth gan Weinidogion Cymru	37
Cyflwyniad.....	37
Cefnogaeth a chymorth gan Weinidogion Cymru.....	37
Pwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn prif gyngor.....	38

Crynodeb

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn darparu ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut y dylai prif gynghorau gyflawni eu dyletswyddau a nodir yn Rhan 6 o Bennod 1 o'r Ddeddf sy'n ymwneud â pherfformiad a llywodraethu prif gynghorau.

Rhaid i gyngor roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau o dan Ran 6 o Bennod 1 o'r Ddeddf.

Bwriedir i'r canllawiau helpu cynghorau i ddeall a chyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â pherfformiad a llywodraethu, gan gydnabod y bydd cynghorau am gael eu hannog i ddatblygu eu dull gweithredu eu hunain yn unol â'u rhwymedigaethau statudol ehangach, amgylchiadau lleol, strwythurau corfforol ac arferion gorau ac y dylid eu hannog i wneud hynny.

Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin yn benodol â'r dyletswyddau canlynol:-

Y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus

Mae adran 89 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau:-

- y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

Y ddyletswydd i ymgynghori ar berfformiad

Mae adran 90 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor ymgynghori ag amrywiaeth o bobl o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad. Yr ymgynghoreion statudol yw:-

- a) pobl leol;
- b) pobl eraill sy'n rhedeg busnes yn ardal y cyngor;
- c) staff y cyngor;
- d) pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (cym. 52)) gan y cyngor.

Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad

Mae adran 91 o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i gyngor lunio adroddiad hunanasesu mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ynghylch i ba raddau y bodlonodd y gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae wedi'u cymryd eisoes, er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

Y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel

Mae adran 92 o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i gyngor drefnu i banel gynnal asesiad o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin olynol ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor, er mwyn nodi i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.

Y ddyletswydd i ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel

Mae adran 93 o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i gyngor baratoi ymateb i bob adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel, gan nodi i ba raddau y mae'n derbyn y casgliadau yn yr adroddiad, i ba raddau y mae'n bwriadu dilyn unrhyw argymhellid yn yr adroddiad ac unrhyw gamau y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio'n benodol at y dyletswyddau hyn ar gyngor ac yn nodi'r disgwiliadau o ran sut y bydd cyngor yn cyflawni'r dyletswyddau hyn. Mae'r holl ddyletswyddau'n berthnasol i gynghorau o 1 Ebrill 2021, ac eithrio'r dyletswyddau mewn perthynas ag asesiadau perfformiad gan banel, a ddaw i rym yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf ym mis Mai 2022. Bydd yn ofynnol i gynghorau roi sylw i'r canllawiau unwaith y daw'r dyletswyddau perthnasol i rym.

Ceir darpariaethau eraill yn Rhan 6 o'r Ddeddf, megis pwerau i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiadau arbennig o gyngor; pwerau i Weinidogion Cymru roi cefnogaeth a chymorth i gyngor er mwyn gwella ei berfformiad; pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn cyngor nad yw'n bodloni'r gofynion perfformiad neu y mae'n bosibl nad yw'n eu bodloni. Disgrifir yr elfennau hyn o'r Ddeddf yn y canllawiau hyn hefyd, gydag unrhyw ddyletswyddau a osodir ar gynghorau yn y darpariaethau hyn yn cael eu nodi'n glir.

Mae'r canllawiau wedi'u trefnu fel a ganlyn:-

Pennod 1 – sy'n disgrifio'r cyd-destun polisi lle mae'r dyletswyddau o ran perfformiad a llywodraethu wedi'u gosod, a diben y dyletswyddau.

Pennod 2 – sy'n esbonio'r ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus; ddyletswydd i ymgynghori â phobl leol ac eraill ar berfformiad; ac mae'n rhoi canllawiau ar y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad, yn benodol drwy gynnal hunanasesiad.

Pennod 3 – sy'n rhoi canllawiau ar y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo.

Pennod 4 – sy'n disgrifio pŵer Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiad arbennig; dyletswydd cyngor i ymateb i unrhyw argymhellion ar gyfer camau y dylai eu cymryd; a dyletswydd Gweinidogion Cymru i ymateb i unrhyw argymhellion ar gyfer camau y dylent eu cymryd;

Pennod 5 – sy'n disgrifio pwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru a chynghorau mewn perthynas â chefnogi perfformiad a helpu i'w wella; a phwerau i

Tudalen 24


Weinidogion Cymru ymyrryd os bydd Gweinidogion o'r farn ei bod yn debygol nad yw'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad neu ei bod yn bosibl nad yw'n eu bodloni.

Pennod 1 – Cyd-destun polisi a diben y gyfundrefn perfformiad a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Cyd-destun polisi


- 1.1 Mae cynghorau yn atebol yn ddemocrataidd am berfformiad eu gwasanaethau, gan gynnwys eu trefniadau llywodraethu. Cânt eu cynorthwyo drwy gyrff archwilio allanol, arolygu a rheoleiddio sy'n chwarae rôl allweddol wrth sicrhau ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- 1.2 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“y Ddeddf”) yn dileu'r ddyletswydd bresennol i wella ar gyfer cynghorau a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac yn cyflwyno system newydd yn ei lle. Bwriedir i'r dull newydd o weithredu fel y'i nodir yn y Ddeddf fod yn ddull symlach a mwy hyblyg a arweinir gan y sector o sicrhau perfformiad, llywodraethu da a gwelliant. Y bwriad yw y bydd cynghorau yn mynd ati'n rhagweithiol i ystyried sut y dylai prosesau a gweithdrefnau mewnol newid er mwyn i brosesau cynllunio, cyflawni a phenderfynu mwy effeithiol allu cyflawni canlyniadau gwell.
- 1.3 Mae'r darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethu yn y Ddeddf wedi'u llunio yng nghyd-destun y ddyletswydd llesiant ehangach yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n nodi diben cyffredin cyfreithiol gyfrwymol i'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf honno wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n nodi saith nod llesiant y mae'n rhaid i'r cyrff cyhoeddus hyn weithio tuag atynt a phum ffordd o weithio i lywio'r ffordd y dylai cyrff cyhoeddus gyflawni.
- 1.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r cyd-destun lle y dylai cynghorau fod yn arfer eu swyddogaethau, yn defnyddio eu hadnoddau ac yn sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu yn effeithiol, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant.
- 1.5 At hynny, mae'r darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethu a nodir yn y Ddeddf yn cyd-fynd â dyletswyddau eraill a osodir ar gynghorau, megis y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Deddf Cydraddoldeb 2010), a ddaw i rym ar 31 Mawrth 2021. Bydd y ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau, wrth wneud penderfyniadau strategol megis ‘penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion’, ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol – gan helpu i sicrhau canlyniadau gwell o ran bywydau a phrofiadau pobl drwy well prosesau gwneud penderfyniadau a chyfrannu ymhellach at ein nod cyffredin o greu “Cymru sy'n fwy cyfartal”.

Y nodau llesiant fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015


<p>Llewyrchus</p> <p>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.</p>	<p>Cydnherth</p> <p>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).</p>	<p>Iachach</p> <p>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl i lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.</p>
 <p>LLESANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS</p>		<p>Mwy Cyfartal</p> <p>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).</p>
<p>Cyfrifol ar lefel byd-eang</p> <p>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.</p>	<p>Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p> <p>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.</p>	<p>Cymunedau Cydlynus</p> <p>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.</p>

Y pum ffordd o weithio


- Hirdymor**




Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
- Atal**




Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- Integreiddio**



Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrrff cyhoeddus eraill.
- Cydweithio**



Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
- Cynnwys**



Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

Diben y darpariaethau ar gyfer perfformiad a llywodraethu

- 1.6 Diben y darpariaethau ar gyfer perfformiad a llywodraethu yn y Ddeddf yw cefnogi diwylliant datblygol lle mae cynghorau yn mynd ati i geisio a chrosawu her, p'un a gaiff ei chyflwyno o'r tu mewn i'r cyngor, er enghraifft drwy weithdrefnau craffu, neu'n allanol. Bwriedir i'r darpariaethau ddarparu fframwaith sy'n helpu cynghorau, drwy broses adolygu barhaus, i feddwl am eu perfformiad a pha mor effeithiol ydynt nawr ac yn y dyfodol; annog sefydliadau mwy chwilfrydig sy'n barod i herio eu hunain i wneud mwy a bod yn fwy arloeso, ac i fod yn fwy uchelgeisiol o ran yr hyn a wnânt.
- 1.7 Mae'r darpariaethau yn adlewyrchu'r egwyddorion, er mwyn i unrhyw sefydliad fod yn effeithiol, fod angen iddo ddeall ei sefyllfa bresennol, bod yn glir ynghylch yr hyn y mae am ei gyflawni, meddu ar gynllun cadarn o ran y ffordd y bydd yn gwneud hynny, a nodi a rheoli'r risgiau er mwyn ysgogi gwelliant. Nid yw sefydliad gwirioneddol effeithiol byth yn cael ei fodloni gan safonau presennol, hyd yn oed os ydynt yn dda neu'n rhagorol, yn hytrach dylai bob amser ymdrechu i wneud mwy.
- 1.8 Mae'r darpariaethau yn ymgorffori myfyrio ar berfformiad a chymau gweithredu i wella yn y system. Ni fwriedir i hyn fod yn feichus nac yn llethol ond yn hytrach bwriedir iddo sicrhau bod cynghorau yn ystyried ac yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol i'w cymunedau.
- 1.9 Gwelliant yn y cyd-destun hwn yw gallu'r cyngor i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau uniongyrchol a pharhau i allu ymateb i'r amgylchedd sy'n newid lle mae'n gweithredu. Mae a wnelo â gallu'r cyngor i ystyried sut mae ei brosesau mewnol a'i staff yn gweithredu er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol ar gyfer yr hirdymor, gan weithio gyda'r cymunedau amrywiol iawn a wasanaethir ganddynt, a sut y bydd yn mynd ati i wella'r rhain er mwyn gwneud penderfyniadau gwell a sicrhau canlyniadau gwell i bawb.
- 1.10 Gwneud yn well ddylai'r uchelgais fod bob amser – nid dim ond cyflawni'r targedau neu'r dyletswyddau gofynnol ond mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau, gan sicrhau bod y cyngor yn cyflawni'r canlyniadau cywir ac yn darparu'r hyn sydd ei eisiau ar bobl. Dylai rhannu arferion gorau a dysgu ohonynt a cheisio bod yn well (hyd yn oed os mai ef yw'r gorau yn y dosbarth) fod yn rhan annatod o ddull gweithredu cyngor.
- 1.11 Er enghraifft, o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i awdurdod lleol ddarparu cymorth pan fo unigolion dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod. Er mai hwn yw'r gofyniad sylfaenol o dan y gyfraith, dylai cynghorau ac asiantaethau partner megis cymdeithasau tai, wrth gyflawni eu swyddogaethau presennol, roi ystyriaeth briodol i'r ffordd y gellir defnyddio'r swyddogaethau hyn er mwyn helpu i ddarparu tai digonol; gan anelu at ymyrryd yn llawer cynt nag sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth.
- 1.12 Dylid ystyried meysydd i'w gwella yn onest a dylid ymchwilio iddynt er mwyn sicrhau y caiff problemau eu hatal neu yr ymdrinnir â nhw cyn iddynt fynd yn systematig. Dylai dull gweithredu o'r fath fod yn rhan annatod o'r ffordd y mae

cynghorau yn gweithredu. Er enghraifft, dylai gweithredwyr cynghorau groesawu ac annog ymchwiliadau craffu er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer gwella systemau a bydd pwyllgorau llywodraethu ac archwilio yn chwarae rôl allweddol yn y gyfundrefn perfformiad a llywodraethu. Y nod yw helpu cynghorau i adeiladu ar gryfderau presennol a chreu sector mwy arloesol, agored, gonest, tryloyw ac uchelgeisiol, sy'n herio ei hun a lle mae cynghorau ar y cyd yn mynd ati i wella canlyniadau a safonau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ledled Cymru.

- 1.13 Bydd galluogi a chefnogi newid diwylliannol a sefydliadol o fewn llywodraeth leol drwy'r darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethu yn y Ddeddf yn helpu i sicrhau cynghorau cryf a all gyflawni eu hamcanion llesiant a gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol.

Yr amgylchedd ehangach y mae'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu yn gweithredu oddi mewn iddo

- 1.14 Bydd y darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethu a geir yn y Ddeddf yn cyd-fynd â threfniadau archwilio, arolygu rheoleiddio a phartneriaeth.
- 1.15 Nodir rhai cyfrifoldebau unigol mewn perthynas â'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu yn fras isod. Mae rhai o'r rhain yn bwerau a dyletswyddau statudol, a nodir yn y Ddeddf neu mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth, ac mae rhai yn deillio o drefniadau anstatudol.

Mae prif gynghorau yn gyfrifol am y canlynol:-

- Cynnal hunanasesiadau cadarn ac adrodd ar y graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ei gymunedau lleol.
- Nodi unrhyw gamau gweithredu i gynyddu'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, gan gynnwys, er enghraifft, rôl craffu wrth herio a chynyddu'r graddau y mae'r gofynion perfformiad yn cael eu bodloni.
- Comisiynu asesiadau o berfformiad gan banel o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin olynol ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor.
- Ceisio cymorth / her gan gymheiriaid a phartneriaid lle y bo angen, ac ymgynghori â staff, pobl leol ac undebau llafur ynghylch y graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn gyfrifol am y canlynol:-

- Cefnogi cynghorau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Darparu gwybodaeth gynnar a chymorth cynnar a arweinir gan y sector er mwyn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a nodwyd, er enghraifft, drwy

hunanasesiadau, asesiadau o berfformiad gan banel neu adroddiadau archwilio, arolygu neu reoleiddio.

Mae Archwilio Cymru¹ yn gyfrifol am y canlynol:-

- Archwilio cyfrifon.
- Edrych ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys eu trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, a gwneud argymhellion er mwyn sicrhau bod llywodraeth leol yn cynnig gwell gwerth am arian.
- Asesu i ba raddau y mae cyngorau yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Cynnal 'Arolygiadau Arbennig', fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Gwneud argymhellion priodol i gyngorau a Gweinidogion Cymru.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gyfrifol am y canlynol:

- Annog gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cymdeithasol, gofal cymdeithasol a gofal plant.
- Rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol gan gynnwys adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol o dan Ddeddf Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal plant a chwarae o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.
- Rhoi cyngor i Weinidogion ar y defnydd posibl o'u pwerau ymyrryd a monitro ymweliadau â chynghorau yn ôl y gofyn ac fel y cytunir gan y Gweinidog.
- Rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion Cymru.

¹ Archwilio Cymru yw nod masnach dau endid cyfreithiol, sef: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gan bob un ei bwerau a'i ddyletswyddau penodol ei hun. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ac yn monitro'r Archwilydd Cyffredinol ac yn rhoi cyngor iddo.

Mae Estyn yn gyfrifol am y canlynol:-

- Arolygu, gwerthuso ac adrodd ar berfformiad cynghorau mewn perthynas â'u dyletswyddau fel y'u disgrifir gan adrannau 38 i 41 o Ddeddf Addysg 1997, adrannau 75, 76, 123 a 127 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac adrannau 25, 26 a 51 o Ddeddf Plant 2004.
 - Gwneud argymhellion priodol i gynghorau a Gweinidogion Cymru er mwyn cefnogi gwelliant.
- 1.16 Bydd llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru ac archwilwyr, arolygwyr, rheoleiddwyr a chomisiynwyr yn parhau i gydweithio i rannu gwybodaeth, codi achosion a allai beri pryder a chytuno ar ddulliau o gefnogi gwelliant. Mae meithrin y ddealltwriaeth hon a rennir yn allweddol er mwyn sicrhau ffocws clir ar gyfer gwelliant cyson a pharhaus.
- 1.17 Dylai cynghorau ddefnyddio canfyddiadau pwyllgorau craffu, archwilwyr, arolygwyr, rheoleiddwyr a chomisiynwyr ynglŷn â'r ffordd y mae cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau ac yn llywodraethu ei hun er mwyn llywio ei hunanasesiad ac, yn yr un modd, gall y paneli sy'n cynnal asesiad o berfformiad hefyd ddefnyddio'r dystiolaeth hon i lywio eu hargymhellion.
- 1.18 Dylid canolbwyntio ar ddealltwriaeth a rennir o'r hyn y mae pob un o'r ffynonellau hyn, gyda'i gilydd, yn ei ddatgelu ac, yn bwysicaf oll, y camau y dylid eu cymryd o ganlyniad i hynny. Nid yw hunanasesiadau ac asesiadau o berfformiad gan banel, mewn unrhyw ffordd, yn disodli, nac yn cymryd lle, rôl archwilwyr, arolygwyr na rheoleiddwyr.
- 1.19 Dylai hunanasesiadau ac asesiadau o berfformiad gan banel o'r ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad hefyd gael eu llywio gan drefniadau perfformiad eraill mewn meysydd gwasanaeth penodol ond ni ddylent gael eu dyblygu ganddynt.
- 1.20 Er enghraifft, mae'r *Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*² yn nodi'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a'r ffordd y caiff gwelliannau i wasanaethau ac ar gyfer unigolion eu cefnogi, eu mesur a'u cynnal gan gynghorau. Ni fydd y broses hunanasesu a nodir yn y canllawiau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ailystyried swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol yn fanwl, ond bydd y dystiolaeth sy'n deillio o'r *Cod ymarfer* yn llywio'r ddealltwriaeth strategol ehangach o'r ffordd y mae'r cyngor yn gweithredu yn gyffredinol, yn defnyddio ei adnoddau ac yn cyflawni ar gyfer y bobl yn ei ardal.
- 1.21 Yn yr un modd, mae diwygiadau i drefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ar gyfer ysgolion wedi tynnu sylw at bwysigrwydd prosesau hunanwerthuso cadarn a pharhaus ar gyfer pob haen o'r system addysg. Yn achos cynghorau,

² [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru \(Llywodraeth Cymru, 2020\)](#)

Tudalen 31

golyga hyn werthuso effeithiolrwydd ac effaith eu gwasanaethau er mwyn cefnogi ysgolion, y gellir ei ddefnyddio hefyd i lywio ei hunanasesiad ehangach.

Cymorth i wella

- 1.22 Dim ond un rhan o daith wella cyngor yw adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.
- 1.23 Gall yr hunanasesiad a'r asesiad o berfformiad gan banel a gynhelir gan gyngor bennu pryd a sut i fanteisio ar unrhyw gymorth i wella a'r holl gymorth i wella sydd ar gael i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni ei ofynion perfformiad.
- 1.24 Yn y pen draw, y nod yw galluogi cyngorau i nodi a datrys problemau cyn y bydd angen unrhyw gymorth neu ymyrraeth ffurfiol, statudol. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi cymorth a, lle y bo angen, ymyrryd mewn prif gynghorau sy'n wynebu problemau sylweddol.

Pennod 2 – Y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus, ymgynghori arno ac adrodd arno drwy hunanasesiad

Cyflwyniad

- 2.1 Dylai'r bennod hon o'r canllawiau gael ei darllen gan gyngor er mwyn ei helpu i gyflawni ei ddyletswyddau yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") i adolygu ei berfformiad yn barhaus; i ymgynghori â phobl leol ac eraill ynghylch i ba raddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad; ac i adrodd ar ei berfformiad drwy adroddiad hunanasesu. Mae'r canllawiau yma yn adlewyrchu'r gofynion sylfaenol ar gyfer hunanasesu, gan gydnabod mai cynghorau sydd yn y sefyllfa orau i adeiladu ar hyn er mwyn datblygu manylion eu dull gweithredu eu hunain.
- 2.2 Dylid defnyddio canfyddiadau'r hunanasesiad i lywio a nodi meysydd lle y gallai fod angen gwneud gwelliannau neu newidiadau a lle y gallai cymorth a arweinir gan y sector fod yn werthfawr.

Dyletswydd prif gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus

- 2.3 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor yng Nghymru adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau:-
- **y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;**
 - **y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;**
 - **y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.**
- 2.4 Bwriedir i'r ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus adlewyrchu dyletswyddau parhaol presennol y mae cynghorau eisoes yn ddarostyngedig iddynt (h.y. eu "swyddogaethau"). Mae cynghorau yn gweithredu o fewn fframwaith statudol o ddyletswyddau a phwerau cyfreithiol ac ni fwriedir atgynhyrchu'r rhain yn fanwl yma. Mae'r gofynion perfformiad yn ymwneud ag ystyried pa mor effeithiol y mae cyngor yn gweithredu, nid yn unig o ran cyflawni amcanion unigol, ond o ran y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau, yn defnyddio ei adnoddau ac yn llywodraethu ei hun.

Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad drwy hunanasesu

- 2.5 Y dull sydd i'w ddefnyddio gan gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus yw hunanasesu, gyda dyletswydd i gyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Caiff yr hunanasesiad ei ategu gan asesiad o berfformiad gan banel unwaith mewn cylch etholiadol, a fydd yn cynnig cyfle i geisio sylwadau allanol (ac eithrio gan archwilwyr, rheoleiddwyr neu arolygwyr) ar y ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.

Diben hunanasesu

- 2.6 Mae hunanasesu yn ffordd o adolygu'r sefyllfa bresennol, yn feirniadol ac yn onest, er mwyn gwneud penderfyniadau ar sut i sicrhau gwelliant i'r dyfodol. Mae mwy i hunanasesu na datgan pa drefniadau sydd ar waith; mae a wnelo ag ystyried pa mor effeithiol yw'r trefniadau hyn a sut y gellir eu gwella. Mae hunanasesu sut mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad yn rhoi perchenogaeth o'r perfformiad a'r gwelliant yn gadarn i gynghorau.
- 2.7 Mae ystyried i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad yn asesiad sefydliadol, corfforaethol yn hytrach nag asesiad o wasanaethau unigol. Er enghraifft, dylai ystyried rôl arweinwyr a pha mor effeithiol yw'r gydberthynas rhwng yr arweinwyr gwleidyddol ac uwch-swyddogion yn y cyngor, o ran sicrhau y gall y cyngor ymateb i'r amgylchedd sy'n newid lle mae'n gweithredu. Mae a wnelo â sicrhau bod cyngor yn hunanymwybodol, ei fod yn deall a yw'n cyflawni'r canlyniadau cywir a'i fod yn herio ei hun i barhau i wella'r modd y mae'n rheoli'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ac yn perfformio fel gwarcheidwad yr ardal.
- 2.8 Gall cyngor asesu ei hun drwy ddefnyddio gwybodaeth sydd eisoes yn cael ei dal yn gorfforaethol yn graff, gan fyfyrion ar lefel strategol ar y ffordd y mae'r cyngor yn gweithredu a pha gamau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau y gall barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol nawr ac yn yr hirdymor.

Y dull hunanasesu

- 2.9 Fel y nodwyd uchod, gall hunanasesu sicrhau bod cyngor yn berchen ar ei berfformiad a'i welliant ei hun. Felly, bydd pob cyngor unigol yn awyddus i benderfynu ar ei ddull hunanasesu ei hun, sydd wedi'i lunio i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol a strwythurau corfforaethol ac wedi'u llywio gan arferion gorau, a dylai fod yn rhydd i wneud hynny.
- 2.10 Yn achos rhai cynghorau, bydd hunanasesu eisoes yn rhan annatod o drefniadau llywodraethu strategol a chorfforaethol parhaus a bydd llawer (os nad pob un) wedi defnyddio hunanasesu fel rhan o'r gwaith o reoli gwasanaethau yn weithredol ac ar lefel gorfforaethol.
- 2.11 Ar ei lefel symlaf, mae a wnelo hunanasesu â'r ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad â gofynion y cwestiynau canlynol:
- Pa mor dda rydyn ni'n gwneud?
 - Sut rydyn ni'n gwybod hynny?
 - Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Dylid gofyn y cwestiynau hyn yng nghyd-destun y gofynion perfformiad.

- 2.12 Nodir isod rai egwyddorion allweddol y dylai cyngor eu hystyried wrth lunio ei ddull hunanasesu:
- Nid yw hunanasesiad yn farn sefydlog. Er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol, dylai ymgorffori hunanasesu ym mhob rhan o sefydliad fod yn

Tudalen 34

broses barhaus, sy'n mynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi, ac sy'n ymateb mewn amser real ac yn effeithiol i heriau a chyfleoedd.

- Mae'n gyfle i broses ystyrion gyfrannu at atgyfnerthu llywodraeth leol, yn hytrach na bod yn ymarfer cydymffurfio.
- Dylai'r broses hunanasesu annog gonestrwydd, gwrthrychedd a thryloywder ynghylch perfformiad a llywodraethu y cyngor, gan gynnwys ei gydberthnasau allweddol rhwng arweinwyr gwleidyddol a swyddogion a'r ffordd y maent yn cael eu rheoli.
- Byddai dull gweithredu effeithiol yn cael ei berchenogi a'i arwain ar lefel strategol, ond byddai hefyd yn cynnwys aelodau a swyddogion ar bob lefel o'r sefydliad ac amrywiaeth o bobl ar draws cymunedau a phartneriaid.
- Dylai hunanasesiad fod yn ddadansoddiad seiliedig ar dystiolaeth sy'n helpu'r cyngor i ddeall beth mae amrywiaeth o wybodaeth feintiol ac ansoddol sydd ar gael iddo yn ei ddatgelu am y ffordd y mae'n arfer ei swyddogaethau, yn defnyddio ei adnoddau ac yn llywodraethu ei hun.
- Dylai'r hunanasesiad ganolbwyntio ar ganlyniadau, yr hyn a gyflawnwyd yn hytrach na'r broses, a gofyn cwestiynau gonest am effaith gweithredoedd y cyngor ar fywydau a phrofiadau pobl.
- Ni ddylai hunanasesu fod yn broses annibynnol, yn hytrach dylai fod wedi'i integreiddio fel rhan o brosesau cynllunio, perfformiad a llywodraethu corfforaethol y cyngor.

2.13 Bydd yr hunanasesiad, o reidrwydd, yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau mewnol ac allanol, gan sicrhau sail dystiolaeth eang er mwyn llywio'r camau y bydd y cyngor yn eu cymryd i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad yn y dyfodol.

2.14 Gall rhai ffynonellau a allai lywio'r hunanasesiad, ac a fydd ar gael i'r cyngor eisoes, gynnwys:-

- adroddiadau a luniwyd eisoes gan y cyngor mewn ymateb i ofynion statudol, megis yr adroddiad blynyddol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni amcanion llesiant y sefydliad fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; datganiad am reolaeth fewnol sy'n ofynnol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014; adroddiadau cydraddoldeb blynyddol; adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac ati;
- tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau arolygu a rheoleiddio, gan gynnwys adroddiadau gan Estyn, Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru;

Tudalen 35

- adroddiadau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, megis adroddiadau budd cyhoeddus, adroddiadau thematig a'i adroddiadau ar ei liwt ei hun, yn ogystal ag adroddiadau'r Awdurdod Safonau Cwynion;
 - hunanwerthusiadau y gall y cyngor fod wedi'u cynnal eisoes mewn perthynas â meysydd gwasanaeth penodol, neu wedi cymryd rhan ynddynt mewn perthynas â gwaith partneriaeth;
 - canfyddiadau unrhyw asesiad o'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni ei amcanion llesiant, unrhyw adolygiadau a gynhaliwyd neu unrhyw gyngor a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru am y ffordd y mae'r cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant;
 - unrhyw ymchwiliad neu asesiad a gynhaliwyd, unrhyw gyngor a roddwyd neu unrhyw argymhelliad a wnaed gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn perthynas ag atgyfnerthu camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau allweddol;
 - unrhyw adroddiadau hunanwerthuso ar y swyddogaeth graffu yn erbyn y canlyniadau a'r nodweddion ar gyfer gwaith goruchwyllo a chraffu effeithiol gan lywodraeth leol;
 - dangosyddion rheoli perfformiad (er y bydd angen i'r hunanasesiad fod yn ehangach nag asesiad o ddangosyddion perfformiad meintiol yn unig);
 - arolygon staff ac allbynnau unrhyw brosesau ymgysylltu eraill â staff megis fforymau undebau llafur;
 - canmoliaeth, cwynion ac adborth arall o ffynonellau mewnol ac allanol.
- 2.15 Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a bydd cynghorau am benderfynu drostynt eu hunain pa wybodaeth fydd yn llywio'r hunanasesiad orau ac yn arwain at gasgliadau seiliedig ar dystiolaeth am y ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad. Bydd yn bwysig bod cynghorau yn ystyried yn ofalus sut i gael y gwerth mwyaf posibl o'r ffynonellau tystiolaeth ger eu bron, gan ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a'i dehongli er mwyn deall beth mae'n ei ddatgelu a sut i weithredu arno.
- 2.16 Wrth ystyried effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, efallai y bydd y cyngor hefyd yn awyddus i ystyried *'Delivering Good Governance in Local Government'*, a luniwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a SOLACE, yn ogystal â'r nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig.
- 2.17 Wrth ddod i gasgliadau ei hunanasesiad, mae'n rhaid i'r cyngor hefyd ystyried barn y canlynol am y graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad yn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad hunanasesu yn ymwneud â hi:-

- pobl leol;
 - pobl eraill sy'n rhedeg busnes yn ardal y cyngor;
 - staff y cyngor;
 - pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (cym. 52) gan y cyngor
- 2.18 Dylai'r cyngor nodi'r croestoriad priodol a chynrychioliadol o staff, pobl leol a busnesau a phenderfynu sut yr ymgynghorir â nhw wrth wneud hynny. Er enghraifft, gall y cyngor fod yn fodlon y gellid gwneud hynny drwy ei ymgorffori fel rhan o ddull ymgysylltu ehangach yn hytrach nag fel ymgynghoriad annibynnol, efallai y bydd hefyd yn awyddus i ystyried hyn wrth iddo fwrw ymlaen â'r gwaith o roi'r gofynion i lunio strategaeth cyfranogiad y cyhoedd, a nodir rywle arall yn y Ddeddf, ar waith. Y brif flaenoriaeth yw sicrhau bod y cyngor yn ystyried barn yr uchod wrth ddod i'w gasgliadau ynghylch i ba raddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.
- 2.19 Dylai'r cyngor gasglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn adlewyrchu profiadau plant a phobl ifanc, pobl o grwpiau gwarchoddedig gwahanol a'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol a'r effaith arnynt. Efallai y bydd y Cyngor yn cadw gwybodaeth berthnasol eisoes fel rhan o'i rwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, neu'r wybodaeth y bydd yn ei defnyddio i ddangos ei fod wedi rhoi sylw dyledus o dan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.³
- 2.20 Er mai dyma'r gofyniad sylfaenol o ran ymgynghori ynghylch sut mae'r cyngor yn perfformio a nodir yn y Ddeddf, caiff y cyngor ymgynghori â'r cyfryw bobl eraill ag y bydd yn cefnogi ei hunanasesiad ei hun orau, yn ei farn ef. Efallai y bydd y cyngor hefyd am ymgynghori â phartneriaid, er enghraifft, cynghorau cymuned a thref neu gyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal er mwyn cael darlun cyflawn i lywio ei hunanasesiad. Wrth ystyried sut mae'n bodloni'r gofynion perfformiad, disgwylid i asesiad o waith partneriaeth a threfniadau cydweithredu gael ei gynnal fel dangosydd allweddol o'r ffordd y mae cyngor yn arfer ei swyddogaethau, yn defnyddio ei adnoddau ac yn llywodraethu ei hun.
- 2.21 Dylai cynghorau fod yn arfer y dyletswyddau o dan y gyfundrefn perfformiad a llywodraethu yn y canllawiau hyn yn unol â Safonau'r Gymraeg ac unrhyw hysbysiad cydymffurfio perthnasol a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith

- 2.22 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi diben cyffredin cyfreithiol gyfrwymol i'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf honno wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant⁴ y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n

³ Dylai cynghorau gasglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn adlewyrchu profiadau [pobl o grwpiau gwarchoddedig gwahanol](#) a'r rhai sydd o dan [anfantis economaidd-gymdeithasol](#) a'r effaith arnynt

⁴ Gweler [Pennod 1](#) am ddiffiniadau llawn o'r nodau.

ddarostyngedig i'r Ddeddf weithio tuag atynt gyda'i gilydd.

- 2.23 Mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus gyflawni eu dyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan weithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n yn golygu bod yn rhaid iddynt weithredu mewn modd sy'n sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- 2.24 Er mwyn dangos eu bod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i gorff cyhoeddus ystyried pum ffordd o weithio.⁵
- 2.25 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r cyd-destun lle y dylai cyngor fod yn arfer ei swyddogaethau, yn defnyddio ei adnoddau ac yn sicrhau bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol, er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r Ddeddf yn pennu'r fframwaith lle mae'n rhaid i gyngor ystyried ei berfformiad, o ran darparu gwasanaethau, a gallu ac adnoddau corfforaethol i ddiwallu anghenion defnyddwyr presennol, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- 2.26 Mae'r canllawiau statudol⁶ ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys set graidd o weithgareddau sy'n gyffredin i drefniadau llywodraethu corfforaethol cyrrff cyhoeddus, sef:-
- Cynllunio corfforaethol
 - Cynllunio ariannol
 - Cynllunio'r gweithlu (pobl)
 - Caffael
 - Asedau
 - Rheoli risg
 - Rheoli Perfformiad
- 2.27 Bydd ystyried y saith maes corfforaethol fel fframwaith ar gyfer yr hunanasesiad a chymhwyso'r pum ffordd o weithio at y meysydd hynny, yn helpu'r cyngor i sicrhau ei fod yn llywodraethu ei hun mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant ac yn cyflawni ei amcanion llesiant ei hun.

Adroddiad hunanasesu

- 2.28 Mae'n ofynnol i'r cyngor lunio a chyhoeddi adroddiad hunanasesu unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, a dylid gwneud yr adroddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Fodd bynnag, mater i'r cyngor yw penderfynu pryd yn union i wneud hyn, o ran yr hyn sy'n cyd-fynd orau â'i drefniadau corfforaethol ei hun.

⁵ Gweler [Pennod 1](#) am fanylion llawn y ffyrdd o weithio

⁶ [Canllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

- 2.29 Mae'n rhaid i'r adroddiad hunanasesu nodi casgliadau ynghylch i ba raddau y bodlonodd y cyngor y gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac unrhyw gamau y bydd yn eu cymryd, neu y mae wedi'u cymryd eisoes, er mwyn cynyddu'r graddau y bydd yn bodloni'r gofynion perfformiad. Dylai'r pwyslais fod ar ddeall sut mae'r cyngor yn gweithredu ar hyn o bryd, y galw tebygol y bydd yn ei wynebu yn y dyfodol a sut y gall feithrin cynaliadwyedd. Y tu hwnt i hynny, mater i'r cyngor yw ystyried y fformat mwyaf priodol ar gyfer yr adroddiad yn seiliedig ar yr hyn a fyddai'n cyd-fynd orau ag amgylchiadau lleol.
- 2.30 Bwriedir i'r adroddiad hunanasesu fod yn ddogfen ddysgu. Felly, mae gofyn iddi fod yn hygyrch ac yn gryno, lle bo modd. Gellid dewis canolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd o'r hunanasesiad, y ffynonellau sydd wedi llywio'r casgliadau a gwybodaeth gryno er mwyn ateb y cwestiynau allweddol am y ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad: pa mor dda rydyn ni'n gwneud?; sut rydyn ni'n gwybod hynny?; beth allan ni ei wneud yn well a sut?.
- 2.31 Ac eithrio yn achos yr adroddiad hunanasesu cyntaf, mae'n rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys adolygiad o gamau gweithredu a ddeilliodd o adroddiad y flwyddyn flaenorol, ynghyd ag ystyriaeth o'r cynnydd a wnaed o ran eu cyflawni, a'r ffordd y gwnaethant gynyddu'r graddau y bodlonodd y cyngor y gofynion perfformiad.
- 2.32 Efallai y bydd y cyngor yn awyddus i ystyried cyfleoedd i integreiddio ei adroddiad hunanasesu ag adroddiadau ar ddyletswyddau eraill, er enghraifft efallai y bydd yn cyhoeddi ei adroddiad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni ei amcanion llesiant fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn yr un ddogfen â'r hunanasesiad. Wrth ystyried cyfleoedd i integreiddio hunanasesu â dyletswyddau eraill, bydd angen i'r cyngor fod yn fodlon, fodd bynnag, fod pob un o'i ddyletswyddau statudol wedi'u cyflawni'n llwyr.

Cymryd camau mewn perthynas â hunanasesu

- 2.33 Drwy hunanasesiad bydd y cyngor yn nodi meysydd lle y gall gymryd camau i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad a rhoi cynllun ar waith er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud. Dylid ystyried mai dechrau'r broses yw'r hunanasesiad, yn hytrach na bod yn nod ynddo'i hun. Gall y casgliadau, er enghraifft, lywio'r amcanion llesiant neu'r cynlluniau cyflawni corfforaethol, neu gynlluniau gwaith craffu fel y bo'n briodol.
- 2.34 Dylai'r cyngor fynd i'r afael â chanfyddiadau'r hunanasesiad mewn ffordd ragweithiol. Dylai'r hunanasesiad lywio ystyriaethau o'r ffordd y dylai prosesau a gweithdrefnau mewnol newid i gefnogi prosesau cynllunio, cyflawni a gwneud penderfyniadau mwy effeithiol er mwyn gwella canlyniadau, a chyflwyno ffyrdd arloesol o gyflawni ei swyddogaethau'n well.
- 2.35 Dylai sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau yn yr hirdymor fod wrth wraidd y camau gweithredu. Gall hyn gynnwys ystyried yr hirdymor o ran tueddiadau, risgiau a chyfleoedd yn y dyfodol, ystyried ffyrdd amgen o ddarparu

gwasanaethau megis defnyddio technolegau digidol neu gydweithio â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

- 2.36 Lle mae pryderon penodol yn codi o'r hunanasesiad, gall y cyngor arwain drwy nodi cyfleoedd ar gyfer hunangymorth a chymorth a arweinir gan y sector a chyfleoedd i gynnwys eraill fel y bo'n briodol. Mae ceisio trafodaethau o'r fath yn gynnar er mwyn ymateb yn weithredol yn arwydd o sefydliad agored, blaengar sy'n benderfynol o gyflawni ar gyfer ei gymunedau.

Pwy y dylid ei gynnwys yn yr hunanasesiad

- 2.37 Y cyngor llawn neu ei bwyllgor gweithredol (fel y pennir gan gyngor) fydd yn gyfrifol am fodloni'r gofyniad i lunio adroddiad hunanasesu. Fel y trafodwyd eisoes yn y canllawiau hyn, bydd yn ofynnol i gynghorau gynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid a phobl leol yn ei hunanasesiad. At hynny, bydd cynnwys aelodau o grwpiau rheoli a gwrthwynebu, penaethiaid gwasanaeth, y swyddogaeth perfformiad corfforaethol a chyflogeion ar bob lefel yn yr hunanasesiad yn helpu i ymgorffori'r dull gweithredu yn niwylliant y sefydliad a chreu darlun manwl er mwyn llywio'r asesiad.
- 2.38 Mae pwyllgorau craffu yn rhan allweddol o'r broses o fynd ati'n adeiladol i herio perfformiad cyngor, a'r ffordd y mae'n trefnu ei hun wrth ddarparu gwasanaethau cynaliadwy. Bydd pwyllgorau craffu, yn ogystal â'r gwasanaeth archwilio mewnol, yn rhan allweddol o hunanasesiad cyngor, a dylai'r cyngor benderfynu a chytuno ar y ffordd orau o gynnwys eu pwyllgorau craffu yn y broses hunanasesu ei hun, nid dim ond wrth ystyried canlyniadau unrhyw hunanasesiad.
- 2.39 Caiff y cyngor ystyried hefyd sut i gynnwys partneriaid megis byrddau gwasanaethau cyhoeddus a'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol ac ati ar gyfer eu hardal.

Cynnwys pwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor

- 2.40 Mae'n rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i adroddiad hunanasesu ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio. Mae'n rhaid i'r pwyllgor adolygu'r adroddiad drafft a gall wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd.
- 2.41 Os na fydd y cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y cyngor y newid yn yr adroddiad hunanasesu terfynol.

Cyhoeddi'r adroddiad hunanasesu

- 2.42 Mae'n rhaid i'r adroddiad hunanasesu gael ei gyhoeddi⁷ o fewn pedair wythnos i'r dyddiad y cafodd ei gwblhau a'i gymeradwyo, yn unol â

⁷ Yn electronig ar wefan y cyngor – gweler a171(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Tudalen 40

phrosesau'r cyngor y cytunwyd arnynt, a dylid trefnu bod copi ar gael i bwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor. Dylai'r adroddiad hefyd gael ei anfon at:-

- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Gweinidogion Cymru⁸

2.43 Wrth gwrs, gall y cyngor rannu'r adroddiad ag unrhyw berson neu sefydliad arall y mae'r cyngor yn dymuno ei rannu ag ef.

⁸ Mae hyn yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru

Pennod 3 – Y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo.

Cyflwyniad

- 3.1 Mae'r bennod hon o'r canllawiau yn ymwneud â'r gofynion sy'n ymwneud ag asesiad o berfformiad gan banel a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf"). Mae'r canllawiau yma yn adlewyrchu'r gofynion sylfaenol ar gyfer asesiad o berfformiad gan banel fel y'u nodir yn y Ddeddf, gan gydnabod y bydd cynghorau yn awyddus i ddatblygu manylion eu dull gweithredu eu hunain.
- 3.2 Bydd y ddyletswyddau mewn perthynas ag asesiad o berfformiad gan banel yn dod i rym o ddechrau'r cylch etholiadol llywodraeth leol nesaf ym mis Mai 2022.
- 3.3 Y bwriad yw y caiff y darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethu yn y Ddeddf eu hategu gan ddull cydgysylltiedig o sicrhau gwelliant a darparu cymorth a arweinig gan y sector. Mae canfyddiadau ac argymhellion yr asesiad o berfformiad gan banel yn cynnig safbwynt allanol a dylid eu defnyddio i lywio a nodi meysydd lle y gallai cymorth a arweinig gan y sector fod yn werthfawr. Bydd hyn yn gymwys yn achos cynghorau unigol a dylai hefyd lywio'r gwaith o ddatblygu a darparu unrhyw gymorth i wella arfaethedig yn genedlaethol.
- 3.4 Dylai'r bennod hon yn y canllawiau gael ei darllen gan gyngor er mwyn ei helpu i gyflawni ei ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel a chyhoeddi adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo. Gall y bennod hon hefyd gael ei darllen gan aelodau'r panel er mwyn eu helpu i gynnal asesiad o berfformiad gan banel. Gall aelodau'r panel hefyd gyfeirio at y canllawiau ar hunanasesu er mwyn deall sut mae'n ofynnol i gynghorau gyflawni eu ddyletswyddau mewn perthynas â hunanasesu am y gallai hyn fod yn ddefnyddiol i lywio eu dull o gynnal asesiad gan banel.

Dyletswydd prif gyngor i drefnu asesiad o berfformiad gan banel

- 3.5 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor wneud trefniadau i banel annibynnol, a benodir gan y cyngor, asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad – sef asesiad o berfformiad gan banel. Diffinnir y gofynion perfformiad fel y graddau y mae cyngor:-
 - yn arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
 - yn defnyddio ei adnoddau yn ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
 - yn sicrhau bod ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.
- 3.6 Mae'r canllawiau hyn yn nodi diben yr asesiad gan banel; yn cynnig y camau a ddylai fod yn rhan o asesiad; yn ymdrin â materion sy'n ymwneud ag amseriad asesiad gan banel; yn disgrifio'r gofynion a'r ystyriaethau sylfaenol wrth benodi panel; ac yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel.

- 3.7 Wrth ystyried sut mae cyngor yn arfer ei ddyletswyddau o ran asesiad o berfformiad gan banel, dylai cyngor ystyried Safonau'r Gymraeg ac unrhyw hysbysiad cydymffurfio perthnasol a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- 3.8 Wrth gwrs, gall cynghorau gomisiynu cymorth tebyg i asesiad o berfformiad gan banel at sawl diben arall, megis adolygiadau gan gymheiriaid sy'n ymdrin â gwasanaethau neu faterion penodol neu sy'n seiliedig ar themâu penodol. Mae'r rhain i gyd yn rhan o daith wella'r cyngor a gallant ategu'r asesiad statudol corfforaethol ar lefel sefydliadol o berfformiad gan banel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf ond ni allant ei ddisodli.

Diben asesiad o berfformiad gan banel

- 3.9 Dim ond un elfen o ddull a arweinir gan y sector o sicrhau perfformiad, llywodraethu da a gwelliant yw asesiad o berfformiad gan banel. Gall asesiad effeithiol o berfformiad gan banel lywio taith wella'r cyngor, gan adeiladu ar yr hunanasesiad, gan ei helpu i ystyried y dyfodol o safbwynt gwahanol. Dylai'r asesiad gan banel gynnig safbwyntiau gwahanol; rhywfaint o her allanol gwrthrychol ac annibynnol; a chyfle i brofi syniadaeth gyda chymheiriaid arbenigol diduedd.
- 3.10 Bydd yr asesiad o berfformiad gan banel yn asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, yn union fel y gwna'r cyngor drwy hunanasesiad. Nid oes a wnelo â rhestrau gwirio, nid math o arolygiad ydyw, ac nid yw'n archwiliad. Ei nod yw helpu'r cyngor i gyflawni ei ddyheadau drwy feithrin a gwella ei ddealltwriaeth o'r ffordd y mae'n gweithredu a sut y gall sicrhau y bydd yn gallu cynnig gwasanaethau effeithiol yn yr hirdymor.
- 3.11 Ni fydd y panel yn gyfrifol am ddwyn y cyngor i gyfrif, ond dylai roi barn allanol ar y ffordd y mae'r cyngor yn gweithredu. Ni fydd hyn yn disodli'r rôl a chwaraeir gan archwilwyr, arolygwyr na rheoleiddwyr wrth roi sicrwydd. Mae a wnelo hyn â helpu cynghorau i ddeall sut y gallant wella'r graddau y maent yn bodloni'r gofynion perfformiad.
- 3.12 Mater i'r cyngor yw penderfynu sut i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r asesiad o berfformiad gan banel a sicrhau y caiff ei ganfyddiadau eu defnyddio ochr yn ochr â ffynonellau eraill i benderfynu ar ei ddull o ymdrin â pherfformiad corfforaethol, llywodraethu a gwelliant.
- 3.13 Mae asesiad o berfformiad gan banel yn rhan o ddiwylliant lle mae cynghorau yn agored i her ac yn ei groesawu, p'un a gaiff ei gyflwyno o'r tu fewn i'r awdurdod neu, yn yr achos hwn, yn allanol. Dylid ystyried bod yr asesiad yn broses heriol, ond adeiladol, ac yn ddull effeithiol a chymesur o ddysgu'n barhaus sut i wneud y cyngor yn gryfach.
- 3.14 Mae ymchwil wedi dangos y budd y gall cyngor ei gael o geisio safbwynt cymheiriaid, fel y safbwynt a ddarperir gan asesiad o berfformiad gan banel,

ar lefel sefydliadol, gorfforaethol.⁹ Er enghraifft, nodwyd y gall safbwynt o'r fath a ddarperir gan gymheiriaid gadarnhau dealltwriaeth y cyngor ei hun o'r hyn sydd ei angen ac ategu'r achos dros newid, yn ogystal â chefnogi neu annog newid sefydliadol neu newid ymddygiad.

Y dull o gynnal asesiad o berfformiad gan banel

- 3.15 Bydd pob cyngor unigol am benderfynu ar ei ddull ei hun o gynnal asesiad o berfformiad gan banel (o fewn y paramedrau eang a nodir gan y Ddeddf).
- 3.16 Er mai mater i'r cyngor a'r panel fydd penderfynu ar hyn yn y pen draw, byddem yn disgwyl i asesiad o berfformiad gan banel gynnwys tri cham cyffredinol, sef Paratoi, Asesu a Gwaith dilynol.

Cam 1 - Paratoi

Arweinir y cam hwn gan y cyngor ac mae'n debygol o gynnwys:-

- **Cwmpasu gofynion** yr asesiad o berfformiad gan banel. Efallai y bydd y cyngor am weithio gyda phartneriaid er mwyn gwneud hyn ac ystyried unrhyw heriau penodol a nodwyd yn ei hunanasesiad neu mewn adroddiadau archwilio, arolygu neu reoleiddio diweddar. Bydd hyn yn helpu i nodi'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen gan y panel er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn cael yr effaith fwyaf posibl.
- **Nodi a chomisiynu panel** i gynnal yr asesiad.
- **Pennu'r cylch gorchwyl** ar gyfer asesiad o berfformiad gan y panel ac, unwaith y bydd wedi'i sefydlu, cytuno ar y cylch gorchwyl gyda chadeirydd y panel. Bydd hyn hefyd yn cynnig cyfle i drafod disgwyliadau a'r dull o gynnal yr asesiad.
- **Rhannu gwybodaeth berthnasol** â'r panel er mwyn gosod y cyd-destun ar gyfer yr asesiad.
- **Gwneud trefniadau ymarferol** fel sy'n ofynnol gan y panel i'w alluogi i gynnal yr asesiad yn effeithiol.

Cam 2 – Asesu

Arweinir y cam hwn yn bennaf gan y panel ac mae'n debygol o gynnwys:-

- **Adolygiad desg gan y panel** er mwyn llywio ei syniadaeth a'i benderfyniadau cychwynnol ynghylch meysydd y mae'n awyddus i ganolbwyntio arnynt yn ystod yr asesiad.

⁹ gweler Downe, J., Bottrill, I. a Martin, S. (Chwefror 2017) *'Rising to the challenge: an independent evaluation of the LGA's corporate peer challenge programme'*. Ysgol Fusnes Caerdydd: Canolfan Ymchwil Llywodraeth Leol a Rhanbarthol.

- **Trafodaethau rhwng y panel** a'r aelodau etholedig, swyddogion a rhanddeiliaid eraill ynghylch meysydd o fewn cwmpas yr asesiad.¹⁰
- **Y panel yn cyflwyno'r prif ganfyddiadau ar lafar.**

Cam 3 – Gwaith dilynol

Dylai'r cam hwn gynnwys y canlynol:-

- Y cyngor yn anfon ei **adroddiad terfynol** i'r cyngor.
- Y cyngor **yn ystyried ei ymateb** i asesiad y panel, gan gynnwys y **camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn sgil yr hyn a ddysgwyd** o'r asesiad.
- Y cyngor **yn cynnwys ei bwyllgor llywodraethu ac archwilio** ac yn ystyried unrhyw argymhellion y mae'r pwyllgor yn eu gwneud mewn ymateb i'r asesiad o berfformiad gan y panel.

Amseru

- 3.17 Mae'r ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel o leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol yn golygu y dylid ei gynnal yn y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.
- 3.18 Mater i'r cyngor yw dewis yr adeg yn ystod y cylch etholiadol pryd mae asesiad o berfformiad gan banel yn debygol o fod fwyaf buddiol i'r cyngor. Dylai'r cyngor ystyried sut y gellir amseru'r asesiad o berfformiad gan banel orau er mwyn iddo gyd-fynd ag agweddau eraill ar ei ddull llywodraethu corfforaethol ac arolygiadau neu asesiadau penodol eraill o wasanaethau. Efallai y bydd y cyngor hefyd yn awyddus i ystyried amseriad unrhyw adolygiadau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac archwiliadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, er mwyn sicrhau y ceir y gwerth mwyaf posibl o'r asesiad o berfformiad gan banel. Efallai y bydd y cyngor yn awyddus i geisio cyngor gan arolygiaethau, rheoleiddwyr neu Archwilio Cymru ar y pwynt hwn.
- 3.19 Yr unig ofyniad o ran amseriad asesiad yw bod yn rhaid i'r trefniadau alluogi'r cyngor i gyhoeddi adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel o leiaf chwe mis cyn dyddiad yr etholiad cyffredin nesaf. Efallai y bydd cynghorau yn awyddus i ystyried amseriad yr asesiad mewn perthynas â'r cod ymarfer a argymhellir ar gyhoedduswydd awdurdodau lleol a pheidio â'i gadael yn rhy hwyr yn y cylch i asesiad gan banel allu cael ei gomisiynu a'i gwblhau.

¹⁰ Dylai paneli gasglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn adlewyrchu profiadau [pobl o grwpiau gwarchoddedig gwahanol](#) a'r rhai sydd o dan [anfantaidd economaidd-gymdeithasol](#) a'r effaith arnynt

- 3.20 Gallai cynghorau, mewn egwyddor, gomisiynu asesiad o berfformiad gan banel tua dechrau cylch etholiadol a'r asesiad nesaf tua diwedd y cylch etholiadol nesaf. Gallai hyn olygu bwlch o naw mlynedd rhwng asesiadau o berfformiad gan banel. Fodd bynnag, nid argymhellir y dull hwn gan y gallai godi amheuon ynghylch a yw cyngor yn arfer ei swyddogaethau yn effeithiol mewn perthynas â'i berfformiad a'r ffordd y caiff ei lywodraethu.

Paratoi cyn yr asesiad

- 3.21 Ni ddylai cyngor deimlo bod yn rhaid iddo 'brofi' unrhyw beth i'r panel ac, felly, ni ddylai'r gwaith paratoi cyn asesiad gan banel fod yn rhy feichus. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd asesiad o berfformiad gan banel yn gofyn am adnoddau gweinyddol er mwyn helpu'r panel gyda threfniadau ymarferol, megis trefnu cyfarfodydd a grwpiau ffocws a chyfleusterau i'w defnyddio gan y panel lle bo'n briodol.
- 3.22 Bydd y panel hefyd yn dymuno gweld dogfennau allweddol fel rhan o'i asesiad sy'n golygu y bydd angen neilltuo amser swyddogion i'w coladu, ond ni ragwelir y bydd hyn yn cynnwys paratoi unrhyw adroddiadau newydd, am y dylai fod amrywiaeth o wybodaeth (gan gynnwys yr adroddiad hunanasesu) ar gael eisoes.

Penodi panel

- 3.23 Y cyngor sy'n gyfrifol am nodi aseswyr panel, gan gomisiynu'r panel i gynnal yr asesiad a thalu unrhyw gostau cysylltiedig.
- 3.24 Bydd y broses o ddewis aelodau'r panel yn allweddol i sicrhau asesiad effeithiol ac ystyrlon. Dylai'r cyngor sicrhau bod gan y panel brofiad, gwybodaeth a safbwyntiau ymarferol amrywiol, y bydd yn gweithredu ag uniondeb a gwrthrychedd, ac yn gallu rhoi sicrwydd y bydd y cyngor yn ymddiried yn ei ganfyddiadau. Dylai'r cyngor hefyd ystyried pwysigrwydd amrywiaeth wrth benodi'r panel.
- 3.25 Er mwyn sicrhau ei annibyniaeth, rhaid i aelodau'r panel fod wedi'u gwahanu ddigon oddi wrth y cyngor er mwyn iddynt ddod i gasgliadau diduedd a gwrthrychol ynghylch y ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad. Er enghraifft, ni ddylid ystyried unrhyw un sydd ar hyn o bryd neu sydd wedi bod (o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf) yn aelod o'r cyngor sydd i'w asesu, neu'n un o'i swyddogion, ar gyfer ei benodi i'r panel. Ni ddylai aelod o'r panel deimlo unrhyw wrthdaro buddiannau (yn yr ystyr y byddai trydydd parti rhesymol ystyried bod gwrthdaro) wrth gynnig asesiad o'r ffordd y mae'r cyngor y bodloni'r gofynion perfformiad.
- 3.26 Er mwyn bod ar ei fwyaf effeithiol dylai'r panel gael ei arwain gan gymheiriaid. Dylai fod cymysgedd o uwch-swyddogion profiadol, cynghorwyr ac eraill sy'n gweithio gyda llywodraeth leol gan gynnwys y sector cyhoeddus ehangach a sectorau eraill, a all ennyn hyder y cyngor a sicrhau bod y cyngor yn cael yr her, y gefnogaeth a'r argymhellion adeiladol mwyaf priodol. Gall aelodau'r panel hefyd fod â phrofiad o Gymru neu o leoedd eraill.

- 3.27 Er ei bod yn bwysig bod gan gyfran o'r panel ddealltwriaeth dda o natur gymhleth gweithio mewn amgylchedd gwleidyddol a'r effaith y gall hyn ei chael ar ddiwylliant a blaenoriaethau sefydliadol, mae'r un mor bwysig bod y panel yn gallu elwa ar gyfraniad gwerthfawr y rhai sydd â phrofiad o sectorau eraill ac o weithio gyda llywodraeth leol.
- 3.28 Disgwylid i unrhyw asesiad gan banel a gomisiynwyd o dan ddyletswyddau'r cyngor a nodir yn y Ddeddf gynnwys y canlynol, o leiaf:-
- Cadeirydd annibynnol ar y panel – nad yw'n gwasanaethu mewn rôl swyddogol na gwleidyddol o fewn llywodraeth leol
 - Cymheiriad o'r sector cyhoeddus ehangach, y sector preifat neu'r sector gwirfoddol
 - Uwch-swyddog sy'n gwasanaethu o fewn llywodraeth leol, sy'n debygol o fod yn brif weithredwr neu'n gyfarwyddwr, o gyngor heblaw'r un sydd i'w asesu
 - Uwch-aelod etholedig, o gyngor heblaw'r un sydd i'w asesu.
- 3.29 Gall y cyngor ddewis penodi aelodau ychwanegol eraill o'r panel fel y gwelant yn dda, er enghraifft swyddogion ar lefelau eraill, mwy o gynrychiolwyr o bartneriaid neu arbenigwyr allanol eraill. Efallai y bydd y cyngor hefyd yn awyddus i bennu swyddog i weithio gyda'r panel tra bydd yr asesiad yn mynd rhagddo, er mwyn darparu cymorth gweinyddol a chydgyssylltu gweithgarwch ym mhob rhan o'r awdurdod.

Rôl y panel wrth gynnal asesiad o berfformiad gan banel

- 3.30 Bydd yn ofynnol i'r panel asesu ar y cyd i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, hynny yw i ba raddau:-
- y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
 - y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
 - y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.
- 3.31 Fel hyn, bydd y panel yn adeiladu ar yr hunanasesiadau a gynhaliwyd eisoes gan y cyngor ac yn eu hategu. Efallai y bydd yn ofynnol i'r panel gyfeirio at y canllawiau ar hunanasesu er mwyn llywio ei ddull o gynnal yr asesiad gan banel. Dylai'r panel ganolbwyntio ar edrych ar y sefyllfa bresennol a dros gyfnod blaenorol digon hir er mwyn cael darlun ystyrion o'r sefyllfa yn y cyngor ac unrhyw dueddiadau. Bydd y panel yn ystyried i ba raddau y gall y cyngor ymateb i'r amgylchedd sy'n newid lle mae'n gweithredu ac y gellir llywio ei waith drwy ddefnyddio'r ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol.¹¹

3.32 Efallai y bydd hefyd yn ddefnyddiol i'r panel ystyried y gweithgareddau sy'n gyffredin i drefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus fel y'u nodir yn y canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹²:-

- Cynllunio corfforaethol
- Cynllunio ariannol
- Cynllunio'r gweithlu (pobl)
- Caffael
- Asedau
- Rheoli risg
- Rheoli Perfformiad

3.33 Dylai defnyddio hyn fel fframwaith helpu'r panel i ddeall a yw'r cyngor yn llywodraethu ei hun yn effeithiol er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant.¹³

3.34 Asesiad corfforaethol, sefydliadol yw hwn, y bwriedir iddo ystyried i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac y gall gyflawni canlyniadau effeithiol. Ni ddylai'r panel geisio cynnal archwiliadau manwl nac adolygiadau manwl o wasanaethau, er y gall ddefnyddio canfyddiadau adolygiadau eraill gan gymheiriaid neu adolygiadau manwl o wasanaethau wrth lunio ei gasgliadau. Ni ddylai'r panel geisio archwilio / gwirio hunanasesiadau'r Cyngor ei hun, er y gall y dull o gynnal hunanasesiadau a fabwysiedir gan gyngor lywio barn panel am effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu.

3.35 Wrth gynnal asesiad o berfformiad gan banel mewn perthynas â chyngor, bydd yn rhaid i banel ymgynghori â'r canlynol ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad:-

- pobl leol;
- pobl eraill sy'n rhedeg busnes yn ardal y cyngor;
- staff y cyngor;
- pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (cym. 52) gan y cyngor.

3.36 Er mai hwn yw'r gofyniad sylfaenol o dan y ddeddfwriaeth, gall y panel ddewis ymgynghori â'r cyfryw bersonau eraill neu gynnwys y cyfryw bersonau eraill ag sy'n berthnasol, yn ei farn ef, i'w asesiad o'r graddau y mae'r cyngor y bodloni'r gofynion perfformiad.¹⁴ Gall y panel, er enghraifft, ymgynghori â

¹¹ Gweler [Pennod 1](#) am fanylion llawn y ffyrdd o weithio

¹² [Canllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

¹³ Gweler [Pennod 1](#) am ddiffiniadau llawn o'r nodau.

¹⁴ Dylai paneli gasglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn adlewyrchu profiadau [pobl o grwpiau gwarchoddedig gwahanol](#) a'r rhai sydd o dan [anfantaidd economaidd-gymdeithasol](#) a'r effaith arnynt

phartneriaid eraill sy'n cydweithio â'r cyngor, yn ogystal â chyrff archwilio, arolygu neu reoleiddio.

- 3.37 Mater i'r panel yw ystyried sut y byddai'n dymuno ymgynghori er mwyn cyfrannu'n effeithiol at y broses asesu gan banel, er enghraifft drwy ddefnyddio dulliau ymgysylltu presennol, arolygon ar y we, holiaduron ac ati. Dylai'r rhain gael eu cynllunio mewn modd sy'n cynrychioli'r boblogaeth berthnasol (e.e. pobl leol neu staff). Mater i'r cyngor yw gwneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn hwyluso'r ymgynghoriad.
- 3.38 Bydd y panel hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau mewnol ac allanol eraill, gan sicrhau bod sail dystiolaeth eang i lywio casgliadau ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac argymhellion o ran sut i wella. Ceir awgrymiadau ynghylch ffynonellau a allai lywio'r asesiad yn y canllawiau i gynghorau ar gynnal hunanasesiadau.
- 3.39 Bydd angen i gynghorau ystyried am ba hyd y bydd angen y panel arnynt, a chytuno ar hyn gyda'r panel, er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gyfer y tri cham cyffredinol a nodir ym mharagraff 3.16.
- 3.40 Mae'r asesiad yn degybol o gynnwys y camau allweddol canlynol i'w cymryd gan y panel, er mai mater i'r panel fydd penderfynu a chytuno ar ei ddull gweithredu:-
- Cyfarfod cwmpasu
 - Ymchwil ddesg
 - Cyfarfodydd ag arweinwyr gwleidyddol, uwch-swyddogion ac ati; a grwpiau trafod, gan gynnwys cyfarfodydd â staff a phartneriaid, pobl leol, undebau a chynrychiolwyr busnesau lleol.
 - Dadansoddi'r canfyddiadau a chytuno ar gasgliadau
 - Cyflwyno'r prif ganfyddiadau
 - Paratoi adroddiad y panel i'r cyngor sy'n nodi ei gasgliadau.

Adroddiad ar asesiad gan banel

- 3.41 Ar ôl i asesiad gan banel gael ei gwblhau, mae'n rhaid i banel lunio adroddiad sy'n nodi'r canlynol:-
- ei gasgliadau ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad;
 - unrhyw gamau y mae'r panel yn argymhell y dylai'r cyngor eu cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.
- 3.42 Mater i'r panel yw penderfynu ar ffurf a chynnwys yr adroddiad hwn, er y byddai disgwyl iddo adlewyrchu egwyddorion allweddol bod yn agored a thryloywder a hygyrchedd i'r cyhoedd a phob cynghorydd. Dim ond barn ac argymhellion y panel yn gweithredu ar y cyd y dylai'r adroddiad eu cynnwys.
- 3.43 Dylai cadeirydd y panel drafod eu casgliadau a'u hargymhellion ag arweinydd a phrif weithredwr y cyngor, ac unrhyw unigolion eraill y bydd y cyngor yn

dymuno eu cynnwys (er enghraifft, arweinwyr y wrthblaid a grwpiau gwleidyddol, a chadeiryddion y pwyllgorau craffu), er mwyn sicrhau bod yr holl wersi a ddysgwyd o'r asesiad yn cael eu cyfleu'n briodol.

3.44 Mae'n rhaid i'r panel anfon yr adroddiad cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei baratoi i'r/at y canlynol:-

- Y cyngor
- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Gweinidogion Cymru¹⁵

Cyhoeddi'r adroddiad ar asesiad gan banel

3.45 Cyfrifoldeb y cyngor, nid y panel, yw cyhoeddi adroddiad y panel. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael yr adroddiad gan y cyngor, rhaid i'r cyngor:-

- drefnu bod yr adroddiad ar gael i bwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor;
- cyhoeddi'r adroddiad¹⁶.

Ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad gan banel

3.46 Mae'n rhaid i'r cyngor baratoi ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad o berfformiad gan banel. Yn ei ymateb, mae'n ofynnol i'r cyngor nodi'r canlynol:-

- y graddau y mae'n derbyn y casgliadau yn yr adroddiad;
- y graddau y mae'r cyngor yn bwriadu dilyn unrhyw argymhellion a nodir yn yr adroddiad;
- unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

3.47 Dylid defnyddio'r casgliadau a'r argymhellion o'r asesiad er mwyn helpu'r cyngor i nodi camau y bydd yn eu cymryd i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad. Dylai'r adroddiad dynnu sylw at feysydd lle y gallai hunangymorth a chymorth a arweinir gan y sector fod yn werthfawr. Gall hefyd ailadrodd rhywbeth y mae'r cyngor eisoes yn ymwybodol ohono ac ategu'r achos dros newid, a / neu nodi lle y byddai'n fuddiol cynnwys eraill fel y bo'n briodol.

3.48 Wrth ymateb, dylai cyngor gymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a llunio ei ymateb yn unol â'r pum ffordd o weithio. Dylai hyn fod yn gymwys i'r *hyn* y mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud a *sut* y mae'n bwriadu ei wneud. Byddai cynnwys eraill yn y broses o lunio ei ymateb yn arwydd o gyngor blaengar.

¹⁵ Mae hyn yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru

¹⁶ Yn electronig ar wefan y cyngor – gweler a171(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

- 3.49 Dylai cyngor hefyd ystyried asesiad o berfformiad gan banel wrth gynnal ei hunanasesiad nesaf, er mwyn gweld a yw'r hyn a ddysgwyd o'r asesiad gan banel wedi'i roi ar waith.

Cynnwys y pwyllgor llywodraethu ac archwilio

- 3.50 Mae'n rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel fod ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio. Wedyn, mae'n rhaid i'r pwyllgor hwnnw adolygu'r ymateb drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r ymateb i'r asesiad gan banel.
- 3.51 Os na fydd y cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y newid yn yr ymateb terfynol.

Cyhoeddi'r ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad gan banel

- 3.52 Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cwblhau'r ymateb, mae'n rhaid i'r cyngor gyhoeddi'r¹⁷ ymateb a'i anfon at y canlynol:-
- Aelodau'r panel
 - Archwilydd Cyffredinol Cymru
 - Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
 - Gweinidogion Cymru¹⁸
- 3.53 Mae'n rhaid i'r ymateb i adroddiad ar asesiad gan banel gael ei gyhoeddi o leiaf bedwar mis cyn y disgwylir i'r etholiad cyffredin nesaf ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor gael ei gynnal.

¹⁷ Yn electronig ar wefan y cyngor – gweler a171(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

¹⁸ Mae hyn yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru

Pennod 4 – Arolygiadau arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyflwyniad

4.1 Yn ychwanegol at y system hunanasesu, yr asesiad o berfformiad gan banel a'r adroddiad ar asesiad o'r fath, mae'r darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethu yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn darparu ar gyfer arolygiad arbennig o gyngor i'w gynnal gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r bennod hon yn disgrifio pwerau ar gyfer arolygiadau arbennig o gynghorau, yn nodi sut y gwneir penderfyniad i gynnal arolygiad arbennig ac yn disgrifio dyletswyddau cynghorau a Gweinidogion Cymru i ymateb i adroddiadau ar arolygiadau arbennig. Gall cynghorau roi adroddiadau drwy eu prosesau democrataidd eu hunain, yn ogystal â bodloni'r gofynion statudol hyn.

Y pŵer i gynnal arolygiad arbennig

4.2 Diben arolygiad arbennig yw helpu cyngor i fodloni'r gofynion perfformiad neu gynyddu'r graddau y mae'n eu bodloni.

4.3 Os bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r farn nad yw cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad neu y mae'n bosibl nad yw'n eu bodloni, efallai y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal arolygiad arbennig. Nod yr arolygiad hwn yw asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, hynny yw i ba raddau:-

- y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

4.4 Gall Gweinidogion Cymru hefyd ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried a yw cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad neu a yw'n bosibl nad yw'n eu bodloni; a phenderfynu a ddylid cynnal arolygiad arbennig.

4.5 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu a ddylid cynnal arolygiad arbennig o gyngor, oni bai mai Gweinidogion Cymru a wnaeth y cais fel y nodwyd uchod.

4.6 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol hysbysu'r cyngor yn ysgrifenedig o'r bwriad i gynnal arolygiad arbennig gan nodi'r canlynol:-

- y rhesymau pam yr ystyrir nad yw'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad neu ei bod yn bosibl nad yw'n eu bodloni;
- y materion y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu eu harolygu (er nad yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi'i gyfyngu i arolygu'r materion a nodir yn yr hysbysiad yn unig).

- 4.7 Yn dilyn arolygiad arbennig, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol lunio adroddiad sy'n nodi'r canlynol:-
- casgliadau ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad;
 - unrhyw gamau yr argymhellir y dylai'r cyngor neu Weinidogion Cymru eu cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad a/neu wella effeithiolrwydd llywodraeth leol ar gyfer yr ardal.
- 4.8 Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi'r adroddiad a'i anfon i'r/at y canlynol:-
- y prif gyngor y mae'n ymwneud ag ef;
 - Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
 - Gweinidogion Cymru¹⁹
- 4.9 Mae'n rhaid i gyngor sy'n cael adroddiad ar arolygiad arbennig drefnu bod yr adroddiad ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 4.10 Os bydd yr adroddiad yn ymdrin â'r ffordd y caiff budd-dal tai ei weinyddu gan y cyngor, efallai y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn anfon yr adroddiad at yr Ysgrifennydd Gwladol.

Y ddyletswydd i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – prif gyngor

- 4.11 Mae gan gyngor sy'n cael adroddiad ar arolygiad arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyletswydd i ymateb i'r argymhellion.
- 4.12 Mae'n rhaid i'r ymateb nodi pa gamau, os o gwbl, y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion. Mae'n rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'r ymateb ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio. Wedyn, mae'n rhaid i'r pwyllgor hwnnw adolygu'r ymateb drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r drafft. Os na fydd y cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y newid yn yr ymateb.
- 4.13 Mae'n rhaid i'r ymateb gael ei anfon at yr Archwilydd Cyffredinol o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y cyngor yr adroddiad, oni fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi cyfnod hwy yn ysgrifenedig.
- 4.14 Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl anfon yr ymateb at yr Archwilydd Cyffredinol, mae'n rhaid i'r cyngor gyhoeddi'r ymateb a'i anfon at y canlynol:-
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
 - Gweinidogion Cymru²⁰

¹⁹ Mae hyn yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru

²⁰ Mae hyn yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru

Y ddyletswydd i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – Gweinidogion Cymru

- 4.15 Os bydd adroddiad ar arolygiad arbennig a luniwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnwys argymhellion ar gyfer camau i'w cymryd gan Weinidogion Cymru, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru baratoi ymateb i'r argymhellion.
- 4.16 Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi eu hymateb cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a'i anfon at y/i'r canlynol:-
- Yr Archwilydd Cyffredinol;
 - Y prif gyngor y mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ymwneud ag ef;
 - Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Pennod 5 – Cefnogaeth a chymorth i wella perfformiad ac ymyrraeth gan Weinidogion Cymru

Cyflwyniad

- 5.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“y Ddeddf”) yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi cefnogaeth a chymorth i gynghorau a, lle y bo angen, ymyrryd os bydd cyngor yn wynebu problemau sylweddol.
- 5.2 Mae'r bennod hon yn disgrifio pwerau i Weinidogion Cymru roi cefnogaeth a chymorth statudol ac mae ar wahân i unrhyw gymorth anffurfiol a arweinir gan y sector sydd ar gael i gynghorau. Dylai hunanasesiadau ac asesiadau o berfformiad gan banel helpu cynghorau i nodi problemau yn gynnar, cael cymorth a arweinir gan y sector er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ac osgoi'r angen am gymorth statudol mwy ffurfiol.
- 5.3 Mae'r bennod hon hefyd yn disgrifio pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd yn statudol er mwyn cynyddu'r graddau y mae cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad. Dim ond pan fetho popeth arall yr ymyrrir yn statudol mewn cyngor. Bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio gweithio gyda chyngor a phartneriaid eraill i gynnig cymorth i gynghorau er mwyn iddynt allu ymdrin â phroblemau mewn ffordd briodol ac amserol a sicrhau na fyddant yn troi'n broblemau difrifol nac yn argyfwng.
- 5.4 Diben y gefnogaeth a'r pwerau ymyrryd yw sicrhau llywodraethu da a llywodraeth leol effeithiol, nid newid swyddogaethau sylfaenol cyngor yn sylweddol.

Cefnogaeth a chymorth gan Weinidogion Cymru

- 5.5 Gall Gweinidogion Cymru roi cymorth i gyngor i'w helpu i fynd i'r afael ag anawsterau y mae'n eu hwynebu wrth geisio bodloni'r gofynion perfformiad. Bydd y cymorth hwn yn gymorth pwrpasol y bwriedir iddo fynd i'r afael â'r materion neu'r amgylchiadau penodol sy'n achosi pryder. Fel hyn, byddai'r gefnogaeth a'r cymorth wedi'u teilwra er mwyn diwallu anghenion penodol y cyngor yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- 5.6 Efallai y bydd cyngor am ofyn i Weinidogion Cymru ystyried rhoi cefnogaeth a chymorth iddo a byddai cais o'r fath yn arwydd o sefydliad agored a blaengar sy'n benderfynol o gyflawni ar ran ei gymunedau.
- 5.7 Gall Gweinidogion Cymru hefyd roi cefnogaeth a chymorth i gyngor os na fydd yn gofyn amdanynt, er mwyn cynyddu'r graddau y mae cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.
- 5.8 Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyngor am y gefnogaeth a'r cymorth y maent yn bwriadu eu rhoi iddo.

- 5.9 Gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cyngor i roi cefnogaeth a chymorth i gyngor arall os ystyrir bod hynny'n briodol er mwyn cynyddu'r graddau y mae'r cyngor sy'n cael y cymorth yn bodloni'r gofynion perfformiad.
- 5.10 Cyn rhoi cyfarwyddyd, byddid yn ymgynghori â'r ddau gyngor a byddai'r holl amgylchiadau yn cael eu hystyried, gan gynnwys effeithiau darparu'r cymorth hwn.

Pwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn prif gyngor

- 5.11 Os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn debygol nad yw cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, neu nad yw'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, cânt gyfarwyddo cyngor i gymryd camau penodol a chânt hefyd gyfarwyddo bod un o swyddogaethau cyngor yn cael ei chyflawni gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai.
- 5.12 Mae'r Ddeddf yn cynnwys amodau ynglŷn â phryd a sut y gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd ymyrryd. Mae'r rhain yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi gwneud y canlynol:-
- rhoi, neu geisio rhoi, cefnogaeth a chymorth i'r cyngor;
 - ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n briodol yn eu barn nhw;
 - hysbysu'r cyngor perthnasol eu bod yn bwriadu rhoi'r cyfarwyddyd.
- 5.13 Fodd bynnag, os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen rhoi cyfarwyddyd ar fyrder, ni fyddai'r amodau hyn yn gymwys.
- 5.14 Byddai Gweinidogion Cymru yn ymdrin â phob sefyllfa yn unigol wrth benderfynu a oes angen rhoi cymorth statudol neu ymyrryd yn statudol, gan ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth.
- 5.15 Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cyngor i gydweithredu â Gweinidogion Cymru neu gyngor arall y mae'n ei gyfarwyddo i roi cefnogaeth a chymorth. Mae'n rhaid i'r cyngor sy'n cael cymorth ddarparu mynediad i'w safle, ei ddogfennau, gwybodaeth arall a chyfleusterau a chymorth at ddibenion rhoi cefnogaeth a chymorth (oni bai ei fod wedi'i wahardd rhag gwneud hynny gan unrhyw ddeddfiad neu gan reolaeth y gyfraith).

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad a Hunanasesu / Performance Management Policy Statement and Self-Assessment

Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu /
Overview and Scrutiny Coordinating Committee

15 Mehefin 2022 /
15 June 2022

Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 / Part 6 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021

- Cyflwyno **cyfundrefn berfformio newydd** ar gyfer Prif Gyngorau
- Mae angen i gyngor fod yn **hunanymwbybodol**, deall a yw'n cyflawni'r **canlyniadau cywir**, a herio ei hun i wella'n barhaus
- Pwyslais ar **ganlyniadau** nid ar y broses
- Ystyried perfformiad o safbwynt y **sefydliad cyfan**
- Introduces **new performance regime** for Principal Councils
- Councils need to be **self-aware**, understanding whether its delivering the **right outcomes**, and challenging itself to **continuously improve**
- Focus is on **outcomes**, not on process
- **Organisation-wide** view of performance

Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 / Part 6 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021

- Nid ond yn fater o **gyflawni amcanion**, ond hefyd sut mae cyflawni ei swyddogaethau, defnyddio'i adnoddau a llywodraethu ei hun
- Rhaid **cyhoeddi Adroddiad Hunanasesu** (gyda chynllun gweithredu)
- Y **Cynllun Gweithredu** yw cynnyrch allweddol y broses. Mae gwerthuso llwyddiant y cynllun yn hanfodol i nod y Ddeddf.
- Not just about **meeting objectives**, but also how its delivering its functions, using its resources and governing itself.
- Requirement to **publish Self-Assessment Report** (with action plan)
- The Self-Assessment **Action Plan** is the key output from the process. The evaluation of achievement of the plan is the core of the Act's aim...i.e. the “so what” question

Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 / Part 6 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021

- Mae gan bob Aelod rôl i'w chwarae ond mae gan y **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** rôl hanfodol o ran “adolygu”r” Adroddiad Hunanasesu
- Dylai Hunanasesu **lywio** a **dylanwadu** ar gynllunio strategol, prosesau rheoli ariannol/cyllidebol, a'r gwaith o gynllunio gwelliant ac adrodd arno.
- **Ymgysylltu'n barhaus** â'r cyhoedd, busnesau, staff ac undebau.
- Unwaith ym mhob cylch etholiadol, rhaid i bob Awdurdod Lleol gael '**Aseiad Perfformiad gan Banel**'
- All Members have a role to play but the **Governance and Audit Committee** have a critical role in “reviewing” the Self-Assessment Report
- Self-Assessment should **inform** and **influence** strategic planning, financial management/budget processes, improvement planning and reporting.
- **Ongoing engagement** with the public, businesses, staff and unions.
- Once in each election cycle, each LA must have a '**Panel Performance Assessment**'

Pwyntiau allweddol y broses Hunanasesu / Key points of the Self-Assessment process

- Gorffen cyhoeddi'r **Adroddiad Blynyddol** presennol
- Cyhoeddi **Adroddiad Hunanasesu** sy'n bodloni gofynion:
 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
 - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Defnyddio Cwestiynau Allweddol neu “**Drywydd Holi Allweddol**” i sicrhau fod y broses yn canolbwyntio ar 1) canlyniadau 2) perfformiad o safbwynt y sefydliad cyfan 3) gofynion y Ddeddf a 4) yn seiliedig ar dystiolaeth
- Cease publication of the existing **Annual Report**
- Publish **Self-Assessment Report** that discharges the requirements of both:
 - Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015
 - Local Government and Elections (Wales) Act 2021
- Use Key Questions or “**Key Lines of Enquiry**” approach to ensure the process is focused on 1) outcomes, 2) corporate view of performance, 3) requirements of the Act and is 4) evidence based

Pwyntiau allweddol y broses Hunanasesu / Key points of the Self-Assessment process

- **Gweithdy LG** i nodi tystiolaeth a Sgoriau
- Gosod Hunanasesu fel rhan o **System Berfformio Teifi**, a chreu 'Dangosfwrdd' Hunanasesu
- Cyhoeddi'r Adroddiad Hunanasesu **yn flynyddol** (Un cylch = blwyddyn)
- Amserlenni yn cyd-fynd – e.e. Mae Hunanasesu yn **sbardun allweddol ar gyfer Cynlluniau Busnes**
- Bydd Blwyddyn 1 yn "**flwyddyn o ddysgu**"
- **Darparu cydbwysedd** rhwng gofynion y Ddeddf a chapasiti
- **LG workshop** to identify evidence and scores
- Build Self-Assessment into the **Teifi Performance System**, and create Self-Assessment 'Dashboard'
- Publish the Self-Assessment Report **annually** (One cycle = one year)
- Timescales aligned – e.g. Self Assessment is a **key driver for Business Plans**
- Year 1 would be a "**year of learning**"
- **Provides balance** between requirements of the Act and capacity

Proses Amlinellol Hunanasesiad / Self-Assessment Outline Process

TROSOLWG A
CHRAFFU

GWEITHDY I'R GRŴP
ARWEINIOL

CASGLU
TYSTIOLAETH

GRŴP
ARWEINIOL I
ADOLYGU'R
ADRODDIAD
DRAFFT

PWYLLGOR
LLYWODRAETHU
AC ARCHWILIO
I ADOLYGU'R
ADRODDIAD
DRAFFT

CYHOEDDI'R
HUNANASESIAD



OVERVIEW &
SCRUTINY

LEADERSHIP
GROUP
WORKSHOP

COLLATE
EVIDENCE

LEADERSHIP
GROUP
REVIEW DRAFT
REPORT

GOVERNANCE
AND AUDIT
COMMITTEE
REVIEW DRAFT
REPORT

PUBLISH SELF-
ASSESSMENT

Trywydd Holi Allweddol / Key Lines of Enquiry

Golynion Perfformiad y Ddeddf	Thema	Trywydd Holi Allweddol	Asesiad Presennol				Cynllunio at y Dyfodol a Chyflawni		
			Pa mor dda ydyn ni'n perfformio a sut ydyn ni'n gwybod?				Beth a sut allwn ni wella?		
			Tystiolaeth	Beth sy'n gweithio'n dda?	Beth ydych chi'n poeni amdano?	Sgôr	Ble mae angen i ni fod?	Beth sydd angen i ni wneud i gyrraedd yno?	Beth fydd yn dangos i ni ein bod wedi cyrraedd yno?
Gweithredu ei swyddogaethau yn effeithiol	Pa mor dda y mae'r Cyngor yn sicrhau gwell canlyniadau i bobl yn yr ardal leol?	1) A oes gan y Cyngor gyfres o strategaethau corfforaethol a gwasanaethol sy'n nodi gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor?							
		2) A yw'r strategaethau hyn yn cyflawni eu hamcanion?							
		3) A yw'r strategaethau hyn yn gynaliadwy o ran addasu ar gyfer anghenion y sefydliad yn y dyfodol?							
		4) A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad effeithiol a phroses craffu democrataidd ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor?							
		5) A yw Cynlluniau Busnes y Gwasanaethau yn cyflawni eu hamcanion a'u targedau perfformiad?							

Llinellau Ymholi Allweddol / Key Lines of Enquiry

Performance Requirements of the Act	Theme	Key Line of Enquiry	Current Assessment				Future Planning and Delivery		
			How well are we doing and how do we know?				What and how can we do better?		
			Evidence	What's working Well?	What are you worried about?	Score	Where do we need to be?	What do we need to do to get there?	What will tell us we have got there? i.e. the "so what"
Exercising its functions effectively	How well is the Council delivering improved outcomes for people in the local area?	1) Does the Council have a set of corporate and service strategies in place which set out the Council's vision and priorities?							Tudalen 65
		2) Are these strategies delivering their aims and objectives?							
		3) Are these strategies sustainable in adapting to the future needs of the organisation?							
		4) Does the Council have an effective performance management framework and democratic scrutiny in place to support delivery of the Council's vision and priorities?							
		5) Are Service Business Plans delivering their objectives and performance targets?							

Ymarfer Myfyriol / Reflective Practice

Mae myfyrio neu **ymarfer myfyriol** yn rhan annatod o Hunanasesiad:

- Sefydlu diwylliant o ymarfer myfyriol yn gorfforaethol ac mewn gwasanaethau
- Gofyn yn gyson “sut allwn ni wella?”
- Bod datrysiadau yn canolbwyntio ar arferion gwaith a'n ‘ffordd o wneud pethau’
- Annog a dal creadigrwydd ac arloesedd

Reflection or **reflective practice** is an integral part of Self-Assessment:

- Establish a culture of reflective practice both corporately and in services
- Constantly asking ‘how can we improve?’
- Solutions focus on working practices and ‘how we do things’
- Encourage and capture creativity and innovation

Llinell Amser / Timeline

Mehefin – Gorffennaf /

June - July

Gorffennaf – Awst /
July - August


Medi /
September

Hydref /
October


Tachwedd /
November

Ebrill /
April



Ebrill – Mai/
April - May



Cylch Etholiad 2022-27 / Election Cycle 2022-27



Integreiddio gyda'r Fframwaith Perfformiad / Integrating with the Performance Framework



Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad/ Performance Management Policy Statement

- Mae newidiadau deddfwriaethol ac arfer gorau yn gofyn am **Fframwaith Perfformiad** newydd
- Mae rheoli perfformiad yn hanfodol i gyflawni'r **weledigaeth** a'r **Amcanion Llesiant Corfforaethol**
- Mae'n dweud wrthym pa mor dda yr ydym yn perfformio, ble rydym yn perfformio'n dda ac o ble y gallwn ddysgu, a lle mae angen i ni wella
- Proses barhaus i herio ein hunain i wella **yn barhaus**
- Mae gan **bawb** ran i'w chwarae wrth reoli perfformiad
- Legislative changes and best practice requires new **Performance Framework**
- Performance management integral to achieving **vision** and **Corporate Well-being Objectives**
- Tells us how well we are doing, where we are performing well and can learn from, and where we need to improve
- Ongoing process to **continuously** challenge ourselves to improve
- **Everyone** has a role to play in managing performance

Atgoffa / Recap:

Beth mae'n ei olygu i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu? /

What does it mean for Overview and Scrutiny Coordinating Committee?

- Mae gan **bob Aelod** rôl allweddol i'w chwarae
- **Hyrwyddo egwyddorion** hunanasesu ac ymarfer myfyriol
- Mae gan y **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** rôl hollbwysig o ran:
 - Ystyried perfformiad o safbwynt Aelodau
 - Awgrymiadau ar gyfer gwella
- **All Members** have a key role to play
- **Champion the principles** of self-assessment and reflective practice
- The **Overview Scrutiny Coordinating Committee** have a critical role in:
 - Providing Member view of performance
 - Suggestions for improvement

Mae'r dudalen yn wag yn twriadol



Cyngor Sir Ceredigion

Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod bod rheoli perfformiad cadarn yn hanfodol er mwyn cyflawni ei weledigaeth o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy'n cynnig gwerth am arian ac sy'n cynnal economi gref ac amgylchedd iach, wrth hyrwyddo llesiant ymhlith ein pobl a'n cymunedau.

Mae rheoli perfformiad yn ymwneud â chymryd camau gweithredu i wella perfformiad y cyngor a gwella'r canlyniadau i bobl a chymunedau lleol. Mae'n golygu *mesur* y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, asesu *ansawdd* y gwasanaethau hynny a sut yr ydym yn *rheoli ein hadnoddau*, er mwyn darparu *gwerth am arian* i bobl Ceredigion. Mae'n dweud wrthym pa mor dda yr ydym yn gwneud, y manau lle'r ydym yn perfformio'n dda ac y gallwn ddysgu oddi wrthynt a lle y mae angen i ni wella.

Bydd y Cyngor yn sefydlu Fframwaith Rheoli Perfformiad effeithiol a fydd yn cael ei wreiddio yn niwylliant y sefydliad. Bydd y Fframwaith yn darparu ymagwedd safonedig i reoli perfformiad, er mwyn cynnal lefelau perfformio ar draws y Cyngor ac a fydd yn dangos 'y llinyn aur', fel bod pawb yn glir sut mae eu rôl yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth y Cyngor a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol.

Prif egwyddorion rheoli perfformiad effeithiol yng Nghyngor Sir Ceredigion yw:

- Bod gan bawb ran i'w chwarae yn y broses o reoli perfformiad
- Bod y Cabinet a'r Grŵp Arweiniol yn derbyn gwybodaeth amserol, o ansawdd uchel ynghylch perfformiad, er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth drylwyr
- Bod Hunanasesiad ac Ymarfer Myfyriol yn rhan hanfodol o welliant parhaus
- Bod ymateb cyflym i wybodaeth am berfformiad
- Bod rheoli perfformiad yn ategu llywodraethu da ac atebolrwydd
- Bod cynnydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gyfrwng y broses ddemocrataidd, y Bwrdd Perfformiad a'r Grŵp Arweiniol.
- Bod y cynlluniau busnes a'r mesurau perfformio yn adlewyrchu Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor, i sicrhau bod ein hamcanion yn cael eu bodloni a'n bod yn gwybod ein bod yn darparu'r gwasanaethau cywir yn y ffordd gywir

Bydd y Cyngor yn rheoli ei berfformiad corfforaethol a gweithredol er mwyn gwneud y canlynol:

- Sicrhau y bodlonir y gofynion statudol a'r amcanion polisi, yn benodol:
 - Rhan 6 Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - y ddyletswydd i adolygu perfformiad, ymgynghori ynghylch perfformiad,

Tudalen 74

adrodd ar berfformiad, trefnu Asesiad o Berfformiad gan Banel ac ymateb i Asesiad o Berfformiad gan Banel.

- Rhan 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – yr angen i bennu ac adolygu cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol
 - Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei weledigaeth a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol drwy well perfformiad a/neu effeithlonrwydd.
 - Sicrhau bod prosiectau mawr ac arloesol yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.
 - Cefnogi gwaith partneriaeth effeithiol.
 - Cadw a hybu enw da'r Cyngor;
 - Gwella cynllunio, blaenoriaethu a dod i benderfyniad ar sail tystiolaeth.
 - Nodi arloesedd a chreadigrwydd er mwyn gweld cyfleoedd i wella perfformiad a/neu effeithlonrwydd.
 - Bod yn hunanymwybodol a deall a ydym yn cyflawni'r canlyniadau cywir.
 - Dysgu oddi wrth feincnodi ac arfer orau, naill ai'n fewnol neu'n allanol.

Bydd y Fframwaith Perfformio yn berthnasol i holl wasanaethau a swyddogaethau Cyngor Sir Ceredigion ac yn benodol, bydd yn rhan o'i ymagwedd tuag at y canlynol:

1. Datblygu Strategaeth Gorfforaethol
2. Pennu Polisi
3. Pennu ac adolygu Amcanion Llesiant Corfforaethol
4. Cynnal Hunanasesiad ac Asesiad o Berfformiad gan Banel ledled y sefydliad
5. Cynllunio a monitro busnes
6. Dod i benderfyniad ar sail tystiolaeth
7. Y broses o Reoli Risg
8. Ymgysylltu ac ymgynghori i geisio safbwyntiau preswylwyr a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â pherfformiad y Cyngor

Mae rheoli perfformiad yn broses barhaus a bydd y Cyngor yn ei defnyddio i herio'i hun yn barhaus i wella. Bydd y Fframwaith yn disgrifio'r cylch parhaus hwn.

Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau y glynir wrth bolisi'r Cyngor ar Reoli Perfformiad.

Bydd y Fframwaith Rheoli Perfformiad yn cael ei adolygu o dro i dro, er mwyn sicrhau bod y prosesau sydd ynddo yn parhau'n addas i'r diben ac yn parhau i gefnogi'r Cyngor wrth iddo gyflawni ei weledigaeth a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. O ganlyniad i gyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bydd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y broses o gynnal Huanasesiad a adolygir yn flynyddol ar ddiwedd pob cylch.

Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
DYDDIAD:	15-06-2022
LLEOLIAD:	Cyfarfod hybrid
TEITL:	Cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2021 a 7 Mawrth 2022 a'r Aseiad Llesiant Lleol

PWRPAS YR ADRODDIAD: Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu ar benderfyniadau a chamau gweithredu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH: Y Pwyllgor Craffu hwn sy'n cadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

CEFNDIR:

O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

COFNODION CYFARFODYDD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CEREDIGION A GYNHALIWDYD AR 18 TACHWEDD 2021 A 7 MAWRTH 2022.

Cyflwynir cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2021 a chofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2022 i'r Pwyllgor a gallwch eu gweld yn **Atodiadau 1 a 2**.

YR ASESIAD LLESIANT LLEOL

Ar ôl cyflwyno fersiwn ddrafft o'r Aseiad Llesiant Lleol i'r Pwyllgor hwn ar 1 Rhagfyr 2021 ac ymgysylltu ac ymgynghori'n helaeth, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion bellach wedi cyhoeddi'r Aseiad Llesiant Lleol. Bydd yr aseiad yn awr yn cael ei ddefnyddio wrth baratoi Cynllun Llesiant Lleol nesaf Ceredigion ar gyfer 2023-28. Bydd y Cynllun yn amlinellu'r ffordd y byddwn ni'n gwella llesiant Ceredigion a chymunedau'r sir dros y 5 mlynedd nesaf.

Cyflwynir yr Aseiad yn awr i'r Pwyllgor hwn er gwybodaeth ac mae modd ei weld yn **Atodiadau 3a a 3b**.

Tudalen 76

**A gwblhawyd Asesiad Effaith
Integredig?
Os naddo, nodwch pam**

Heb ei gwblhau, am nad
yw'r adroddiad yn
newid Polisi neu
Wasanaeth.

**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

***Crynodeb:*
Hirdymor:
Integreiddio:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:**

ARGYMHELLION:

- i. **Derbyn cofnodion drafft cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2021 a 7 Mawrth 2022**
- ii. **Derbyn Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion**

RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Enw Cyswllt:

Alun Williams

Swydd:

Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r
Cyhoedd

Dyddiad yr adroddiad:

15-06-2022



Cyfarfod 28

7 Mawrth 2022, 13:30pm

Cyfarfod dros Zoom

COFNODION

Yn bresennol:

Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (EaG)	Cadeirydd, Cyngor Sir Ceredigion
Eifion Evans (EE)	Cyngor Sir Ceredigion
Alun Williams (AW)	Cyngor Sir Ceredigion
Barry Rees (BR)	Cyngor Sir Ceredigion
Hazel Lloyd-Lubran (HLL)	CAVO
Iwan Cray (IC)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Gwilym Dyfri Jones (GDJ)	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Anna Bird (AB)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Cynghorydd Elwyn Williams (EW)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Gillian Wells (GW)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jan Batty (JB)	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dr Phil Kloer (PK)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Duncan Hamer (DH)	Llywodraeth Cymru
Jo McCarthy (JM)	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gavin Bown (GB)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Pedr ap Llwyd (PaLI)	Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Hefyd yn bresennol:

Rob Starr (RS)	Cyngor Sir Ceredigion
Mari Hopkins (MH)	Cyngor Sir Ceredigion
Caitlin Theodorou (CT)	Cyngor Sir Ceredigion
Pat Smith (PS)	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Dewi Day (DD)	Prifysgol Aberystwyth
Helen Griffith (HG)	Coleg Ceredigion / Sir Gâr
Amy Richmond-Jones (ARJ)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Carys Huntly (CH)	Cyngor Sir Ceredigion
David Burch (DB)	CLES

Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

Diana Davies (DD)	Rheolwr Corfforaethol, Partneriaethau a Pherfformiad (CSC)
Manon Horscroft (MH)	Swyddog Cymorth (CSC)

Tudalen 78

Cathryn Morgan (CM)	Rheolwr Partneriaethau (Dros Dro) (CSC)
Lynne Walters (LW)	Swyddog Partneriaethau (CSC)
Sally Bullingham-Taylor (SBT)	Swyddog Partneriaethau (CSC)
29.1	Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datganiadau o fuddiant
Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu pawb. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.	
Ymddiheuriadau: Carwyn Young, Cyngor Sir Ceredigion Elen James, Cyngor Sir Ceredigion Maria Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda Vanessa Cashmore, Coleg Ceredigion / Coleg Sir Gâr Dr Andrew Cornish, Coleg Ceredigion / Coleg Sir Gâr Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth Christine Harley, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi Carys Morgan, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Ben Davies, Un Llais Cymru	
29.2	Cofnodion cyfarfod blaenorol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – 18.11.21
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18.11.21 yn gywir.	
29.3	Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol
Ni chododd unrhyw faterion o'r cyfarfod blaenorol.	
29.4	Gohebiaeth oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru: Natur a Ni – Pa ddyfodol ydyn ni eisiau ar gyfer ein hamgylchedd naturiol?
Darparodd CM fanylion ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch eu hymarfer ymgysylltu "Natur a Ni". Maent eisiau cychwyn sgwrs genedlaethol drwy gyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau. Lansiwyd yr ymgyrch cenedlaethol ar 17 Chwefror ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n bwriadu cynnal nifer o sesiynau ymgynghori er mwyn siarad â phartneriaid a'r cyhoedd. Nod penodol y rhain fydd creu gweledigaeth ar gyfer dyfodol amgylchedd Cymru ar gyfer 2030-2050. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio mewn partneriaeth ac yn rhedeg nifer o grwpiau ffocws ynghylch sut i gynnal y trafodaethau hyn yn effeithiol er mwyn symud y gwaith hwn yn ei flaen. Dyma'r 5 thema allweddol fydd yn cael eu hystyried:	
<ol style="list-style-type: none">1. Beth mae pobl yn ei nodi fel y mater(ion) allweddol ar gyfer y dyfodol?2. Pe bai pethau'n mynd yn dda, gan fod yn optimistaidd ond yn realistig, beth fyddai canlyniad dymunol?3. Pe bai pethau'n mynd o chwith, pa ffactorau y byddai pobl yn poeni amdanynt?4. Beth mae pobl yn ei feddwl am wahanol senarios ar gyfer y dyfodol?5. Beth mae pobl yn fodlon ei newid?	

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Cymru i gymryd rhan yn y sgwrs genedlaethol hon ac mae dolenni at y trafodaethau hyn wedi'u rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Cyn hir bydd partneriaid yn derbyn manylion ychwanegol, gwahoddiadau a dolenni ar gyfer eu hunain a'u cydweithwyr er mwyn ymgysylltu.

CAM GWEITHREDU: Tîm Cymorth y Bwrdd i rannu'r dyddiadau ar gyfer y 3 gweithdy gan Cyfoeth Naturiol Cymru â'r Aelodau.

29.5 Adroddiad a chynllun gweithredu – "Creu cyfoeth yn yr economi sylfaenol" – CLES

Daeth DB i gyfarfod y Bwrdd ar ran John Heneghan i roi cyflwyniad yn seiliedig ar yr adroddiad a'r cynllun gweithredu ar gyfer y prosiect Creu Cyfoeth yn yr Economi Sylfaenol. Rhannwyd yr adroddiad â'r aelodau cyn y cyfarfod heddiw gan alluogi i DB ganolbwyntio ar y crynodeb o'r prif ganfyddiadau a chasgliadau'r cam cychwynnol hwn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2021.

Denodd DB sylw at y ffaith fod y prosiect hwn wedi mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar bobl er mwyn cyflwyno economi gynhwysol sy'n anelu at sicrhau bod mwy o gyfoeth yn llifo'n ôl i economïau lleol. Nododd hefyd fod y dull hwn yn cydnabod y cyfyngiadau ynghlwm wrth strategaeth economaidd "twf yn gyntaf".

Nododd DB y trefnwyd cyfres o weithdai yn wreiddiol ar gyfer mis Ebrill 2020 ond cafodd y rhain eu canslo oherwydd y pandemig COVID a'r cyfnodau clo ymhob ardal. Ailbroffiliwyd y rhaglen wedi hynny, gan gyflawni pethau o bell a chan fod **capasiti'r sefydliadau angori** wedi'i gyfeirio at ymateb i'r pandemig, canolbwyntiodd y gwaith cychwynnol ar gyfer y prosiect hwn ar ddadansoddi data.

Darparwyd disgrifiad bras o amcanion y prosiect a nodwyd bod 5 grŵp ffocws wedi'u cynnal ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru (Ceredigion a Phowys):

1. Adeiladu ac ôl-osod.
2. Gwella cyfleoedd ar gyfer busnesau bach a chanolig.
3. Cefnogaeth i gyflenwyr cynhyrchiol.
4. Caffael bwyd.
5. Cychwyn busnesau newydd.

Rhannwyd sylwadau cyffredinol â'r aelodau ynghylch pwysigrwydd rhannu data a gwybodaeth er budd datblygiadau lleol. Nodwyd bod y rhaglen hon wedi dwyn ynghyd sefydliadau angori o bob maint ac o wahanol sectorau ac mae hyn wedi arwain at ddatblygu perthnasau a chysylltiadau newydd. Byddai CLES yn hapus i drafod manylion pellach gyda phartneriaid yn unigol neu ar y cyd pe bai hyn o ddiddordeb i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r aelodau ofyn cwestiynau neu wneud sylw ar gynnwys yr adroddiad a'r cyflwyniad.

Diolchodd AB i DB a nododd y bydd y gwaith hwn yn cydblethu ag eitemau sydd i ddod ar yr agenda yn y dyfodol a byddai'n adnodd pwysig y gallai'r partneriaid weithio arno.

Dywedodd DH fod angen gweithredu i adeiladu Cyfoeth Cymunedol yn y rhanbarth a dylai hyn adlewyrchu'r arfer orau. Mae cyfleoedd ar gael ar gyfer gwneud gwaith pellach a fydd hefyd yn cynnwys camau gweithredu ymarferol, ac awgrymwyd y gallai hyn gynnwys sefydlu banc prosiectau.

Cyfeiriodd Dr PK at argaeledd ac addaswydd y gweithlu lleol, yn benodol o fewn y diwydiant adeiladu, a nododd fod angen rhannu unrhyw enghreifftiau o arfer dda, yn arbennig os ydy datblygiad wedi cael cymorth uniongyrchol drwy fuddsoddi mewn prentisiaethau yn yr ardal leol.

Gofynnodd IC gwestiwn penodol ynghylch a ydy CLES wedi meddwl yn uniongyrchol am y gwrthdaro posib rhwng targedau allyriadau cwmpas 3 (o safbwynt cynaliadwyedd) a'r gefnogaeth uniongyrchol i fentrau bach a chanolig lleol.

Atebodd DB drwy nodi fod nifer o enghreifftiau ar gael ar draws y DU lle mae cwmnïau lleol wedi cael blaenoriaeth, fodd bynnag mae newidiadau ymarferol o fewn y mecanwaith cymorth busnes yn hanfodol i gefnogi hyn. Cytunodd DB i ddarparu'r adborth hwn i John Heneghan a gofyn am eglurhad pellach, fel y bo'n briodol, ynghylch y materion a godwyd.

Diolchodd y Cadeirydd i DB am ddod i'r cyfarfod ac am y gwaith a wnaed gan CLES ar y prosiect hwn.

29.6 Asesiad o Lesiant Lleol

Rhoddodd RS ddiweddariad am gamau datblygu'r Asesiad o Lesiant Lleol. Nododd fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ym mis Tachwedd wedi cymeradwyo i'r Asesiad Drafft fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Rhagfyr '21 a diwedd mis Ionawr '22. Derbyniodd y fîm gyfanswm o 25 ymateb oddi wrth y cyhoedd ac roedd yr ymatebion hyn yn fanwl iawn. Edrychwyd ar yr Asesiad ar lefel genedlaethol a chafodd ei groesawu gan Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Ar y cyfan, mae'r ddau'n hapus iawn gyda'r drafft a derbyniwyd nifer o bwyntiau cadarnhaol.

Erbyn hyn mae'r fîm wedi adolygu a mynd i'r afael â'r sylwadau a wnaed gan Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru, a gall aelodau weld yr adborth hwn yn y papurau a ddarparwyd ar gyfer y cyfarfod heddiw.

Yn lleol, nododd RS fod y fîm wedi cael ymateb cymysg i'r ddogfen gyda nifer o sylwadau'n cael eu gwneud am yr Amgylchedd ac Iechyd. Mewn ymateb i hyn, nododd RS y bu'n rhaid ymestyn y cyfnod ysgrifennu am fis arall er mwyn mynd trwy'r adborth manwl. Cwblhawyd y gwaith hwn erbyn hyn a diolchodd RS i bawb am eu sylwadau, cefnogaeth ac adborth.

Nododd RS fod adroddiad llawn ynghylch yr ymgynghoriad wedi'i gynllunio a'r sawl fydd yn arwain y gwaith hwn fydd rhwydwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus / Bwrdd

Partneriaeth Rhanbarthol sydd wedi bod yn cydlynu'r gwaith hwn. Hefyd, atgoffwyd yr aelodau y gallant weld drafft diweddaraf yr asesiad gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod heddiw. Y dyddiad cyhoeddi ar gyfer yr Asesiad yw mis Mai 2022.

Diolchodd y Cadeirydd i RS a'r fîm am eu gwaith manwl.

PENDERFYNIAD: Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r Asesiad o Lesiant Lleol.

29.7 Cynllun Llesiant Lleol – amcanion drafft

Yn dilyn y gweithdy a gynhaliwyd ar gyfer aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 11 Chwefror, cyflwynodd CM y pedwar amcan drafft i'w hystyried a'u trafod gan yr aelodau. Y pedwar amcan drafft a baratowyd yn dilyn y gweithdy yw'r canlynol:

1. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac yn adeiladu ar gryfderau Ceredigion.
2. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau ac yn defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.
3. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.
4. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i alluogi cymunedau i deimlo'n ddiogel ac yn gysylltiedig a byddwn yn hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol ac yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Pwysleisiodd Dr PK bwysigrwydd yr amcan cyntaf o ran y bobl ifanc sy'n symud o'r sir gan ei fod yn syfrdanol gymaint o broblem ydy hyn yng Ngheredigion. Yn ail, nododd Dr PK fod angen ystyried atebion glas yn ogystal ag atebion gwyrdd yn yr amcanion drafft. Yn olaf, o ran anghydraddoldebau nododd fod cwestiwn mawr yn codi ynghylch sut i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn wir wrth ddechrau gofyn sut rydych chi'n mynd i wneud hyn mae'r ateb yn gorwedd yn y cymorth a'r mentrau sydd oddi tano.

CAM GWEITHREDU: Cathryn Morgan i ystyried y manylion esboniadol i fynd gyda'r amcan cyntaf i sicrhau bod effaith anghydraddoldeb ar y bobl fwyaf difreintiedig yn ein cymunedau'n cael ystyriaeth wrth ddatblygu'r camau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r amcan hwn.

PENDERFYNIAD: Cadarnhaodd yr aelodau'r amcanion drafft a chytunwyd y dylid dechrau ar y gwaith o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol.

29.8 Diweddariad ar Brosiectau Peilot y Bwrdd sy'n seiliedig ar Le

i. Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Datgarboneiddio:

Rhoddodd Dewi Day (DD) ddiweddariad bras ynghylch gwaith y prosiect peilot hwn. Derbyniodd y Prosiect gyllid oddi wrth yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

(BEIS) i dalu'r holl gostau ar gyfer yr Astudiaeth Ddichonoldeb Economaidd-Dechnegol ar gyfer y Rhwydwaith Gwresogi Ardal. Mae'r gwaith hwn bellach wedi dechrau yng ngogledd tref Aberystwyth. Maent ar hyn o bryd yn trefnu ymweliad â'r safle i ddeall mwy am y rhwydwaith gwresogi lleol a'r gofynion ar gyfer y dyfodol. Bydd y cam cychwynnol hwn o'r gwaith yn cymryd 3-4 mis. Yn y cyfarfod diwethaf, cytunodd y grŵp i ehangu'r cylch gorchwyl i hefyd ffocysu ar gamau gweithredu datgarboneiddio a gymerir gan bartneriaid yn unigol ac ar y cyd yn nhref Aberystwyth. Yn awr, mae'r grŵp yn gwahodd cynrychiolydd o Wasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru i'r cyfarfodydd er mwyn ystyried cynllun ynni canolbarth Cymru ac archwilio sut y gall partneriaid ryngweithio a dylanwadu ar strategaeth leol.

ii. Atebion Iechyd Cymunedol ac Atebion Cymdeithasol ar gyfer Mynd i'r Afael â Thlodi a Hyrwyddo Llesiant yn Aberteifi:

Rhoddodd HLL ddiweddariad i'r aelodau am y cynnydd a wnaed gan y prosiect peilot hwn. Mae RS a'r fîm wedi paratoi papur sy'n rhoi'r ystadegau gwaelodlin ar gyfer wardiau Teifi, Rhydyfowch a Mwldan yn Aberteifi. Mae'r rhain yn cynnwys y ddwy ardal fwyaf difreintiedig yng Ngheredigion. Fel grŵp, penderfynwyd rhannu'r papur ag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan ei fod yn cynnwys dangosyddion arwyddocaol a diddorol i'r partneriaid. Sefydlwyd is-grwpiau o fewn y grŵp ac mae'r rhain yn ffocysu ar y canlynol:

- Mapio asedau
- Buddsoddi
- Targedu'r ddarpariaeth

iii. Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan:

Rhoddodd CM drosolwg bras o'r prosiect peilot hwn ar ran Cadeirydd y peilot, sef Elen James, nad oedd yn gallu bod yn bresennol heddiw. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar ddiwedd mis Ionawr. Roedd nifer o bartneriaid yn bresennol a rhannwyd manylion am eu blaenoriaethau a'u strategaethau a oedd yn benodol ar gyfer Llanbedr Pont Steffan a'r ardal gyfagos. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod ar 4 Mawrth ac yn ystod y cyfarfod hwn rhannodd yr aelodau i dri is-grŵp a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Bwyd a Llesiant Corfforol ac Amgylcheddol
- Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol.

Crëwyd cynllun cychwynnol gyda chamau gweithredu tymor byr a thymor hir er mwyn mynd i'r afael â materion o fewn y tri maes gweithredu hyn a'r nod cyffredinol yw cael dull amlasiantaethol ar gyfer gwella llesiant yn ardal Llanbedr Pont Steffan.

28.9 Diweddariad ar y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi

Cafodd yr adroddiad diweddar gan CM ei rannu o flaen llaw gyda phapurau'r cyfarfod. Cyfarfu'r Is-grŵp Tlodi ar 21 Ionawr 2022. Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ynghylch y cynllun gweithredu Mynd i'r Afael â Chaledi (Ebrill – Medi 2021) a oedd yn canolbwyntio ar faterion penodol y gellid ymdrin â nhw'n fwy effeithiol drwy ddull amlasiantaethol. Y prif bryderon yw incwm isel, dyled, anawsterau recriwtio (yn enwedig yn y sector gofal plant),

trafnidiaeth gyhoeddus a chynnydd mewn materion yn ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant.

Mae'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi gyfredol i fod i ddod i ben yn 2022 a chytunodd yr is-grŵp Tlodi ei hystyngyn am 12 mis arall er mwyn iddi gyd-fynd â'r cynllun llesiant newydd, a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2023.

CAM GWEITHREDU: Ar ôl y cyfarfod, rhannu dolen ag aelodau'r Bwrdd i fynd at y Dangosfwrdd Data ar gyfer y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi.

29.10	Adborth oddi wrth Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion – 1 Rhagfyr, 2021
--------------	---

Adroddodd CM fod y Pwyllgor yn hapus i gymeradwyo cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd, 2021. Hefyd, yn dilyn cyflwyniad gan RS a CT yng nghyfarfod y Pwyllgor, darparodd yr aelodau adborth a derbyniwyd yr Asesiad o Lesiant Lleol.

29.11	Unrhyw Fater Arall
--------------	--------------------

Nododd y Cadeirydd fod Cyngor Sir Ceredigion yn barod i helpu unrhyw ffoaduriaid sy'n cyrraedd o Wcráin.

I gloi'r cyfarfod, cadarnhaodd y Cadeirydd mai dyma fyddai ei chyfarfod olaf fel Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chadarnhaodd ei bod yn ymddeol o Gyngor Sir Ceredigion yn dilyn yr etholiadau. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cymorth a'u cyfraniadau drwy gydol y cyfarfodydd.

Diolchodd yr aelodau yn ddiffuant i'r Cadeirydd am ei holl waith caled gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Awdurdod Lleol, a dymunwyd yn dda iddi ar gyfer ei hymddeoliad.

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

29.12	<p><u>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</u></p> <p>13 Mehefin 2022, 9.30-11.30</p>
--------------	--

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



Cyfarfod 28

18 Tachwedd 2021, 09:30am

Cyfarfod dros Zoom

COFNODION

Yn bresennol:

Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (EaG)	Cadeirydd, Cyngor Sir Ceredigion
Eifion Evans (EE)	Cyngor Sir Ceredigion
Alun Williams (AW)	Cyngor Sir Ceredigion
Hazel Lloyd-Lubran (HLL)	CAVO
Iwan Cray (IC)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Gwilym Dyfri Jones (GDJ)	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Anna Bird (AB)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Cynghorydd Elwyn Williams (EW)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Thomas Vetter (TV)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhodri Llwyd Morgan (RLM)	Prifysgol Aberystwyth
Y Prif Arolygydd Christina Fraser (CF)	Heddlu Dyfed-Powys

Hefyd yn bresennol:

Rob Starr (RS)	Cyngor Sir Ceredigion
Mari Hopkins (MH)	Cyngor Sir Ceredigion
Caitlin Theodorou (CT)	Cyngor Sir Ceredigion
James Gibb (JG)	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Y Cynghorydd Rowland Rees-Evans (RRE)	Cyngor Sir Ceredigion
Dewi Day (DD)	Prifysgol Aberystwyth
Elen James (EJ)	Cyngor Sir Ceredigion
Carwyn Young (CY)	Cyngor Sir Ceredigion
Helen Griffith (HG)	Coleg Ceredigion / Sir Gâr
Amy Richmond-Jones (ARJ)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Carys Huntly (CH)	Cyngor Sir Ceredigion
Yvette Eley (YE)	Cyfoeth Naturiol Cymru

Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol:

Diana Davies (DD)	Rheolwr Corfforaethol - Partneriaethau a Pherfformiad (CSC)
Nia Wyn Jones (NWJ)	Swyddog Partneriaethau (CSC)
Manon Horscroft (MH)	Swyddog Cymorth (CSC)

Cathryn Morgan (CM) Lynne Walters (LW)	Rheolwr Partneriaethau (Dros Dro) (CSC) Swyddog Partneriaethau (CSC)
28.1	Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datganiadau o fuddiant
<p>Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu pawb. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.</p> <p>Ymddiheuriadau: Barry Rees, Cyngor Sir Ceredigion Russell Hughes-Pickering, Cyngor Sir Ceredigion Steve Moore, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda Maria Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda Ros Jervis, Iechyd Cyhoeddus Cymru Gillian Wells, Cyfoeth Naturiol Cymru Vanessa Cashmore, Coleg Ceredigion/Coleg Sir Gâr Yr Uwch-arolygydd Robyn Mason, Heddlu Dyfed-Powys Pat Smith, Yr Adran Gwaith a Phensiynau Carys Morgan, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Duncan Hamer, Llywodraeth Cymru</p>	
28.2	Cofnodion cyfarfod blaenorol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – 17.09.21
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17.09.21 yn gywir.	
28.3	Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol
<p>Rhoddodd CM ddiweddariad i'r aelodau ynghylch y Cynllun newydd i Adleoli Pobl o Affganistan. Nodwyd dau eiddo a oedd yn addas. Mae un eiddo yn barod ar hyn o bryd ar gyfer teulu, ond tynnwyd y llall yn ôl oherwydd bod oedi o ran pryd fydd y teulu'n cyrraedd. Cafodd teulu addas ei baru â'r eiddo, ond roeddent wedi gwrthod adleoli i ardal wledig. Parwyd teulu arall â'r eiddo ond nid oeddent yn gallu cyrraedd tan fis Ionawr ac wedi hynny tynnodd y landlord yn ôl o'r cynllun. Mae problemau tebyg yn codi ar draws Cymru. Codwyd pryderon â'r Swyddfa Gartref ynghylch y ffaith nad ydy'r cynllun yn rhedeg mor llyfn â'r disgwyl.</p> <p>O ran yr adroddiad cynnydd ynghylch y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi, nododd yr aelodau bryderon ynghylch y gostyngiad o £20 yr wythnos a fu yn y Credyd Cynhwysol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd pobl sydd ar incwm is yn derbyn 'taliad tanwydd gaeaf' ychwanegol o £100. Croesawir hyn ond mae'n creu gwaith ychwanegol</p>	

ac ni chafodd Tîm Budd-daliadau CSC lawer o rybudd i baratoi cyn y cyhoeddiad cyhoeddus.

28.4 Asesiad o Lesiant Lleol

Cyflwynodd RS brif ganfyddiadau'r Asesiad drafft. Rhannwyd yr adroddiad a'r atodiadau cyn y cyfarfod. Mae hon yn garreg filltir bwysig yn y broses; y cam nesaf yw'r ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r Asesiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w gymeradwyo ym mis Mawrth 2022. Diolchodd RS i aelodau'r Bwrdd a'r fîm am eu mewnbwn a'u cefnogaeth i'r gwaith hyd yn hyn.

Nododd RRE fod datblygiadau cynllunio ar stop yng Ngheredigion oherwydd bod lefelau uchel o ffosffadau yn y sir. Gofynnodd a oedd hyn yn cael ei amlygu digon yn yr Asesiad a gofynnodd am ddiweddariad oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y mater hwn. Cytunodd TV y dylai hyn gael ei gynnwys fel blaenoriaeth bwysig iawn ac y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymateb i'r pwynt hwn fel rhan o'u hadborth ynghylch yr Asesiad drafft.

Roedd IC wedi'i synnu gan ymateb unigolion ynghylch 'Teimlo'n Ddiogel' a gofynnodd am ragor o fanylder ynghylch sut y caiff 'teimlo'n ddiogel' ei ddiffinio. Ceir rhagor o fanylder yn y dystiolaeth a gasglwyd i gefnogi'r Asesiad ond mae'n debygol y bydd angen mynd i'r afael â'r mater hwn wrth i ni fynd trwy'r broses o ddatblygu'r Cynllun Llesiant.

Nododd HLL fod y sleid sy'n dangos effaith y newid yn y boblogaeth yn drawiadol iawn ac awgrymodd, os bwriedir defnyddio'r sleidiau ar gyfer cyflwyniadau yn y dyfodol, y dylid addasu'r sleid hwn i gynnwys yr effaith ar Ofal Cymdeithasol yn ogystal â'r gwasanaethau lechyd.

Cododd AB bryderon ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd o ystyried cyd-destun a maint y dogfennau. Cadarnhaodd RS fod y fîm yn gweithio ar grynhoi'r cyflwyniad i nodi'r prif ganfyddiadau a'r gobaiith yw y gellir defnyddio technoleg addas i gyflwyno'r wybodaeth mewn modd rhyngweithiol sy'n hawdd ei ddefnyddio.

Nododd CF fod llawer o'r data'n clymu â data Heddlu Dyfed-Powys ynghylch y tueddiadau o ran troseddau a'r galw ar yr heddlu. Cytunodd â sylwadau IC ynghylch 'Teimlo'n Ddiogel' gan ei fod yn hysbys mai Ceredigion yw un o siroedd mwyaf diogel Dyfed-Powys. Mae'r Heddlu'n wynebu problemau recriwtio ac mae swyddogion o Gaerfyrddin a Hwlfordd yn llenwi'r bylchau yn nhimoedd Ceredigion ar hyn o bryd, mae hyn yn cyd-fynd â'r data ynghylch demograffeg y boblogaeth.

Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau i RS a'r fîm am eu gwaith caled. Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus hyrwyddo'r ymgynghoriad ynghylch yr Asesiad drafft o fewn eu rhwydweithiau ynghyd â darparu adborth o'u sefydliadau eu hunain. Mae'r rhan hon o'r broses yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y Cynllun Llesiant yn effeithiol ac yn addas i'w ddiben.

CAM GWEITHREDU: Yr Aelodau i hyrwyddo'r ymgynghoriad a'r Aseiad drafft o fewn eu rhwydweithiau er mwyn cael adborth.

28.5 Diweddariad ar Brosiectau Peilot y Bwrdd sy'n seiliedig ar Le

Erbyn hyn mae'r Bwrdd wedi symud o'r 6 ffrwd waith i 3 phrosiect peilot er mwyn bwrw ymlaen â'r Cynllun Llesiant presennol.

i. Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Datgarboneiddio

DD o Brifysgol Aberystwyth sy'n arwain y prosiect hwn. Y partneriaid allweddol yw Prifysgol Aberystwyth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Sir Ceredigion a darperir cymorth cynghori gan Wasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru a'r Uned Cyflenwi Rhwydweithiau Gwres. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn gweithio ar ei chynlluniau carbon niwtral ei hun a bydd yn rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth i gynorthwyo'r prosiect peilot hwn.

Cyfarfu'r grŵp ar 15/11/21. Y bwriad yw cael adeilad ar gyfer cadw system cynhyrchu gwres carbon isel a fydd yn cael ei gludo drwy bibellau i amrywiaeth o adeiladau sy'n rhan o'r cynllun. Cwblhawyd astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol 5 mlynedd yn ôl (er mwyn gwireddu'r ymrwymiad o fod yn Garbon Sero erbyn 2030) ond oherwydd diffyg arian ni pharhawyd â'r gwaith ar y pryd. Efallai bod cyllid ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru, ond mae llawer mwy yn gwneud cais am yr arian nag sy'n ei gael, ac mae'r amserlen yn dynn.

Cytunodd y grŵp fod manteision dros gydweithio ar y prosiect a nodwyd yr angen am astudiaeth ddichonoldeb newydd, a'r amcangyfrif o'r gost yw £70,000. Os na ellir canfod cyllid, gofynnir am ymrwymiad ariannol oddi wrth bob un o'r 3 phartner. Cytunodd bob partner i geisio cael cefnogaeth yr uwch reolwyr er mwyn gallu bwrw ymlaen â chael astudiaeth ddichonoldeb newydd yn ystod y gwanwyn nesaf.

ii. Atebion Iechyd Cymunedol ac Atebion Cymdeithasol ar gyfer Mynd i'r Afael â Thlodi a Hyrwyddo Llesiant yn Aberteifi

HLL sy'n arwain y prosiect hwn. Adroddodd y cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 03/11/21 ac roedd y presenoldeb a'r cyfranogiad yn wych. Mae'n amlwg bod ystod o heriau'n wynebu'r gymuned ac mae nifer sylweddol o grwpiau a sefydliadau'n gweithio yn Aberteifi i gynnig cyfoeth o weithgareddau yn y dref. Cytunodd y grŵp fod grymuso'r gymuned o'r tu mewn yn hanfodol a bydd camau cychwynnol y cynllun gweithredu'n cynnwys:

- **Mapio'r** asedau a'r adnoddau
- **Ymchwilio** a chasglu strategaethau ac adroddiadau ymgynghori presennol er mwyn nodi unrhyw gamau gweithredu neu argymhellion sydd dal angen eu cyflawni

- **Buddsoddi** drwy ddwyn ynghyd unrhyw gyllid sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael â chaledi
- **Targedu'r** ddarpariaeth drwy sefydlu rhaglen allgymorth i'w gwneud hi'n haws i ddinasyddion Aberteifi gael mynediad at gymorth a chyngor
- **Creu cysylltiadau** drwy weithio gyda'r rhanddeiliaid allweddol i hyrwyddo a chynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl gymryd rhan ynddynt er mwyn gwella eu canlyniadau eu hunain ac eraill, a
- **Monitro'r** data sydd ar gael ar gyfer Aberteifi.

Hefyd, cytunodd y grŵp y byddai pob cyfeiriadaeth yn y dyfodol at nodau ac amcanion y prosiect peilot hwn yn pwysleisio "mynd i'r afael â chaledi a hyrwyddo llesiant". Bydd y grŵp yn cyfarfod eto ym mis Rhagfyr i drafod y data, mapio'r asedau a'r adnoddau a phenderfynu ar y dull cyflenwi gorau ar gyfer y prosiect peilot.

iii. Dull amlasiantaethol o ymdrin â Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan

EJ o Gyngor Sir Ceredigion sy'n arwain y prosiect hwn. Nid yw'r grŵp wedi cwrdd eto, ond cynhaliwyd trafodaethau mewnol. Y bwriad yw canolbwyntio ar gydweithio er mwyn hyrwyddo llesiant yn Llanbedr Pont Steffan a'r ardaloedd cyfagos. Mae nifer o grwpiau a sefydliadau yn cynnig gweithgareddau a chydabyddir bod y ddemograffeg yn newid a bod angen mapio a meithrin mwy o ddealltwriaeth o'r hyn sydd yn cael ei gynnig er mwyn sicrhau y bodlonir anghenion ieched a llesiant trigolion yr ardal.

Mae'r model Gydol Oes a Llesiant wedi nodi strategaeth ar gyfer model cyflenwi gwasanaethau integredig a bydd y prosiect hwn yn cynorthwyo i gyflawni'r strategaeth honno.

Rhoddodd CY ddiweddariad am gynnydd y gwaith i drawsnewid Canolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan i mewn i Ganolfan Llesiant gyntaf y Cyngor. Cyflwynwyd y cynlluniau llawr newydd; mae'r rhain bellach yn barod, a bydd y gwaith yn mynd allan i dendr maes o law.

28.6 Adolygiad Cymru Gyfan o Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys

Cyflwynodd y Prif Arolygydd CF adroddiad a gomisiynwyd gan y Prif Gwnstabl Pam Kelly, a fu'n Swyddog gyda Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd yn cynnwys y pedwar Llu yng Nghymru, Heddlu Trafnidiaeth Prydain, y Gwasanaeth Ambiwylans yng Nghymru a'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Rhannwyd yr adroddiad cyn y cyfarfod ac mae'n nodi nifer, math a lleoliad yr ymosodiadau (taro, cicio, pinsio, poeri a cham-drin geiriol) ar weithwyr y gwasanaethau brys rhwng 1 Ionawr 2021 a diwedd mis Mehefin 2021.

Nododd AW fod staff CSC yn wynebu problemau tebyg, yn bennaf ymhlith y staff gofal cymdeithasol, y ffin gorfodi COVID a'r ffin ieched anifeiliaid. Erbyn hyn mae'r swyddogion

Tudalen 90

yn gwisgo camerâu - mae hyn ambell waith yn tawelu'r sefyllfa ond mae hefyd yn gallu darparu tystiolaeth os oes angen.

Gofynnwyd i'r aelodau gydnabod yr adroddiad ac ystyried a all y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio'r adroddiad i ddylanwadu'n gadarnhaol ar yr agenda i leihau ymosodiadau ar ein gweithwyr yn y gwasanaethau brys yng Nghymru.

28.7 Adborth oddi wrth Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion – 15 Medi 2021

Diolchodd RRE i DD a LW a gyflwynodd gofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2021. Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Bwrdd. Cododd aelodau'r Pwyllgor Craffu'r mater ynghylch ffosffadau ac roedd RRE yn croesawu'r cyfle i godi hyn eto heddiw.

28.8 Cynlluniau Gweithredu Seilwaith Gwyrdd

Gweithiodd Tîm Polisi Cynllunio Ceredigion â'r Tîm Cymunedau Gwledig i baratoi cais am gyllid i Fenter Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Cynorthwyodd y fîm Polisi Cynllunio i baratoi achos busnes ar gyfer y Cynlluniau Gweithredu Seilwaith Gwyrdd ar gyfer y chwe thref yng Ngheredigion.

Yn ystod y 18 mis diwethaf, adeiladwyd y capasiti drwy waith ymgysylltu a chasglu gwybodaeth, ond nid ydy hyn wedi arwain at ddarparu prosiectau i drawsnewid ein trefi. Mae dal gwaith i'w wneud i gyrraedd y cam olaf o adeiladu capasiti er mwyn gallu cefnogi darparu prosiectau a bwrw ymlaen â'r prosiectau er mwyn gwella neu gyfoethogi ein hasedau Seilwaith Gwyrdd yn y tymor byr, canolig a hir.

Dyma elfennau hanfodol y Cynlluniau Gweithredu Seilwaith Gwyrdd a byddant yn cyfrannu at amcanion is-grŵp Newid Hinsawdd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cadarnhawyd y gellir defnyddio'r adroddiad 'Re-Connecting Nature' gan R4C ar gyfer y wybodaeth waelodlin a bydd ar gael fel rhan o fanyleb y tendr i'r ymgynghorwyr ar gyfer cwblhau'r Cynlluniau Gweithredu Seilwaith Gwyrdd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r prosiect Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd o dan y Fenter Trawsnewid Trefi ac mae'r Swyddog Datblygu Trefi Gwledig ar hyn o bryd yn hwyluso fframwaith caffael ar gyfer y prosiectau Trawsnewid Trefi a ariennir drwy refeniw er mwyn iddynt fynd allan i dendr.

PENDERFYNIAD: Cytunodd y Cadeirydd a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi'r gwaith hwn yn y dyfodol.

28.9 Unrhyw Fater Arall

Tudalen 91

Rhoddodd AB ddiweddariad i'r aelodau ynghylch y rhaglenni brechu rhag COVID-19 a'r Ffliw. O ran y brechiadau COVID, mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) wedi diweddaru eu canllawiau i gynnwys brechlyn atgyfnerthu i bawb dros 40 oed ac mae ail ddos ar gael i bobl 16-17 oed. Mae gan y Bwrdd Iechyd 7 canolfan frechu ar agor o hyd yn ogystal â mynediad at uned frechu symudol pan fo angen. Mae Meddygon Teulu'n rhoi brechiadau atgyfnerthu i gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi, gyda chymorth y fîm brechu. Mae'r rhaglen brechu rhag y ffliw yn mynd rhagddi, mae meddygfeydd a fferyllfeydd cymunedol yn cynnig brechiadau i bawb dros 50 a'r rhai o dan 50 oed sydd mewn perygl. Eleni, mae'r rhaglen mewn ysgolion yn cynnwys plant ysgol uwchradd am y tro cyntaf.

Nododd AW y cytunwyd i ddod â'r elfen COVID o'r grwpiau Fforwm Cydnerthedd Lleol i ben ar draws Cymru, gan fod grwpiau amlasiantaethol eraill yn gallu ymateb i COVID.

Nid oedd unrhyw fater arall. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb am ddod ac am eu cyfraniadau i'r trafodaethau.

28.10	<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</u> 7 Mawrth 2022, 13.30-15.30
--------------	--

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**DYDDIAD:** 15 Mehefin 2022**LLEOLIAD:** SKYPE – Siambrau'r Cyngor, Penmorfa, Aberaeron**TEITL:** Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd
CYSUR/CWMPAS
Chwarter 2 2021-22**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Monitro gweithgarwch ar sail amlasiantaethol o ran y camau a gymerwyd i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion.**RHESWM Y MAE'R
PWYLLGOR CRAFFU
WEDI GOFYN AM Y
WYBODAETH HON:** Sicrhau bod aelodau'n monitro cynnydd yng nghyfarfodydd rheoli chwarterol Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS**CEFNDIR:**

Amgaeir Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS ar gyfer Chwarter 2 2021-22.

Adroddiadau rheoli amlasiantaethol yw'r rhain ar ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2021. Darparant wybodaeth reoli ar y camau a gymerwyd o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae'r Adroddiadau yn cynnwys y wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu llesiant plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS (Ceredigion) yn trafod y wybodaeth reoli hon er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion perfformiad a materion eraill o fewn y maes gwaith hwn.

Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol:

DIOGELU PLANT

- Roedd ychydig o ostyngiad yn nifer yr adroddiadau am blant a arweiniodd at gamau'n cael eu cymryd o dan y Gweithdrefnau Diogelu yn y chwarter hwn o'i gymharu â Chwarter 1, gyda 106 yn Chwarter 2 o'i gymharu â 116 yn Chwarter 1.
- Fodd bynnag, roedd cynnydd yn nifer y Gynadleddau Cychwynnol Diogelu Plant a gynhaliwyd o'i gymharu â Chwarter 1, gydag 11 o gynadleddau wedi'u cynnal ar gyfer 33 o blant yn y chwarter hwn o'i gymharu â 9 chynhadledd gychwynnol ar gyfer 18 o blant yn Chwarter 1.
- O ganlyniad i Gynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant, cafodd 27 o blant eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn. Ni chafodd 6 plentyn eu rhoi ar y gofrestr.
- Cynhaliwyd 14 o Gynadleddau Adolygu yn y chwarter hwn ar gyfer 24 o blant. O'r 24 plentyn hyn, roedd 13 o blant wedi aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, cafodd 11 eu tynnu o'r gofrestr. O'r 11 plentyn a ddatgofrestrwyd, derbyniodd 3 ymyrraeth bellach drwy Gynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth; roedd 6 yn destun Gorchymyn Llys ac yn Blant sy'n Derbynn Gofal, ac nid oedd angen unrhyw wasanaethau ar 2 berson ifanc arall.
- Yr Heddlu oedd prif ffynhonnell yr adroddiadau a dderbyniwyd, gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Mewnol ac yna Addysg hefyd yn darparu'r mwyafrif o'r adroddiadau a dderbyniwyd.
- Roedd gostyngiad yn nifer yr Ymholiadau Adran 47 a gynhaliwyd yn y chwarter hwn o'i gymharu â Chwarter 1, gyda 51 wedi'u cynnal yn y chwarter hwn a 65 yn Chwarter 1. O'r 51 o ymholiadau a gynhaliwyd, cwblhawyd 38 o'r ymholiadau hynny ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- O'r Ymholiadau a gynhaliwyd, cam-drin/camfanteisio'n rhywiol oedd y prif gategori o gamdriniaeth a ymchwiliwyd (21) gydag 14 yn ymwneud â honiadau o gam-drin corfforol, 12 yn ymwneud ag esgeulustod a 4 yn ymwneud â cham-drin emosiynol.
- Cynhaliwyd 81.5% o Gynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant o fewn yr amserlenni statudol o'i gymharu â 94% yn Chwarter 1. Cynhaliwyd 2 gynhadledd yn ymwneud â 5 plentyn y tu allan i'r amserlen, un ohonynt oherwydd problemau staffio a'r llall oherwydd argaeledd teulu'r plant. Cynhaliwyd 91.7% o Gynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant o fewn yr amserlen, a chynhaliwyd 100% o gyfarfodydd Grŵp Craidd o fewn yr amserlen.
- Y prif ffactorau risg i blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant oedd cam-drin domestig (95%), rhieni'n gwahanu (60%), rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau/alcohol (57.8%), rhieni sydd heb ymgysylltu â'r Cynllun Amddiffyn Plant (55.5%), a throseddau trais gan oedolion (53.3%). Roedd anawsterau iechyd meddwl rhieni yn ffactor risg 46.7% sy'n effeithio ar blant ar y gofrestr.

- O'r 45 o blant ar y gofrestr ar 30 Medi ymlaen, roedd 24 o blant wedi'u cofrestru o dan y categori cam-drin emosiynol/seicolegol, roedd 20 o blant wedi'u cofrestru o dan y categori esgeulustod, ac roedd 1 wedi'i gofrestru o dan y categori esgeulustod a cham-drin rhywiol

DIOGELU OEDOLION

- Mae cynnydd yn Chwarter 2 yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeuluso ers Chwarter 1, gyda 147 o oedolion yn Chwarter 2 o'i gymharu â 133 yn Chwarter 1. Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n debyg i nifer yr oedolion yn Chwarter 4 (146). Yn Chwarter 4, roedd cynnydd yn y nifer o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, ac mae'n ymddangos bod hyn yn dilyn codi cyfyngiadau Covid-19. Yn Chwarter 4 roedd cynnydd yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gydag ychydig o ostyngiad yn Chwarter 1 y flwyddyn hon ac yna cynnydd eto yn Chwarter 2.
- Derbyniwyd cyfanswm o 175 o adroddiadau/atgyfeiriadau yn y chwarter hwn. O'r 175 o adroddiadau a dderbyniwyd, aeth 87 o adroddiadau ymlaen i Ymholiad Adran 126.
- Asiantaethau Darparwyr oedd y ffynhonnell fwyaf o adroddiadau y chwarter hwn (42), wedi'i ddilyn gan yr Heddlu (34), yr Awdurdod Lleol (26) ac yna lechyd (25).
- Mae nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd sy'n ymwneud â cham-drin emosiynol/seicolegol yn uwch nag unrhyw gategori o gamdriniaeth a adroddwyd yn y chwarter hwn, gyda 74 o adroddiadau ar gyfer hyn o'i gymharu â 49 ar gyfer cam-drin corfforol, 52 ar gyfer esgeulustod, 50 ar gyfer cam-drin ariannol a 15 ar gyfer cam-drin rhywiol. Mae hyn yn gyson â'r chwarteri blaenorol lle oedd y categori cam-drin emosiynol/seicolegol wedi cynhyrchu'r adroddiadau mwyaf o gam-drin.
- Mae cynnydd yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd sy'n nodi cam-drin ariannol fel achos o bryder, ond bu lleihad yn nifer yr adroddiadau lle mae'r honiad yn ymwneud ag esgeulustod.

**LLESANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith
Integredig? Os naddo, esboniwch
pam**

Naddo

Crynodeb:

Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir ar ddiogelu plant yng Ngheredigion.

Tudalen 96

Hirdymor:	Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol
Integreiddio:	Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt
Cydweithio:	Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod
Cynnwys:	Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid
Atal:	Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu

ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch â'r Awdurdod Lleol

RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):

Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner.

Enw Cyswllt: Siân Howys

Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)

Dyddiad yr Adroddiad: 15 Rhagfyr 2021

Acronymau:

CP – Amddiffyn Plant

CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant

Part 4 – Honiadau a wnaed yn erbyn aelod o staff neu'r rhai sy'n gweithio gyda phlant

e.e. – gofalwyr maeth, gwirfoddolwyr, cylchoedd chwarae at ati

CPCC – Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant

ICPC – Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant



CEREDIGION

GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR

Adroddiad Rheoli Perfformiad

Chwarter: 2

1.7.21 – 30.9.21

Tudalen 98

Tudalen 2 o 59

CYNNWYS:	TUDALEN
ADRAN 1: Cyflwyniad	3
ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol	4
ADRAN 3: Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant	6
ADRAN 4: Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant	10
ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant	12
ADRAN 6: Y Gofrestr Amddiffyn Plant	19
ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn mewn Amgylchiadau Arbennig	23
ADRAN 8: Cyfarfodydd Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE)	24
ADRAN 9: Yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)	25
ADRAN 10: Gwasanaethau Dysgu	26
ADRAN 11: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	31
ADRAN 12: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS)	35
ADRAN 13: Diogelu Oedolion	42

ADRAN 1: CYFLWYNIAD

Dyma'r adroddiad rheoli amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2021. Mae'n darparu gwybodaeth rheoli perfformiad am y camau a gymerwyd i ddiogelu plant.

Mae'n cynnwys adroddiadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid ynglŷn â diogelu a hybu llesiant plant yng Ngheredigion.

Mae'r dangosyddion a'r mesurau a ddefnyddir yn cael eu diffinio a'u hadrodd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Ceredigion yn trafod y wybodaeth reoli hon yn gyson er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau diogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn at:

Elizabeth Upcott
Rheolwr Corfforaethol Diogelu
Rheolwr Corfforaethol Diogelu,
Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk
01545 574212

ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol

Canlyniadau'r Atgyfeiriadau	Gorff-Medi 2021	Ebrill-Meh 2021	Ion-Maw 2021	Hyd-Rhag 2020	Gorff-Medi 2020
Adroddiadau / Atgyfeiriadau sy'n arwain at Drafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant	106	116	99	102	92
Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau trosglwyddo a chyn geni)	9	8	3	13	10
Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant Cyn Geni	-	1	-	1	2
Nifer y Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant	1	-	1	-	-
Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant Cyn Geni	1	-	-	-	-
Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni)	11	9	4	14	12
Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol / Cyn Geni / Trosglwyddo	33	18	9	20	23
Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (ac eithrio Cynadleddau Cyn Geni a Throsglwyddo)	26	17	4	15	18
Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni	-	1	-	1	2
Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill	0	-	3	-	-
Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant adeg geni ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill	1	-	-	-	-
Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl Cynadleddau Cychwynnol	27	18	7	16	20
Cyfanswm y plant na roddwyd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	6	-	2	4	3
Nifer y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant	13	12	18	17	16
Nifer y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant Cyn Geni	1				
Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant (gan gynnwys Cyn Geni)	14				
Nifer y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant	23	24	35	39	26

Tudalen 101

Tudalen 5 o 59

Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni	1	-	-	-	-
Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu / Cyn Geni	24				
Cyfanswm y plant sy'n parhau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	13	7	11	18	11
Cyfanswm y plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	11	17	24	21	15

Dadansoddiad:

Roedd ychydig o ostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at gymryd camau gweithredu o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru yn ystod y chwarter hwn.

Canran y plant a drafodwyd mewn cynadleddau adolygu ac a gafodd eu datgofrestru oedd 46%.

ADRAN 3: Adroddiadau ac Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant

Mae Argymhelliad 39 Ymchwiliad Victoria Climbié yn ei gwneud hi'n ofynnol i staff ar y rheng flaen i drosglwyddo ymholiadau am ddiogelwch a llesiant plant i'r tîm priodol yn ddi-oed ac o fewn yr awr. Yng Ngheredigion mae'r Porth Gofal yn derbyn ac yn cofnodi pob galwad gan y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau ac yn eu trosglwyddo i'r Tîm Asesu a Chymorth i Blant a Theuluoedd.


Mae'r tabl canlynol yn dangos lefel cydymffurfio â'r argymhelliad:


Lefel	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 1 awr	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2 awr	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2-5 awr	Cyfanswm
Gorffennaf				
1	39	16	40	95
2	42	18	4	64
3	48	20	12	80
4	17	7	1	25
5	5	0	1	6
Lefel	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 1 awr	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2 awr	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2-5 awr	Cyfanswm
Awst				
1	56	17	29	102
2	63	26	9	98
3	35	11	4	50
4	2	2	0	4
5	0	0	0	0
				Cyfanswm
Medi				
1	80	20	56	156
2	89	49	21	159
3	68	17	0	85
4	23	10	0	33
5	1	0	0	1

Tudalen 103

Tudalen 7 o 59

Ffynonellau'r Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a'r nifer a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth					
Cysylltwyd gan	Gorffennaf	Awst	Medi	Cyfanswm	Data cymharol chwarter 1
Yr Heddlu	16	15	26	57	44
Gwasanaethau Cymdeithasol Mewnol	6	5	8	19	22
Addysg	8	-	9	17	37
Iechyd	3	3	1	7	8
Awdurdod Lleol Arall	1	1	-	2	1
Asiantaethau Gwirfoddol	1	-	-	1	1
Perthynas/ffrind/aelod o'r gymuned	-	1	-	1	-
Gwasanaeth Prawf / Cwmni Adsefydlu Cymunedol	-	1	-	1	-
CAFCASS	-	-	1	1	-
Arall	-	-	-	-	2
Tai	-	-	-	-	1
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWF)	-	-	-	-	-
Meddyg Teulu	-	-	-	-	-
Gwasanaeth Ieuencid					
Adrodd am eu hunain	-	-	-	-	-
Ymddiriedolaeth Ambiwlans Gorllewin Cymru (WAST)	-	-	-	-	-
Cyfanswm	35	26	45	106	116





Dadansoddiad:


Yr Heddlu yw'r ffynhonnell fwyaf o atgyfeiriadau o hyd yn ystod y chwarter hwn, fodd bynnag, gostyngodd y gyfradd ysgolion yn sylweddol yn dilyn cynnydd sylweddol yn y chwarter blaenorol ar ôl i'r ysgolion ailagor.

Cyfeiriadau Post yr Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth Rhan 3					
Tref Agosaf yn ôl Cyfeiriad Post	Gorffennaf	Awst	Medi	Cyfanswm	Data cymharol chwarter 1
Aberystwyth	13	5	16	34	40
Llanbedr Pont Steffan	3	11	11	25	13
Aberteifi	9	6	8	23	23
Tregaron	5	-	1	6	8
Aberaeron	2	-	3	5	6
Llandysul	1	1	2	4	9
Castellnewydd Emlyn (Ceredigion)	1	1	2	4	5
Sir arall	-	1	2	3	5
Cei Newydd	-	1	-	1	6
Aber-porth	1	-	-	1	1
Arall	-	-	-	-	-
Cyfanswm yr Atgyfeiriadau	35	26	45	106	116

Tudalen 105

Tudalen 9 o 59

Cyfeiriadau Post yr Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth Rhan 3 (116) Chwarter 2 2021/2022




Dadansoddiad:

Aberystwyth yw'r ardal lle y ceir y nifer fwyaf o atgyfeiriadau yn gyson.

Dadansoddiad yn ôl % o Weithgarwch Diogelu Chwarter 2 2021/2022 (1 Gorffennaf – 30 Medi)			
Cyfanswm o 958 – Yr Holl Gysylltiadau Cychwynnol ynghylch Plant			
Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol (NAET) a neilltuwyd i'r Timau Plant – Dim gwybodaeth ar gael	Trafodaethau Strategaeth 11%	Ymholiadau Adran 47 - 5%	Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant - 1%

ADRAN 4: Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant


Nifer y Trafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant Rhan 3					
Gorffennaf	Awst	Medi	Cyfanswm	Data cymharol chwarter 1	
35 (27)	26 (48)	45 (41)	106	116	
Asiantaethau sy'n cynnal Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant					
	Gorffennaf	Awst	Medi	Cyfanswm	Data cymharol chwarter 1
Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu	14	9	15	38	50
Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel un asiantaeth	3	2	3	8	6
Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant gan yr Heddlu fel un asiantaeth	1	2	2	5	9
Cyfanswm yr Ymholiadau	18	13	20	51	65



Tudalen 107

Tudalen 11 o 59

Categoriâu'r Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant					
Categori	Gorffennaf	Awst	Medi	Cyfanswm	Data cymharol Chwarter 1
Cam-drin / Camfanteisio'n Rhywiol	10	5	6	21	25
Cam-drin Corfforol	2	2	10	14	24
Esgeulustod	3	5	4	12	10
Cam-drin Emosiynol	3	1	-	4	6
Cyfanswm yr Ymholiadau	18	13	20	51	65



Cyfweiliadau Fideo					
	Gorffennaf	Awst	Medi	Cyfanswm	Data cymharol Chwarter 1
Nifer y cyfweiliadau fideo â phlant	-	-	-	-	-

Dadansoddiad:

Y pryderon mwyaf a arweiniodd at gynnal ymholiadau amddiffyn plant oedd honiadau o gam-drin/camfanteisio'n rhywiol a cham-drin corfforol.

Cynhaliwyd y mwyafrif o'r ymholiadau ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant.


ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant

Mae'r tabl hwn yn cynnwys ffigurau wedi'u dadansoddi mewn perthynas â Chanlyniadau Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant					
Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant	Nifer y plant	Nifer y plant heb eu geni	Nifer y teuluoedd	Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gan gynnwys rhai heb eu geni a rhai a drosglwyddwyd	Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth os na chofrestrwyd
11	32	1	11	27	6

Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:


Cofnodwyd bod 81.5% o'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl y Drafodaeth/Cyfarfod Strategaeth. Roedd oedi ar gyfer 1 Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant ar gyfer 3 phlentyn oherwydd problemau staffio, ac ar gyfer teulu arall o 2 blentyn roedd oedi oherwydd nad oedd y teulu ar gael.

Mae'n bwysig nodi bod yr holl Gynadleddau Cychwynnol ac Adolygu Achos yn cael eu cynnal yn rhithiol trwy Microsoft Teams. Bu modd i rieni a phlant gymryd rhan yn y cyfarfodydd.



Cyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:

Cofnodwyd bod 100.0% o Gyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl y Gynhadledd Gychwynol Amddiffyn Plant.




Mae'r tabl hwn yn dadansoddi canlyniadau'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant yn ôl niferoedd:						
Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant	Nifer y plant	Nifer y plant heb eu geni	Nifer y teuluoedd	Nifer y plant sy'n aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y plant a gafodd eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth yn dilyn datgofrestru
14	23	1	14	13	11	9

Canlyniadau'r Adolygiadau:

O'r 11 o blant a ddatgofrestrwyd, derbyniodd 3 ymyrraeth bellach drwy Gynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth; roedd 6 yn destun Gorchymyn Llys ac yn Blant sy'n Derbyn Gofal, ac nid oedd angen unrhyw wasanaethau ar 2 berson ifanc arall.

Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:

Cofnodwyd bod 91.7% o'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn y terfynau amser. Yn achos 1 plentyn ni ddilynwyd amserlen y Gynhadledd oherwydd absenoldeb salwch ac ar gyfer 1 plentyn arall roedd hyn oherwydd problemau staffio. Cafodd yr holl Gynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant eu haildrefnu cyn gynted â phosibl, roedd 1 gynhadledd adolygu 1 diwrnod yn hwyr, ac roedd y llall 2 ddiwrnod yn hwyr.



Cyfranogiad rhieni a phlant mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant *Data cymharol Chwarter 1 mewn cromfachau						
*Adroddiad y Gweithiwr Cymdeithaso l i rieni 24 awr cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant	*Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r teulu cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant	*Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r plentyn cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant	*Aelod o'r teulu yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant	*Cyfleu barn plant mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant pan nad oeddent yn bresennol (5-18 oed)	*Presenoldeb plant yn y Cynhadledd Amddiffyn Plant (11 oed neu'n hŷn)	*Plant y penodwyd Eiriolwr / Tros Gynnal ar eu cyfer
96% (100%)	100% (95%)	100% (100%)	96% (95%)	70% (90%)	9% (12%)	62% (63%)

Cyfranogiad a Phresenoldeb Plant a Theuluoedd mewn Cynadleddau:

Presenoldeb rhieni, plant ac aelodau'r teulu:

Roedd o leiaf 1 rhiant / taid neu nain â chyfrifoldeb rhieni yn bresennol mewn 24 (96%).o Gynadleddau Amddiffyn Plant.

Roedd cyfanswm o 40 o rieni ac aelodau eraill o'r teulu yn bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant.

Mae barn y plant a'r bobl ifanc wedi cael eu cynrychioli cyn ac yn ystod y Gynhadledd Amddiffyn Plant:

Roedd cyfanswm o 52 o blant o 24 o deuluoedd yn destun Cynadleddau Cychwynnol, Cyn Geni, Trosglwyddo ac Adolygu Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter hwn.

Roedd y cynadleddau yn cynnwys 2 (4%) plentyn cyn geni, 1 (2%) plentyn oedd yn iau na 6 mis oed, 1 (2%) plentyn oedd rhwng 6 a 12 mis oed, 14 (24%) plentyn oedd yn hŷn na blwydd oed ac yn iau na 5 oed, 16 (28%) plentyn oedd rhwng 5 a 10 mlwydd oed, a 23 (40%) plentyn oedd rhwng 11 a 18 mlwydd oed.

Mynegwyd barn 9 (56%) plentyn a oedd rhwng 5 ac 10 mlwydd oed yn y Gynhadledd.

Roedd 2 (9%) berson ifanc yn hŷn nag 11 mlwydd oed wedi mynychu eu Cynhadledd, ac roedd y ddau (100%) berson ifanc yma wedi cwrdd â'r Cadeirydd cyn y Gynhadledd; roedd y Cadeirydd wedi cwrdd ag un o'r bobl ifanc hyn ar ôl y Gynhadledd. Cafodd barn 17 (81%) o'r bobl ifanc oedd heb fynychu'r Cynadleddau ei chynrychioli yn y Gynhadledd.

Adroddiad Rheoli Perfformiad 1/7//21 – 30/9/21

Tudalen 111

Tudalen 15 o 59

Derbyniodd 21 (62%) o'r bobl ifanc a oedd yn hŷn na 5 mlwydd oed wasanaethau eiriolwr, cafodd 9 arall eu hatgyfeirio am wasanaeth ond nid oedd adroddiad ar gael/y person ifanc wedi'i weld ar adeg y Gynhadledd. Roedd angen atgyfeirio 4 person ifanc arall at y gwasanaeth. Gwrthododd 5 person ifanc y gwasanaeth ac felly fe'u diystyriwyd o'r hafaliad. Cofnodwyd ymhellach bod 2 blentyn o dan 5 oed wedi cwrdd â'r Gwasanaeth Eiriolaeth hefyd.

Dadansoddiad

Roedd o leiaf 1 aelod o'r teulu yn bresennol yn 96% o'r Cynadleddau.


Crynodeb o'r Peryglon Pennaf/Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a nodwyd ac a drafodwyd yn y Cynadleddau Amddiffyn Plant

Mae'r tabl hwn yn seiliedig ar werthusiad y Cadeirydd Annibynnol o'r peryglon pennaf mewn Cynadleddau Cychwynol Amddiffyn Plant lle rhoddwyd enwau'r plant dan sylw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a Chynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant lle roedd enwau'r plant yn aros ar y gofrestr.

Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 45 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 30 Mehefin 2021

Cam-drin Domestig (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	43 (95.5%)
Rhieni'n gwahanu wedi bod yn broblem yn y cartref (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	27 (60.0%)
Rhieni'n camddefnyddio sylweddau / alcohol (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	26 (57.8%)
Rhieni ddim yn cydweithredu â'r Cynllun Amddiffyn Plant	25 (55.5%)
Troseddau treisgar gan oedolion	24 (53.3%)
Anawsterau iechyd meddwl y rhieni (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	21 (46.7%)
Person ifanc yn ymddwyn mewn ffyrdd peryglus / yn camddefnyddio sylweddau	13 (28.9%)
Camau cyfreithiol wedi'u cymryd i ddiogelu plant hŷn yn y teulu	8 (17.8%)
Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant	6 (13.3%)
Mam, tad neu bartner wedi bod yn y carchar (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	5 (11.1%)
Anableddau dysgu'r rhieni	0 (%)
Troseddau gan oedolion yn erbyn plant	0 (%)

Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 45 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 30 Medi 2021



Tudalen 112


Tudalen 16 o 59

Y Tri Pherygl Pennaf Tocsig ar gyfer y 45 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 30 Medi 2021		
Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r Tri Pherygl Tocsig yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl y Rhieni)	12	27.0%
Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae Rhieni'n Gwahanu a / neu Garchariad yn ymddangos (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	28	62.2%
Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r pum Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl y Rhieni, Rhieni'n Gwahanu a Charchariad)	4	8.9%

Dadansoddiad:



Y prif ffactorau risg a gofnodwyd oedd cam-drin domestig, rhieni'n gwahanu, rhieni'n camddefnyddio sylweddau/alcohol a rhieni heb gydweithredu â'r Cynllun Amddiffyn Plant.

Presenoldeb Asiantaethau mewn Cynadleddau:



Tudalen 113

Tudalen 17 o 59



Mae'r siartiau uchod yn dangos yr asiantaethau a fu'n bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant. Ar gyfartaledd estynnwyd gwahoddiad i 7 aelod o staff asiantaethau i bob cynhadledd a bu 4 yn bresennol.

Roedd 6 adroddiad ysgrifenedig ar gyfartaledd ar gael ym mhob Cynhadledd Amddiffyn Plant. Trefnwyd dyddiad ar gyfer Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant ym mhob cynhadledd pan oedd ei angen.

Roedd cworwm ymhob un o'r 25 (100%) Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Mewn 2 (8%) Cynhadledd Amddiffyn Plant argymhellwyd galw cyfarfod Grŵp Teulu.

Darparodd Gweithwyr Cymdeithasol adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer pob un o'r 25 (100%) cynhadledd. Roedd pop un (100%) o'r adroddiadau a gyflwynwyd mewn Cynadleddau Cychwynnol yn cynnwys cronoleg.

Mynegodd 25 (100%) o weithwyr proffesiynol / asiantaethau eu barn am gofrestru a lefel y perygl ymhob cynhadledd.

Roedd 45 (79%) o benderfyniadau cofrestru Cynhadledd Amddiffyn Plant yn ddiennw gyda 12 (21%) o gofrestriadau Cynhadledd Amddiffyn Plant yn benderfyniad mwyafrif.

Roedd 0 (0%) Cynhadledd Amddiffyn Plant wedi nodi bod anghytuno ynghylch diogelwch y Cynllun Amddiffyn Plant ar gyfer diogelu llesiant plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Mewn 2 (8%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gofalwr ifanc.

Tudalen 114

Tudalen 18 o 59

Mewn 4 (17%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod diffyg gwybodaeth ynghylch partner y fam.

Mewn 4 (17%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gan y person ifanc anabledd dysgu cymedrol / difrifol; ac mewn 5 (22%) cynhadledd nodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Datblygu Unigol.

Mewn 3 (13%) Chynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gan y person ifanc anabledd corfforol/nam ar y synhwyrau, ac mewn 4 (17%) nodwyd bod gan y person ifanc broblemau ymddygiad.

Mewn 6 (26%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gan y person ifanc anawsterau lleferydd/iaith, ac ni chofnodwyd mewn unrhyw gynhadledd 0 (0%) bod y plant wedi'u gwahardd o'r ysgol.

ADBORTH PLANT A RHIENI

Nid yw'r system flaenorol ar gyfer cael adborth Plant a Theuluoedd yn dilyn eu presenoldeb yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant wedi bod yn bosib ers dechrau'r pandemig ym Mawrth 2020 oherwydd y ffaith bod yr holl Gynadleddau'n cael eu cynnal yn rhithiol.

Fodd bynnag, ers dechrau Ebrill 2021, mae Holiaduron Gwerthuso wedi cael eu hanfon at deuluoedd ar ôl bod yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant i gael eu barn a'u hadborth. Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 30 Medi 2021, cafodd cyfanswm o 40 o Holiaduron Gwerthuso eu cylchredeg, fodd bynnag dim ond un gafodd ei ddychwelyd.



Bydd y broses hon yn parhau hyd nes bod y Cynadleddau Amddiffyn Plant yn digwydd ar sail wyneb yn wyneb.

ADRAN 6: Y Gofrestr Amddiffyn Plant

Mae'r tabl a'r siart isod yn dangos data a thueddiadau'r Gofrestr ar ddiwedd pob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf.							
Y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y plant o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y teuluoedd o Geredigion wedi'u cofrestru dros dro ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y plant wedi'u cofrestru dros dro ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y teuluoedd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Cyfanswm y plant wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Cyfanswm y teuluoedd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Cyfanswm y plant o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sydd yn Blant sy'n Derbyn Gofal
30 Medi 2021	45	17	12	10	57	27	0
30 Mehefin 2021	29	15	13	6	42	21	4
31 Mawrth 2021	29	16	12	6	41	22	5
31 Rhagfyr 2020	46	24	7	5	53	29	5
30 Medi 2020	50	22	4	3	54	25	1
30 Mehefin 2020	46	24	4	2	50	26	4
31 Mawrth 2020	55	26	10	4	65	30	2
31 Rhagfyr 2019	35	20	12	5	47	25	3
30 Medi 2019	52	27	7	3	59	30	4
30 Mehefin 2019	55	31	10	5	65	36	3
31 Mawrth 2019	74	40	4	3	78	44	5
31 Rhagfyr 2018	53	32	2	2	55	34	4
30 Medi 2018	58	36	9	7	67	43	3



Tudalen 116

Tudalen 20 o 59



Tudalen 117

Tudalen 21 o 59



Mesur 28 Llywodraeth Cymru – Yr amser ar gyfartaledd y bu pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:

Ar gyfer y Mesur hwn mae'n ofynnol rhoi'r amser ar gyfartaledd mewn diwrnodau calendr y treuliodd pob plentyn ar y Gofrestr cyn eu datgofrestru yn ystod y chwarter dan sylw	Gorff-Medi	255.45
--	------------	--------

	Gorff-Medi 2021	Ebrill-Meh 2021	Ion-Maw 2021	Hyd-Rhag 2020	Gorff-Medi 2020	Ebrill-Meh 2020	Ion-Maw 2020	Hyd-Rhag 2019	Gorff-Medi 2019
Cyfradd y 10,000 o blant o dan 18 oed	35	23	23	36	39	36	42	27	40

Mesur 27 Llywodraeth Cymru – Nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol o fewn y flwyddyn

Cynadleddau Cychwynnol	Gorff-Medi 2021	Ebrill-Meh 2021	Ion-Maw 2021	Hyd-Rhag 2020	Gorff-Medi 2020	Ebrill-Meh 2020	Ion-Maw 2020	Hyd-Rhag 2019
Nifer y plant a fu ar y gofrestr o'r blaen ac a ddatgofrestrwyd dros y 12 mis diwethaf	9	0	0	0	0	0	0	1

Dadansoddiad

Mae nifer y plant ar y Gofrestr ar ddiwedd y cyfnod wedi cynyddu'n sylweddol ers y chwarter blaenorol ond yn fwy tebyg i'r un cyfnod yn y 2 flynedd flaenorol. Datgofrestrwyd 11 o blant oedd yn cynnwys 3 theulu gyda 2 o blant a 5 teulu gydag un plentyn. Fodd bynnag, cafodd 26 o blant eu cofrestru mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant gyda phlentyn arall i'w gofrestru adeg ei eni. Roedd nifer y plant yn y teuluoedd hyn yn cynnwys 1 teulu gyda 5 o blant, 1 teulu gyda 4 o blant, 4 teulu gyda 3 o blant, 2 deulu gyda 2 o blant ac 1 teulu arall gydag 1 plentyn.

Y categori cofrestru mwyaf yw cam-drin emosiynol ac esgeulustod sy'n adlewyrchu'r ffaith mai cam-drin domestig yw un o'r peryglon pennaf.

Mae'r mwyafrif o blant ar y Gofrestr am gyfnod o hyd at 6 mis.

Mae nifer y merched ar y Gofrestr yn parhau'n uwch na nifer y bechgyn.

Y categori oedran cofrestru mwyaf o hyd yw plant 10-15 mlwydd oed.

ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o dan Rannau 4 a 5 o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Atgyfeiriwyd 26 o blant a chynhaliwyd cyfanswm o 34 o gyfarfodydd strategaeth yn ystod y chwarter.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Strategaeth ar gyfer 1 Plentyn sy'n Derbyn Gofal o Geredigion ac 1 Plentyn sy'n Derbyn Gofal o Awdurdod Lleol arall.

Ni adroddwyd bod unrhyw Blentyn sy'n Derbyn Gofal o Geredigion sydd wedi'i leoli y tu allan i'r sir wedi bod yn destun Ymholiadau Amddiffyn Plant yn ardal yn lleoliad.

Categori o Gyfarfod Strategaeth Amddiffyn Plant (Amgylchiadau Penodol)	Cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf	Cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Awst	Cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Medi	Cyfanswm yr achosion
Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant	2	2	5	7
Pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol	5	2	1	8
Pryderon ynghylch person ifanc yn mynd ar goll o ofal maeth	1	0	1	1
Pryderon ynghylch person ifanc yn mynd ar goll o'r cartref	2	1	1	3
Pryderon ynghylch person sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rhinwedd ei swydd	3	3	5	8
Cyfanswm y cyfarfodydd	13	8	13	
Cyfanswm yr achosion a drafodwyd yn ystod y chwarter dan sylw				27

ADRAN 8: Cyfarfodydd Rheoli Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE)

Achos Newydd / Adolygu	Ymadael / Aros yn MACSE	Gwryw / Benyw	Oedran	Yn y cartref / mewn gofal	Cofrestr Amddiffyn Plant	Dyddiad y cyfarfod	Presenoldeb Asiantaethau
A	Aros	Gwryw	17	G	Na	01.07.21	Gofal wedi'i Gynllunio, Addysg, yr Heddlu, Iechyd, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Maethu, Coleg, CAMHS
A	Aros	Gwryw	15	C	Na	29.09.21	Gofal wedi'i Gynllunio, Addysg, yr Heddlu, Iechyd, Coleg, CAMHS, Choices, Tim o Amgylch y Teulu
N	Aros	Gwryw	16	C	Na	10.09.21	Gofal wedi'i Gynllunio, Addysg, yr Heddlu, Iechyd, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Tim o Amgylch y Teulu
N	Aros	Gwryw	15	C	Na	10.09.21	Gofal wedi'i Gynllunio, Addysg, yr Heddlu, Iechyd, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Tim o Amgylch y Teulu
N	Aros	Benyw	15	C	Na	29.07.21	Gofal wedi'i Gynllunio, Addysg, yr Heddlu, Iechyd
N	Aros	Benyw	17	C	Na	11.08.21	Gofal wedi'i Gynllunio, yr Heddlu, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Tai, CAMHS
N	Aros	Benyw	14	C	Na	16.08.21	Gofal wedi'i Gynllunio, Addysg, yr Heddlu, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, CAMHS
N	Ymadael	Gwryw	16	C	Na	25.08.21	Gofal wedi'i Gynllunio, Addysg, yr Heddlu, Iechyd

Daeth 6 achos newydd i'r cyfarfodydd MACSE yn ystod Chwarter 2 a 2 achos i'w hadolygu. Roedd 3 achos yn fenywod 14 – 17 oed ac roedd 5 achos yn wrywod 15 – 17 oed. Nid yw unrhyw un ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, mae un yn Blentyn sy'n Derbyng Gofal.

ADRAN 9: Adroddiad yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)

Ardal	Nifer yr atgyfeiriadau trwy drafodaethau dyddiol	Nifer yr achosion ac aeth ymlaen i MARAC llawn	Nifer yr atgyfeiriadau a ailddigwyddodd	Nifer y plant ar yr aelwyd
Sir Gaerfyrddin	343	33	34	245
Ceredigion	109	12	18	97
Sir Benfro	226	13	14	226
Powys	128	18	25	156

ADRAN 10: Gwasanaethau Dysgu

ADRODDIAD LOG GWASANAETHAU YSGOLION

HYFFORDDIANT

Mae hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant Lefel 1 ar gael fel rhaglen e-ddysgu yn unig a dyma nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod cyfnod chwarter 2. Yn ogystal, mae nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2 yn rhithiol yn ystod y cyfnod hwn wedi'i nodi isod hefyd.

Lefel 1	215 (mewnol) 104 (allanol)
Lefel 2	35 (mewnol) 9 (allanol)

HYFFORDDIANT AMDDIFFYFN PLANT LEFEL 3

Ar 23/09/21 cynhaliwyd hyfforddiant rhithiol gan Dr Didi gyda'r mwyafrif o Arweinwyr Dynodedig Amddiffyn Plant ysgolion Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Phowys yn bresennol. Cafwyd adborth positif iawn o'r sesiwn.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae 49 aelod o staff mewnol ac 18 aelod o staff allanol wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod cyfnod chwarter 2.

ADDYSG DDEWISOL GARTREF

Nifer y plant rydych yn ymwybodol ohonynt sydd yn cael eu haddysgu'n ddewisol gartref	Nifer y plant Addysg Ddewisol Gartref sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol sydd wedi cael cynnig ymweliad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf	Canlyniad
223 (gostyngiad o 18 ers y cyfnod diwethaf)	173 (cynnydd o 76 ers y cyfnod diwethaf)	Wedi gwrthod – 39 Heb fynychu – 48



PLANT MEWN GOFAL


Plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion oedran ysgol statudol	Gorffennaf – 43 Medi – 45 <i>(Nid yw ffigyrau'n cael eu cofnodi ar gyfer mis Awst)</i>
Plant sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan i'r Sir oedran ysgol statudol	Gorffennaf – 13 Medi – 15

	<i>(Nid yw ffigyrau'n cael eu cofnodi ar gyfer mis Awst)</i>
Plant sy'n derbyn gofal o Awdurdodau Lleol eraill oedran ysgol statudol	Gorffennaf – 30 Medi – 32 <i>(Nid yw ffigyrau'n cael eu cofnodi ar gyfer mis Awst)</i>


CYSYLLTIADAU YSGOLION


Gweler isod nifer a natur y cysylltiadau a dderbyniwyd gan ysgolion / sefydliadau dysgu yn ystod cyfnod Chwarter 2.






Sylwer, roedd 22 o ysgolion cynradd wedi cysylltu yn ystod Chwarter 2, ond oherwydd y nifer uchel nid oedd modd cynnwys pob Ysgol ar un tabl. Felly mae'r uchod yn nodi'r Ysgolion oedd wedi cysylltu mwy na dwywaith yn unig yn ystod y cyfnod.





Oherwydd y nifer fawr o resymau a roddwyd ar gyfer cysylltu, mae rhai wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y nodir isod er mwyn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn fwy eglur ar y siart. (Eto, oherwydd y nifer fawr o gysylltiadau a dderbyniwyd, mae'r tabl uchod yn dangos y mathau o bryderon a gafodd eu nodi 4 gwaith neu fwy yn unig).

Arfau	
Cais am wybodaeth	
Cam-drin Domestig	
Corfforol	
E-ddiogelwch	Gan gynnwys camddefnydd ffonau symudol/rhyngwyd ac anfon negeseuon/lluniau/fideos anwedus
Esgeulustod	Gan gynnwys amodau'r cartref, problemau ariannol a goruchwyliaeth
Gofal	
Iechyd a Diogelwch	
Iechyd Meddwl Disgyblion	Gan gynnwys cam-drin emosiynol.
Iechyd Meddwl Rhieni	
Llesiant	Gan gynnwys plant sydd ar goll, presenoldeb, torberthynas, gofalywyr ifanc, anawsterau cysylltu yn ystod y cyfnod clo, problemau cysylltu rhwng rhieni.
Materion Cyfreithiol	
Atal	
Rhywiol	Gan gynnwys perthnasoedd amrywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.
Sylweddau Disgyblion	Gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.
Sylweddau Rhieni	Gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.
Materion Traws	
Ymddygiad Disgyblion	
Ymddygiad Rhieni	Gan gynnwys carchariad rhieni
Ymddygiad Staff	Gan gynnwys unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch ymddygiad aelod staff ysgolion a/neu sydd yn gysylltiedig ag ysgolion Ceredigion



ADRAN 11: Iechyd




Adroddiad Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer y Grwpiau Gweithredol Lleol

Chwarter 2 2021/22

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a diweddariadau i'r Grwpiau Gweithredol Lleol ar y datblygiadau o ran diogelu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod Chwarter 2, 2021/22.

Chwarter 2 2021/22 Archwiliad Niwed Pwysu y Gellir ei Osgoi Ysbyty Aciwt



Roedd dau ddeg chwech o achosion o niwed pwysu y gellir ei osgoi ar draws pob un o'r pedwar safle yn Chwarter 2. Roedd hyn yn ostyngiad o'r pedwar deg o achosion a welwyd yn ystod Chwarter 1 2021/22. Mae'r nifer yn adlewyrchu pryd gynhaliwyd y cyfarfodydd craffu yn hytrach na phryd ddigwyddodd y niwed pwysu. Roedd y nifer uwch a adlewyrchir yn Chwarter 1 yn ymwneud yn rhannol â dal i fyny â chyfarfodydd craffu oedd heb ddigwydd ar ddechrau'r flwyddyn oherwydd effaith Covid ar yr ysbyty aciwt.

Roedd 25 o'r achosion a adroddwyd yn achosion gradd 1 neu 2 ac ni fyddai'r graddau hyn wedi cael eu hadrodd i'r Tîm Diogelu cyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Cafodd 1 achos ei gofnodi fel anaf meinwe dwfn posibl Amheus ac nid oedd unrhyw achos nad oedd modd ei raddio.

Nid yw'n anghyffredin i niwed pwysu gael ei adrodd fel anaf meinwe dwfn posibl, ac yna o fewn ychydig ddyddiau daw i'r amlwg ei fod yn niwed gradd 1 neu 2.

Diogelu Oedolion

Mae atgyfeiriadau sy'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion i'w weld yn gyson ar y cyfan â'r ddau chwarter blaenorol ar draws y Bwrdd Iechyd.

Adroddiad Rheoli Perfformiad 1/7//21 – 30/9/2

Mae cynlluniau gweithredu rhyddhau cleifion yn eu lle ar draws pob un o'r pedwar ysbyty aciwt gyda rhai'n cael eu hadolygu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill ar hyn o bryd. Mae Tim Diogelu Oedolion y Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnal adolygiad pellach sy'n ymwneud yn benodol ag atgyfeiriadau rhyddhau er mwyn nodi themâu penodol a rhoi adborth i'r Grŵp Cyflenwi Gwasanaeth Aciwt nesaf.

Diogelu Plant

Yn Hydref 2020 roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi datblygu a rhoi ar waith weithdrefn ar draws y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â monitro pobl agored i niwed oedd heb fynychu apwyntiadau ac ymweliadau dim mynediad. Ar hyn o bryd mae'r Tim Diogelu Plant Corfforaethol yn cynnal archwiliad sydd â dull gweithredu deubig. Yn gyntaf bydd yn mesur ymwybyddiaeth o'r weithdrefn ar draws gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Bydd y casgliadau ar gael i'w hadrodd i Grwpiau Cyflenwi Diogelu Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd yn Ionawr 2022. Bydd ail agwedd yr archwiliad yn adolygu cydymffurfiaeth â'r protocol o fewn gwasanaethau pediatrig, offthalmoleg ac awdioleg. Bydd casgliadau hyn ac unrhyw argymhellion yn cael eu hadrodd i'r Penaethiaid Gwasanaeth a'u cyflwyno i'r Grwpiau Cyflenwi Diogelu a'r Gweithgor Diogelu Strategol maes o law.

Diffyg Cydymffurfio â'r Gweithdrefnau Diogelu

Mae'r Tim Diogelu Plant Corfforaethol yn adrodd am achosion o ddiffyg cydymffurfio â gweithdrefnau diogelu plant trwy'r system adrodd Datix. Mae hyn yn cynnwys achosion lle nad yw MARF wedi cael ei gyflwyno yn amserol ar ôl bod yn yr Adran Achosion Brys ar gyfer hunan-niweidio. Yn ogystal, mae'n darparu adroddiad wedi'i goladu i Grwpiau Cyflenwi Diogelu Gwasanaeth sy'n nodi'r meysydd gwasanaeth lle mae diffyg cydymffurfio yn digwydd a'r themâu ynghylch y diffyg cydymffurfio hwnnw. Bydd hyn yn cynnig modd i'r cyfarwyddiaethau perthnasol roi sylw i achosion unigol ac ar y cyd a sicrhau bod hyfforddiant a goruchwyliaeth wedi'u teilwra ar gyfer ymdrin â meysydd o bryder.

Cronfa Ddata Rhannu Gwybodaeth Diogelu yn ystod Beichiogrwydd

Mae rhai datblygiadau newydd cyffrous mewn perthynas â'r gronfa ddata Diogelu Mamolaeth a datblygu ap ffôn symudol cronfa ddata Diogelu Mamolaeth newydd ar gyfer bydragedd cymunedol i'w ddefnyddio tra eu bod yn gweithio yn y gymuned. Rhagwelir y bydd ar gael yn Rhagfyr 2021.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Y Rhaglen Galluogi Gwella Ansawdd (EQliP)

Mae'r tîm iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal wedi nodi rhai plant a phobl ifanc sydd â phroblemau rhwymedd a baeddu. Mae baeddu yn cael ei weld yn ymddygiad y gall plant a phobl ifanc ei reoli ac nid yn ganlyniad i rwymedd ac mae'n peryglu chwalu lleoliad. Mewn rhai achosion, ni fu'r gofalwyr na'r gweithwyr cymdeithasol yn ymwybodol bod y plentyn yn rhwym. Rydym yn ymwybodol nad yw'r broblem hon yn unigryw i blant sy'n derbyn gofal yn unig ond yn un sy'n effeithio ar yr holl blant a phobl ifanc, a gall gael effaith sylweddol ar y bobl ifanc a'u teulu ehangach a'u cymunedau. Mae un ym mhob deg plentyn oedran ysgol yn cael problemau gyda'r coluddyn neu'r bledren ond dim ond un rhan o dair o'r teuluoedd hyn sy'n gofyn am gymorth (Brenda Cheer, ERIC, 2021). Mae 95% o blant a effeithir gan faeddu yn rhwym.

Yn aml disgwylir i weithwyr proffesiynol iechyd ddatrys y broblem yn syth ac nid yw pobl yn deall pa mor hir y gall ei gymryd i'w ddatrys. Nid oes unrhyw wasanaeth ymataliaeth pediatrig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar hyn o bryd, mae ymarferwyr yn gweithio ar eu pennau eu hunain yn aml neu'n cyfeirio at sefydliadau trydydd sector. Gan ddibynnu at sylfaen wybodaeth a phrofiad yr ymarferydd, gall gofalwyr gael cymorth a chyingor amrywiol.

Gyda hyn mewn cof roedd tîm o weithwyr proffesiynol o nifer o wasanaethau (Tim Plant sy'n Derbyn Gofal, Iechyd Cyhoeddus, Menywod a Phlant) wedi gwneud cais i'r rhaglen EQliP gyda'r nod o ddatblygu dull/adnodd y gellir ei rannu â rhieni/gofalwyr neu weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc hyn. Byddai'r adnodd neu'r dull yma yn addysgu am rwymedd plentyndod ac yna'n cynnig adnoddau ar sut i reoli'r rhwymedd mor gynnar â phosibl. Am y 12 mis nesaf bydd aelodau'r tîm yn cwrdd yn fisol gyda Hyfforddwr Gwella ac yn cynllunio, gweithredu a datblygu'r prosiect hwn.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Disgwylir i gynllun peilot IRISi yng nghlystyrau Sir Gaerfyrddin fynd allan i dendro ar gyfer y rôl Eiriolwr Addysg.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno cais i Elusennau GIG ar gyfer rôl Trais a Cham-drin Domestig Iechyd mewn partneriaeth â darparwyr arbenigol mewn un o'r ddwy Adran Achosion Brys gyda'r nifer lleiaf o atgyfeiriadau MARAC, yn dibynnu ar y cyllid a ddyrennir. Mae cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r Ymgynghorydd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol a darparwyr arbenigol i weithio ar y cynnig terfynol i'w gyflwyno ar ddechrau 2022.

Gyda'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru trwy'r adnodd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol, datblygwyd rôl Swyddog Cymorth Cam-drin Domestig y Bwrdd Iechyd i gynyddu'r capasiti ar gyfer hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Grŵp 2.

Mae'r Bwrdd Iechyd newydd gymryd rhan mewn gweithdy Grŵp 6 a gynhaliwyd yn yr ardal. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ag ysgrifennydd y Bwrdd ynghylch rolau hyrwyddwyr ar lefel strategol a hyrwyddo'r adnoddau hyfforddi Cryfhau Arweinyddiaeth Grŵp 6 trwy'r microsafle cenedlaethol. [NTF Group 6](#)

Cylchlythyr Hydref Diogelu

Mae'r cylchlythyr yn tynnu sylw at Wythnos Genedlaethol Diogelu trwy hyrwyddo'r digwyddiadau rhanbarthol sy'n cael eu cynnal. Roedd ffocws arbennig ar lansio'r Ymddygiadau Risg Uchel, gan gynnwys polisi a chanllawiau hunanesgeuluso a chelcio.

Roedd eitem benodol ar chwilfrydedd proffesiynol wedi'i chynnwys gan dynnu sylw at yr adnoddau newydd sy'n cael eu datblygu yn yr ardal.

Mae'r deunyddiau dysgu Lladdiadau Domestig Rhanbarthol wedi cael eu hyrwyddo'n eang yn y cylchlythyr hwn ac ar system e-bost byd-eang y Bwrdd Iechyd.

Roedd nodyn i atgoffa staff am eu cyfrifoldebau Rhannu Gwybodaeth wedi'i gynnwys hefyd.

[Cylchlythyr Hydref Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda](#)

Matrics Aeddfedrwydd Diogelu

Mae rôl hanfodol gan GIG Cymru i'w chwarae o ran sicrhau bod pob oedolyn a phlentyn yn cael y gofal, y cymorth a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt i hyrwyddo Cymru iachach, ddiogelwch a thecach. Mae mesur effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd o ran cyfrannu at ddiogelu oedolion a phlant yn anodd ac yn gymhleth.

Gyda chymeradwyaeth Fforwm Cyfarwyddwyr Nyrsys y Prif Swyddog Nyrsio, datblygwyd Matrics Aeddfedrwydd Diogelu GIG Cymru pob oed trwy Rwydwaith Diogelu GIG Cymru. Mae'n rhoi sylw i'r llinynnau rhyngddibynnol ynghylch diogelu, gwella ansawdd gwasanaeth, cydymffurfio yn erbyn safonau cytunedig a dysgu o ddigwyddiadau ac adolygiadau.

Nod dal a choladu Matrics Aeddfedrwydd Diogelu cenedlaethol yw rhoi sicrwydd, rhannu arferion ac ysgogi gwelliannau tuag at ymagwedd gyson 'Unwaith i Gymru' at ddiogelu ar draws Cymru.

Cwblhaodd y Bwrdd Iechyd ei hunanasesiad ar gyfer 2020/21 a'i gyflwyno i'r Tim Diogelu Cenedlaethol yn Hydref 2021. Cafodd ei graffu trwy adolygiad cyfoedion ar 25 Tachwedd 2021. Mae copi o gynllun gwella'r Bwrdd Iechyd wedi'i atodi er gwybodaeth.



SMM Approved and
submitted 2021.pdf

ADRAN 12: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS)

Adroddiad Diweddarau S-CAMHS ar gyfer CYSUR

Yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru "Canllawiau Derbyn", mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi rhoi Polisi / Llwybr Derbyn cadarn yn ei le yn amlinellu'r broses ar gyfer derbyn unrhyw berson ifanc i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion. Mae'r canllawiau yn datgan bod rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael Uned ddynodedig, ac o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr uned ddynodedig yw Ward Morlais ar gampws Ysbyty Glangwili.

Mae protocol newydd wedi cael ei gymeradwyo i fodloni'r gofyniad statudol hwn a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth yn erbyn disgwyliaid Llywodraeth Cymru.

Gall cael eich derbyn i ward iechyd meddwl oedolion fod yn brofiad brawychus a gwneir pob ymdrech i ystyried y dewis arall lleiaf cyfyngol ar gyfer derbyn cleifion. Yn y mwyafrif o achosion caiff person ifanc ei dderbyn i'r uned ddynodedig ar Ward Cilgerran wedi'i gefnogi gan staff o'r uned iechyd meddwl.

Yn unol â'r canllawiau, mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar ddiogelu pobl ifanc ac, yn ogystal, mae staff ar Ward Morlais i gyd wedi cwblhau'r canlynol:

Hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 3



Wedi derbyn tystysgrif DBS fanylach ddilys



Wedi cwblhau hyfforddiant penodol ar anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

Hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014


Rhaid i bawb a dderbynnir i wely iechyd meddwl gael ei adrodd, yn fewnol i gychwyn, fel DATIX, a dilynir hyn gan adroddiad Digwyddiad Anffafriol Difrifol i'r Uned Gyflenwi yn unol â'r ddogfen Canllawiau Derbyn Llywodraeth Cymru.

**Chwarter 2 Derbyniadau i wely addas i'r oedran Enfys / Morlais ac ar Ward Iechyd Meddwl
Oedolion Morlais Ysbyty Glangwili:**



Chwarter 2 Derbyniadau i wely addas i'r oedran Enfys / Morlais yn ôl rhyw:**Chwarter 2 Derbyniadau i wely Enfys / Morlais yn ôl ardal:****Derbyniadau i Wely Addas i Oedran Paediatreg (Uned yr Enfys, ddim yn adroddadwy)**

Mae cofnodion arbenigol CAMHS ar gyfer Chwarter 2 wedi'u hamlinellu uchod gyda chyfanswm o 10 wedi'u derbyn, gyda 3 wedi'u derbyn i'r gwely pediatrig a 7 wedi'u derbyn i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion (Morlais). Sylwch, cafodd dau o'r rhain eu derbyn i Enfys i gychwyn, ond cawsant eu trosglwyddo i Ward Morlais, felly mae'r derbyniadau wedi'u nodi o dan y ddau wely.

Chwarter 2 Derbyniadau i Enfys / Morlais wedi'u rhannu yn ôl tîm derbyn:**Statws Iechyd Meddwl**

Cafodd 2 unigolyn eu derbyn o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Canlyniadau Derbyn

	Wedi'i ryddhau i'w gartref	Ei dderbyn i ward arall	Aros ar y ward
Enfys	1	2	0
Morlais	7	0	0


Derbyniadau sy'n gysylltiedig â chleifion hunan-niweidio

O fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mae systemau cadarn yn eu lle i S-CAMHS ddarparu asesiad iechyd meddwl yn dilyn atgyfeiriad gan y ward pediatrig, lle mae unrhyw berson ifanc yn cael ei dderbyn yn dilyn achos o hunan-niweidio. Yn gyffredinol y rheswm am ei dderbyn yw gorddos, ond gall fod yn dilyn achos bwriadol o dorri'r croen neu geisio crogi ei hun.


Bydd pob achos o orddos/hunan-niweidio yn cael apwyntiad dilynol o fewn tri diwrnod gwaith i fonitro risg a darparu cymorth. Mae llwybr cadarn yn ei le ynghyd ag arweiniad ar gyfer derbyn yr holl bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn dilyn hunan-niweidio er mwyn gallu cytuno ar asesiad iechyd meddwl cynhwysfawr a rheoli risg. Lle y bo'n briodol, gellir ystyried atgyfeirio i'r tîm diogelu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion am y nifer a dderbyniwyd yn dilyn hunan-niweidio bwriadol yn Chwarter 2 2021-2022 ar gyfer y 3 Ardal Awdurdod Lleol:


Chwarter 2 Ystadegau derbyniadau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw ac ardal:




Chwarter 2 Ystadegau derbyniadau Hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw a phroffil oedran:



Data Cymhariaeth (12 mis diwethaf) – Gwely Addas i'r Oedran




Tueddiadau Derbyniadau yn ôl ardal (12 mis diwethaf)



Cymhariaeth Derbyniadau Blynyddol yn ôl ardal

Mae'r graff canlynol yn cymharu'r nifer a dderbyniwyd ar gyfer Chwarter 2 2021/2022 yn erbyn y nifer a dderbyniwyd ar gyfer yr un chwarter 2020/2021 a 2019/2020, wedi'i ddiffinio ymhellach yn ôl ardal.



Eiriolaeth

Yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2012, disgwylir i'r Byrddau Iechyd sicrhau bod mynediad i Wasanaethau Eiriolaeth yn ei le, yn unol â Rhan 4 y Mesur, ar gyfer unrhyw unigolyn a dderbynnir i'r ysbyty. Gofynnir i bob person ifanc a dderbynnir i Ward Morlais a hoffent gael mynediad i Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Y targed perfformiad disgwylidig yw bod 100% o gleientiaid yn cael cynnig hyn a bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i hadrodd trwy ein Dadansoddwr Gwybodaeth.

Ar Ward Cilgerran mae gwybodaeth yn cael ei darparu i bobl ifanc pan gânt eu derbyn ar argaeledd mynediad at y Gwasanaeth Eiriolaeth. Fodd bynnag, nid yw'r safon perfformiad uchod yn gymwys, felly nid yw data yn cael eu casglu fel mater o arfer.

CEREDIGION

GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR

Adroddiad Rheoli Perfformiad – Diogelu Oedolion


Chwarter: 2

1/7/21 – 30/9/21

Nifer yr Oedolion mewn Perygl a Adroddwyd


Nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso

2020-2021 – Chwarter 2	122
2020-2021 – Chwarter 3	117
2020-2021 – Chwarter 4	146
2021-2022 – Chwarter 1	133
2021-2022 – Chwarter 2	147




Mae cynnydd yn Chwarter 2 yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeuluso o'i gymharu â Chwarter 1. Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n debyg i nifer yr oedolion yn Chwarter 4. Yn Chwarter 4, roedd cynnydd yn y nifer o'i gymharu â'r chwarteri blaenorol ac mae'n ymddangos bod hyn yn dilyn codi cyfyngiadau Covid-19. Yn Chwarter 4 roedd cynnydd yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gydag ychydig o ostyngiad yn Chwarter 1 y flwyddyn hob ac yna cynnydd eto yn Chwarter 2.

Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd	
Adroddiadau – Fesul Mis	
Labeli Rhes	Rhif Adnabod Asesu
2020-2021 – Chwarter 2	149
Gorff	54
Awst	52
Medi	43
2020-2021 – Chwarter 3	131
Hyd	42
Tach	45
Rhag	44
2020-2021 – Chwarter 4	157
Ion	38
Chwe	67
Maw	52
2021-2022 – Chwarter 1	148
Ebr	51
Mai	48
Meh	49
2021-2022 – Chwarter 2	175
Gorff	53
Awst	72
Medi	50
Cyfanswm	760




Sylwadau: – Mae nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd yn Chwarter 2 wedi cynyddu o'i gymharu â Chwarter 1 gyda nifer fawr o adroddiadau wedi'u derbyn yn Awst yn ystod Chwarter 2.

Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Ffynhonnell Adroddiadau						
Adroddiadau – Fesul Mis						
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn					
Labeli Rhes	2020-2021 – Chwarter 2	2020-2021 – Chwarter 3	2020-2021 – Chwarter 4	2021-2022 – Chwarter 1	2021-2022 – Chwarter 2	Cyfanswm
Eiriolwr	1					1
Y Gwasanaeth Ambiwylans	6	7	3	3	4	23
Rheoleiddiwr Gofal	1		2		1	4
Ysbyty Annibynnol			1			1
Awdurdod Lleol	22	31	14	23	26	116
Bwrdd Iechyd Lleol	41	25	37	38	25	166
Arall	10	7	7	8	20	52
Yr Heddlu	26	26	35	35	34	156
Gwasanaeth Prawf	1		1	1		3
Asiantaeth Ddarparu	19	16	36	25	42	138
Perthynas / Ffrind	11	13	6	6	11	47
Adrodd am eu hunain	2	2	3	5	2	14
Trydydd Sector	9	4	12	4	10	39
Cyfanswm	149	131	157	148	175	760




Asiantaethau Darparwyr oedd y ffynhonnell fwyaf o adroddiadau yn y chwarter hwn wedi'i ddilyn gan yr Heddlu ac yna'r Awdurdod Lleol ac Iechyd. Dyma'r chwarter cyntaf ers amser lle y gwelwyd Asiantaethau Darparwyr yn ffynhonnell fwyaf o adroddiadau. Bu cynnydd y chwarter hwn yn y Pryderon Proffesiynol a adroddwyd, pryderon am un darparwr yn benodol.

Cam-drin Corfforol			
Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Cam-drin Corfforol			
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn		
Labeli Rhes	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
2020-2021 – Chwarter 2	11	25	36
2020-2021 – Chwarter 3	9	20	29
2020-2021 – Chwarter 4	15	20	35
2021-2022 – Chwarter 1	19	23	42
2021-2022 – Chwarter 2	21	28	49
Cyfanswm	75	116	191




Mae cynnydd yn nifer yr adroddiadau lle mae cam-drin corfforol yw'r categori o gam-drin a adroddir o'i gymharu â Chwarter 1.

Cam-drin Rhywiol			
Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Cam-drin Rhywiol			
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn		
Labeli Rhes	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
2020-2021 – Chwarter 2	1	6	7
2020-2021 – Chwarter 3	2	7	9
2020-2021 – Chwarter 4	3	13	16
2021-2022 – Chwarter 1	6	11	17
2021-2022 – Chwarter 2	5	10	15
Cyfanswm	17	47	64




Dros y 3 chwarter diwethaf bu gostyngiad yn nifer yr adroddiadau lle mae menywod wedi dioddef cam-drin rhywiol er bod ychydig o newid o ran y gwrywod sy'n adrodd eu bod wedi dioddef cam-drin rhywiol.

Cam-drin Emosiynol / Seicolegol			
Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Cam-drin Emosiynol/Seicolegol			
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn		
Labeli Rhes	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
2020-2021 – Chwarter 2	26	44	70
2020-2021 – Chwarter 3	28	44	72
2020-2021 – Chwarter 4	26	56	82
2021-2022 – Chwarter 1	25	49	74
2021-2022 – Chwarter 2	35	39	74
Cyfanswm	140	232	372




Dros y 3 chwarter diwethaf bu gostyngiad yn nifer y menywod yr adroddir eu bod wedi dioddef cam-drin emosiynol/seicolegol er bod cynnydd yn yr adroddiadau sy'n ymwneud â dynion. Fodd bynnag, mae nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd sy'n ymwneud â cham-drin emosiynol/seicolegol yn uwch nag unrhyw gategori o gamdriniaeth a adroddwyd yn y chwarter hwn, gyda 74 o adroddiadau ar gyfer hyn o'i gymharu â 49 ar gyfer cam-drin corfforol, 52 ar gyfer esgeulustod, 50 ar gyfer cam-drin ariannol a 15 ar gyfer cam-drin rhywiol. Mae hyn yn gyson â chwarteri blaenorol lle mae cam-drin emosiynol/seicolegol wedi bod y categori o gam-drin a adroddir yn fwyaf aml.

Cam-drin Ariannol			
Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Cam-drin Ariannol			
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn		
Labeli Rhes	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
2020-2021 – Chwarter 2	14	23	37
2020-2021 – Chwarter 3	15	19	34
2020-2021 – Chwarter 4	17	19	36
2021-2022 – Chwarter 1	21	18	39
2021-2022 – Chwarter 2	23	27	50
Cyfanswm	90	106	196




Mae cynnydd yn nifer yr adroddiadau sydd wedi tynnu sylw at gam-drin ariannol fel achos o bryder yn y Chwarter hwn.

Esgeulustod			
Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Esgeulustod			
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn		
Labeli Rhes	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
2020-2021 – Chwarter 2	28	24	52
2020-2021 – Chwarter 3	24	30	54
2020-2021 – Chwarter 4	36	37	73
2021-2022 – Chwarter 1	26	29	55
2021-2022 – Chwarter 2	30	22	52
Cyfanswm	144	142	286




Mae gostyngiad yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd lle mae esgeulustod yw'r achos o bryder.

Nifer yr adroddiadau a aeth ymlaen i ymholiad					
Adroddiadau a arweiniodd at Ymholiadau					
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn				
Labeli Rhes	Na – Arall (nodwch os gwelwch yn dda)	Na – Gwrthododd yr unigolyn gymryd rhan mewn ymholiad	Na – Nid oedd yr unigolyn yn oedolyn mewn perygl	Wedi arwain at ymholiad	Cyfanswm
2020-2021 – Chwarter 2	26	1	36	86	149
2020-2021 – Chwarter 3	33	4	17	77	131
2020-2021 – Chwarter 4	21	2	28	106	157
2021-2022 – Chwarter 1	25	3	27	93	148
2021-2022 – Chwarter 2	46	10	32	87	175
Cyfanswm	151	20	140	449	760




Mae mwy o adroddiadau oedd heb fynd ymlaen i ymholiad o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Mae'r tîm wedi adrodd bod cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau amhriodol sy'n dod i mewn lle roedd yn rhaid i'r tîm fynd yn ôl a thrafod yr atgyfeiriadau gyda'r atgyfeiriwr.

Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad nad oedd angen gweithredu			
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn		
Labeli Rhes	Do	Nac oes	Cyfanswm
2020-2021 – Chwarter 2	23	63	86
2020-2021 – Chwarter 3	7	70	77
2020-2021 – Chwarter 4	6	100	106
2021-2022 – Chwarter 1	7	86	93
2021-2022 – Chwarter 2	8	79	87
Cyfanswm	51	398	449




Mae'n nodi nifer yr ymholiadau a aeth ymlaen i gam pellach o dan y Gweithdrefnau Diogelu, cyfarfodydd Strategaeth ac ymchwiliadau pellach.


Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Cartref Eich Hun	
Labeli Rhes	Rhif Adnabod Asesu
2020-2021 – Chwarter 2	13
2020-2021 – Chwarter 3	4
2020-2021 – Chwarter 4	5
2021-2022 – Chwarter 1	4
2021-2022 – Chwarter 2	6
Cyfanswm	32




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Cymuned	
Labeli Rhes	Lle – Cymuned
2020-2021 – Chwarter 2	4
2020-2021 – Chwarter 3	0
2020-2021 – Chwarter 4	0
2021-2022 – Chwarter 1	2
2021-2022 – Chwarter 2	1




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Lleoliad Cartref Gofal	
Labeli Rhes	Rhif Adnabod Asesu
2020-2021 – Chwarter 2	2
2020-2021 – Chwarter 3	3
2020-2021 – Chwarter 4	1
2021-2022 – Chwarter 1	1
2021-2022 – Chwarter 2	2
Cyfanswm	9



Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – lechyd	
2020-2021 – Chwarter 2	5
2020-2021 – Chwarter 3	1
2020-2021 – Chwarter 4	0
2021-2022 – Chwarter 1	0
2021-2022 – Chwarter 2	0




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Lle				
Cyfnod	Cartrefi eu Hunain	Cymuned	Cartrefi Gofal	Iechyd
2020-2021 – Chwarter 2	13	4	2	5
2020-2021 – Chwarter 3	4	0	3	1
2020-2021 – Chwarter 4	5	0	1	0
2021-2022 – Chwarter 1	4	2	1	0
2021-2022 – Chwarter 2	6	1	2	0




Roedd angen i brosesau diogelu pellach fod yn eu lle ar gyfer y mwyafrif o bobl lle roedd camdriniaeth wedi digwydd yn eu cartref eu hunain yn wahanol i unrhyw leoliad arall.


Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Gweithiwr a Thal	
Labeli Rhes	Rhif Adnabod Asesu
2020-2021 – Chwarter 2	6
2020-2021 – Chwarter 3	5
2020-2021 – Chwarter 4	1
2021-2022 – Chwarter 1	1
2021-2022 – Chwarter 2	2
Cyfanswm	15




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Perthynas / Ffrind	
Person – Perthynas / Ffrind	
Labeli Rhes	Rhif Adnabod Aseu
2020-2021 – Chwarter 2	14
2020-2021 – Chwarter 3	2
2020-2021 – Chwarter 4	2
2021-2022 – Chwarter 1	3
2021-2022 – Chwarter 2	4
Cyfanswm	25




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Defnyddiwr Gwasanaeth Arall	
2020-2021 – Chwarter 2	2
2020-2021 – Chwarter 3	0
2020-2021 – Chwarter 4	0
2021-2022 – Chwarter 1	0
2021-2022 – Chwarter 2	1



Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – person sy'n gyfrifol – Arall	
Person – Arall	
2020-2021 – Chwarter 2	3
2020-2021 – Chwarter 3	0
2020-2021 – Chwarter 4	3
2021-2022 – Chwarter 1	3
2021-2022 – Chwarter 2	2



Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Person					
Cyfnod	Gweithiwr Cyflogedig	Perthynas / Ffrind	Gwirfoddolwr	Defnyddiwr Gwasanaeth Arall	Arall
2020-2021 – Chwarter 2	6	14	0	2	3
2020-2021 – Chwarter 3	5	2	0	0	0
2020-2021 – Chwarter 4	1	2	0	0	3
2021-2022 – Chwarter 1	1	3	0	0	3
2021-2022 – Chwarter 2	2	4	0	1	2



Pan oedd angen cymryd camau gweithredu diogelu pellach, roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â pherthnasau a ffrindiau yr honnir eu bod yn gyfrifol am y gamdriniaeth a adroddwyd.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

DYDDIAD: 15 Mehefin 2022

LLEOLIAD:

TEITL: Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd
CYSUR/CWMPAS
Chwarter 3 2021/22

PWRPAS YR ADRODDIAD: Monitro gweithgarwch ar sail amlasiantaethol o ran y camau a gymerwyd i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion.

**RHESWM Y MAE'R
PWYLLGOR CRAFFU
WEDI GOFYN AM Y
WYBODAETH HON:** Sicrhau bod aelodau'n monitro cynnydd yng nghyfarfodydd rheoli chwarterol Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS

CEFNDIR:

Amgaeir Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS ar gyfer Chwarter 3 2021/22.

Adroddiadau rheoli amlasiantaethol yw'r rhain ar ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2021. Darparant wybodaeth reoli ar y camau a gymerwyd o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae'r Adroddiadau yn cynnwys y wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu llesiant plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS (Ceredigion) yn trafod y wybodaeth reoli hon er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion perfformiad a materion eraill o fewn y maes gwaith hwn.

Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol:

DIOGELU PLANT:

- Roedd cynnydd yn nifer yr adroddiadau am blant a arweiniodd at gamau'n cael eu cymryd o dan y Gweithdrefnau Diogelu yn y chwarter hwn o'i gymharu â Chwarter 2, gyda 122 yn y chwarter hwn o'i gymharu â 106 yn Chwarter 2.
- Fodd bynnag, roedd gostyngiad amlwg yn nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o'i gymharu â Chwarter 2, gyda dim ond 8 o blant yn destun Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn o'i gymharu â 33 o blant yn Chwarter 2.
- O ganlyniad i Gynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant, cafodd 6 o blant eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn. Ni chafodd 2 blentyn eu rhoi ar y gofrestr.
- Cynhaliwyd 13 o Gynadleddau Adolygu yn y chwarter hwn ar gyfer 34 o blant. O'r 34 o blant hynny, roedd 19 o blant wedi aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, cafodd 15 eu tynnu oddi ar y gofrestr. O'r 15 o blant a ddatgofrestrwyd, derbyniodd 6 ymyrraeth bellach trwy'r Cynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth, roedd 6 yn destun Gorchymyn Llys ac yn Blant sy'n Derbyn Gofal, ac nid oedd angen unrhyw wasanaethau ar 3 berson ifanc arall.
- Yr Heddlu oedd y ffynhonnell fwyaf o atgyfeiriadau o hyd yn y chwarter hwn, ond mae'r gyfradd ysgolion wedi cynyddu'n sylweddol yn dilyn gostyngiad mawr yn y chwarter blaenorol.
- Roedd gostyngiad yn nifer yr Ymholiadau Adran 47 a gynhaliwyd yn y chwarter hwn o'i gymharu â Chwarter 2, gyda 49 wedi'u cynnal yn y chwarter hwn a 51 yn Chwarter 2. O'r 49 o Ymholiadau a gynhaliwyd, cafodd 45 o'r Ymholiadau hyn eu cynnal ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- O'r Ymholiadau a wnaed, cam-drin corfforol oedd y prif gategori o gamdriniaeth a gafodd ei ymchwilio gyda 22 o Ymholiadau, 12 ohonynt yn ymwneud â cham-drin/cam-fanteisio'n rhywiol. Mae hyn mewn cyferbyniad â Chwarter 2, lle roedd 21 o'r Ymholiadau yn ymwneud â cham-drin/cam-fanteisio'n rhywiol ac 14 yn ymwneud â cham-drin corfforol.
- Cynhaliwyd 81.5% o Gynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant o fewn yr amserlenni statudol o'i gymharu â Chwarter 2. Cynhaliwyd 100% o'r Cynadleddau Cychwynnol o fewn yr amserlenni statudol yn y chwarter hwn.
- Y prif ffactorau risg i blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant oedd cam-drin domestig (80.5%), rhieni'n gwahanu (61.1%), rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau/alcohol (50.0%), rhieni sydd heb ymgysylltu â'r Cynllun Amddiffyn Plant (50.0%), ac anawsterau iechyd meddwl rhieni (47.2%).
- O'r 36 o blant ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr, roedd 17 o blant wedi'u cofrestru o dan y categori cam-drin emosiynol/seicolegol, roedd 17 o blant wedi'u cofrestru o dan y

categori esgeulustod, roedd 1 wedi'i gofrestru o dan y categori esgeulustod a cham-drin rhywiol, ac roedd 1 wedi'i gofrestru o dan gam-drin rhywiol.

DIOGELU OEDOLION

- Ceir gostyngiad amlwg yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin yn y chwarter hwn (117) o'i gymharu â Chwarter 2 (152), ond mae'r ffigur hwn yn debyg i Chwarter 3 (117) y flwyddyn ddiwethaf.
- Derbyniwyd cyfanswm o 137 o adroddiadau/atgyfeiriadau yn y chwarter hwn. O'r 137 o adroddiadau a dderbyniwyd, aeth 54 o adroddiadau ymlaen at Ymholiad Adran 126.
- Asiantaethau Darparwyr oedd y ffynhonnell fwyaf o adroddiadau y chwarter hwn (33), wedi'i ddilyn gan Eraill (23), h.y. aelodau'r cyhoedd ac ati, yr Heddlu (20), ac yna'r Awdurdod Lleol (26) ac Iechyd (19).
- Yn y chwarter hwn mae nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd yn ymwneud â cham-drin emosiynol/seicolegol wedi gostwng – hwn oedd y categori uchaf o gam-drin yn y chwarter diwethaf. Cam-drin corfforol oedd y categori mwyaf o gam-drin a gofnodwyd yn y chwarter hwn gyda 68 o adroddiadau o oedolion sydd mewn perygl, 45 o gam-drin emosiynol/seicolegol, 22 o gam-drin ariannol, 5 o esgeulustod a 12 o gam-drin rhywiol.
- Mae gostyngiad amlwg yn nifer yr adroddiadau am gam-drin ariannol o'i gymharu â'r chwarter blaenorol a gostyngiad amlwg yn nifer yr adroddiadau o gam-drin emosiynol/seicolegol.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam

Naddo

Crynodeb:

Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir ar ddiogelu plant yng Ngheredigion.

LLESANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:

Hirdymor:

Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol

Integreiddio:

Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt

Cydweithio:

Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod

Tudalen 160

Cynnwys: Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid

Atal: Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu

ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch â'r Awdurdod Lleol.

RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):

Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner.

Enw Cyswllt: Siân Howys

Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)

Dyddiad yr Adroddiad: 31 Mawrth 2022

Acronymau:



GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR

Ceredigion

Adroddiad Rheoli Perfformiad

Chwarter: 3

1.9.21 - 31.12.21

Tudalen 162

Tudalen 2 o 61

CYNNWYS:	TUDALEN
ADRAN 1: Cyflwyniad	3
ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol	4
ADRAN 3: Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant	6
ADRAN 4: Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant	10
ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant	12
ADRAN 6: Y Gofrestr Amddiffyn Plant	21
ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn mewn Amgylchiadau Arbennig	25
ADRAN 8: Cyfarfodydd Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE)	26
ADRAN 9: Yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)	27
ADRAN 10: Gwasanaethau Dysgu	29
ADRAN 11: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	34
ADRAN 12: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS)	36
ADRAN 13: Diogelu Oedolion	42

ADRAN 1: CYFLWYNIAD

Dyma'r adroddiad rheoli amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2021. Mae'n darparu gwybodaeth rheoli perfformiad am y camau a gymerwyd i ddiogelu plant.

Mae'n cynnwys adroddiadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid ynglŷn â diogelu a hybu llesiant plant yng Ngheredigion.

Mae'r dangosyddion a'r mesurau a ddefnyddir yn cael eu diffinio a'u hadrodd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Ceredigion yn trafod y wybodaeth reoli hon yn gyson er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau diogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn at:

Elizabeth Upcott
Rheolwr Corfforaethol Diogelu
Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk
01545 574212

ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol

Canlyniadau'r Atgyfeiriadau	Hyd-Rhag 2021	Gorff-Medi 2021	Ebrill-Meh 2021	Ion-Maw 2021	Hyd-Rhag 2020
2021-2022 – Chwarter 1	7	86	93
2021-2022 – Chwarter 2	9	81	90
2021-2022 – Chwarter 3	4	50	54
Cyfanswm	33	387	420




Mae'n nodi nifer yr ymholiadau a aeth ymlaen i gam gweithredu o dan y Gweithdrefnau Diogelu, cyfarfodydd Strategaeth ac ymchwiliadau pellach. Yn y mwyafrif o sefyllfaoedd, roedd y broses ymholi wedi datrys y materion oedd o bryder o ran oedolion a allai fod mewn perygl.

Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Cartref Eich Hun	
Labeli Rhes	Rhif Adnabod Aseu
2020-2021 – Chwarter 3	4
2020-2021 – Chwarter 4	5
2021-2022 – Chwarter 1	4
2021-2022 – Chwarter 2	6
2021-2022 – Chwarter 3	1
Cyfanswm	20




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Cymuned	
Labeli Rhes	Lle – Cymuned
2021-2022 – Chwarter 1	2
2021-2022 – Chwarter 2	1
2021-2022 – Chwarter 3	1
Cyfanswm	4




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Lleoliad Cartref Gofal

Labeli Rhes	Rhif Adnabod Asesu
2020-2021 – Chwarter 3	3
2020-2021 – Chwarter 4	1
2021-2022 – Chwarter 1	1
2021-2022 – Chwarter 2	3
2021-2022 – Chwarter 3	2
Cyfanswm	10




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – lechyd	
---	--

2020-2021 – Chwarter 3	1
2020-2021 – Chwarter 4	0
2021-2022 – Chwarter 1	0
2021-2022 – Chwarter 2	0
2021-2022 – Chwarter 3	0
Cyfanswm	1




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Lle				
Cyfnod	Cartrefi eu Hunain	Cymuned	Cartrefi Gofal	Iechyd
2020-2021 – Chwarter 3	4	0	3	1
2020-2021 – Chwarter 4	5	0	1	0
2021-2022 – Chwarter 1	4	2	1	0
2021-2022 – Chwarter 2	6	1	3	0
2022-2022 – Chwarter 3	1	1	2	0




Roedd angen i brosesau diogelu pellach fod yn eu lle roedd cam-drin wedi digwydd mewn lleoliad cartref gofal yn wahanol i unrhyw leoliad arall yn y chwarter hwn.


Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Gweithiwr Cyflogedig	
Labeli Rhes	Rhif Adnabod Aseu
2020-2021 – Chwarter 3	5
2020-2021 – Chwarter 4	1
2021-2022 – Chwarter 1	1
2021-2022 – Chwarter 2	1
2021-2022 – Chwarter 3	1
Cyfanswm	9




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Perthynas / Ffrind	
Person – Perthynas / Ffrind	
Labeli Rhes	Rhif Adnabod Aseu
2020-2021 – Chwarter 3	2
2020-2021 – Chwarter 4	2
2021-2022 – Chwarter 1	3
2021-2022 – Chwarter 2	4
2021-2022 – Chwarter 3	1
Cyfanswm	12




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Defnyddiwr Gwasanaeth Arall	
2020-2021 – Chwarter 3	0
2020-2021 – Chwarter 4	0
2021-2022 – Chwarter 1	0
2021-2022 – Chwarter 2	3
2021-2022 – Chwarter 3	0



Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – person sy'n gyfrifol – Arall	
Person – Arall	
2020-2021 – Chwarter 4	3
2021-2022 – Chwarter 1	3
2021-2022 – Chwarter 2	2
2021-2022 – Chwarter 3	2
Cyfanswm	10



Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Person					
Cyfnod	Gweithiwr Cyflogedig	Perthynas / Ffrind	Gwirfoddolwr	Defnyddiwr Gwasanaeth Arall	Arall
2020-2021 – Chwarter 2	5	2	0	0	0
2020-2021 – Chwarter 3	1	2	0	0	3
2020-2021 – Chwarter 4	1	3	0	0	3
2021-2022 – Chwarter 1	1	4	0	3	2
2021-2022 – Chwarter 2	1	1	0	0	2



Lle roedd angen cymryd camau diogelu pellach, roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'r camau a gymerwyd gan eraill.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

DYDDIAD: **15 Mehefin 2022**

LLEOLIAD:

TEITL: Adroddiad ar gofnod penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur Covid-19

PWRPAS YR ADRODDIAD: Darparu gwybodaeth am benderfyniadau Grŵp Arweiniol Covid-19 ('y Grŵp Rheoli Aur') yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Mawrth 2022

**RHESWM PAM BOD Y
PWYLLGOR CRAFFU
WEDI GOFYN AM Y
WYBODAETH:** Ni ofynnwyd am y wybodaeth

CEFNDIR:

Ar 25 Mawrth 2020, rhoddodd yr Arweinydd bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr y Cyngor a'r Grŵp Rheoli Aur Arweiniol i wneud penderfyniadau a oedd yn ymwneud ag ymateb y Cyngor i COVID-19.
(gweler: <https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/coronafeirws-covid-19/llywodraethiant/>).

Daeth cyfnod trosglwyddo'r pwerau gweithredu dros dro i ben ar 31 Awst 2021. O 1 Medi 2021 hyd yn awr, mae'r Grŵp Rheoli Aur wedi bod yn dod i benderfyniadau gweithredol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/36/contents>).

Cyhoeddwyd Cofnod o'r Penderfyniadau am y tro cyntaf ar wefan y Cyngor ar 5 Tachwedd 2020 (ar gyfer penderfyniadau a wnaed hyd at 30 Medi 2020).

Cyflwynwyd adroddiadau ar Gofnod o'r Penderfyniadau i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 20 Ionawr 2021, 16 Mehefin 2021, 1 Rhagfyr 2021 a 10 Chwefror 2022.
Gallwch weld yr adroddiadau drwy ddilyn y dolenni canlynol:

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Coord%20agenda%20pack%20200121%20FINAL%20Welsh.%20v2.pdf
<https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=143&MId=195&Ver=4&LLL=0>
<https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=143&MId=226&Ver=4&LLL=0> a
<https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=143&MId=227&Ver=4&LLL=1>

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Bellach mae Cofnod o'r Penderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Mawrth 2022 wedi'i baratoi (Gweler **Atodiadau 1, 2, a 3**).

Cyhoeddwyd Cofnod o'r Penderfyniadau a wnaed rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Ionawr 2022 ar wefan y Cyngor ar 18 Mawrth 2022, cyhoeddwyd Cofnod o'r Penderfyniadau a wnaed rhwng 1 Chwefror 2022 a 28 Chwefror 2022 ar wefan y Cyngor ar 23 Mawrth 2022, a chyhoeddwyd Cofnod o'r Penderfyniadau a wnaed rhwng 1 Mawrth 2022 a 31 Mawrth 2022 ar wefan y Cyngor ar 13 Mai 2022 (gweler <https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/coronafeirws-covid-19/llywodraethiant/>)

Y cofnod ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2022 a 31 Mawrth 2022 oedd yr un olaf ar gyfer 2021-2022 ac mae'r Grŵp Rheoli Aur bellach wedi dod i ben, felly ni fydd rhagor o adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.

A gwblhawyd Aseiad Effaith

Integredig? Naddo

Os naddo, nodwch pam

***Crynodeb:** Darperir yr adroddiad hwn er gwybodaeth ac nid yw'n cynrychioli unrhyw newid mewn polisi neu strategaeth.*

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:

Hirdymor:

Cofnod o benderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur yw'r Cofnod Penderfyniadau, gyda'r nod o gydbwysu angen tymor byr gyda chynllunio tymor hir yn sgil y pandemig.

Integreiddio:

Cofnod o benderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur yw'r Cofnod Penderfyniadau, gyda'r nod o gael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant a cheisio bod o fudd i bob un ohonynt yn wyneb y pandemig.

Cydweithio:

Mae'r Cofnod Penderfyniadau yn cyfeirio at y penderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur wrth gydweithio â phartneriaid eraill i'w cyflawni.

Cynnwys:

Mae'r Cofnod Penderfyniadau yn cyfeirio at benderfyniadau sy'n cynnwys y sawl sydd â budd yn y penderfyniadau hynny, gan geisio eu barn a chan ymgorffori dulliau ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Atal: Mae'r Cofnod Penderfyniadau yn cyfeirio at benderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur, lle defnyddir adnoddau i atal neu reoli problemau oherwydd y pandemig parhaus.

ARGYMHELLIAD: Nodi cynnwys Cofnod Penderfyniadau cyfarfodydd Grŵp Rheoli Aur Covid-19 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Mawrth 2022 (**Atodiadau 1-3**)

Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION: Monitro'r modd y llywodraethir trefniadau diwygiedig y Cyngor i wneud penderfyniadau.

Enw Cyswllt: Elin Prysor
Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)
Dyddiad yr adroddiad: 12/05/2022
Acronymau: Ddim yn berthnasol
Atodiadau: **Atodiad 1** – Cofnod Penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur (penderfyniadau rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Ionawr 2022)
Atodiad 2 – Cofnod Penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur (penderfyniadau rhwng 1 Chwefror 2022 a 28 Chwefror 2022)
Atodiad 3 – Cofnod Penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur (penderfyniadau rhwng 1 Mawrth 2022 a 31 Mawrth 2022)

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Tudalen 227

Cofnod o Gamau Gweithredu'r Grŵp Rheoli Aur - Penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Ionawr 2022		
263	04.01.22	<p>Cytuno i argymhell bod y brechlyn yn cael ei roi i blant 5-11 oed mewn grŵp risg a phlant 5-11 oed sy'n gyswllt cartref i rywrai â system imiwnedd gwannach na'r cyffredin, yn eu meddygfa leol am fod y plant yn gyfarwydd â nhw a'i fod yn lleihau'r symud ar draws y sir.</p> <p>Cytuno i barhau â'r cytundeb o fis i fis ar gyfer prydlesu cyfleuster Canolfan Brechu Torfol Cwmcou i'r Bwrdd Iechyd.</p> <p>Cytuno i wneud datganiad i'r wasg yn nodi bod y Cyngor yn anelu at ailagor Canolfannau Hamdden Llanbedr Pont Steffan a Phlascrug ganol/diwedd Ionawr 2022, gan dynnu sylw at y nifer uchel cyfredol o achosion Covid yn y Sir.</p>
264	06.01.22	<p>Cytuno mewn egwyddor â'r ddau ddewis a gyflwynwyd ar gyfer cymorth hyblyg i Gartrefi Gofal dros yr ychydig wythnosau nesaf wrth gynnal cymorth staffio.</p> <p>Cytuno y dylai'r cyngor a roddir ar brofi i staff yr Unedau Gofal Cymdeithasol, Cartrefi Gofal, Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r gwirfoddolwyr yn y gwasanaeth ysgolion, nodi bod yn rhaid iddynt fynd am brawf PCR (Adwaith Cadwynol Polymerasau) ar ôl cael prawf positif ar Ddyfais Llif Unffordd (LFD).</p> <p>Cytuno i ddilyn y ddeddfwriaeth/canllawiau ar gyfer gwasanaethau rheng flaen na fyddant yn gallu ymdopi os mynnir bod yn rhaid i staff weithio o'r cartref a hunanynysu os ydynt yn dod o gartref Covid-19 positif.</p> <p>Argymhell, er budd llywodraethu da, bod yr eitem ar Orchmynion Traffig Arbrofol Ffyrdd yn y cyfarfod Cabinet ddydd Mawrth yn cael ei thynnu yn ôl, bod y diwygiadau awgrymedig yn cael eu hymgorffori yn yr adroddiad a'u dwyn yn ôl i'r cyfarfod Cabinet nesaf.</p> <p>Cymeradwyo llythyr cynnig y cynllun grant argyfwng ar gyfer Ardrethi Annomestig Awdurdodau Lleol gan Lywodraeth Cymru a chytuno bod y cynllun yn cael ei weinyddu.</p> <p>Cytuno bod yn rhaid i'r holl staff sy'n gweithio mewn cyswllt agos â'r defnyddwyr gwasanaeth â system imiwnedd gwannach na'r cyffredin a/neu yn glinigol fregus iawn, barhau â'r rhaglen brofi a gwneud y prawf aferol LFD bob dydd a'r prawf PCR bob wythnos.</p> <p>Cytuno y dylid cofnodi ac adrodd ar bob prawf LFD a wneir gan staff mewn perthynas â gwaith y Cyngor ar dudalen berthnasol gwefan GOV.UK.</p> <p>Cytuno nad oes newid i'r trefniadau ar gyfer y staff hynny nad ydynt wedi'u brechu'n llawn ac y mae'n rhaid iddynt lenwi ffurflen lleoli teithwyr, gwneud prawf PCR ar yr ail ddiwrnod ar ôl dychwelyd i'r DU, hunanynysu am hyd at 10 niwrnod a chael prawf PCR ar ddiwrnod 8. Bydd yn rhaid i staff nad ydynt wedi'u brechu'n llawn naill ai gymryd gwyliau blynyddol</p>

Tudalen 228

		neu absenoldeb di-dâl am unrhyw ddiwrnodau gwaith yn ystod y cyfnod hunanynysu o 10 niwrnod.
265	11.01.22	Cytuno bod y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Ysgolion a Diwylliant yn monitro unrhyw ymweliadau archwilio ar y cyd gan AGC ac Estyn mewn perthynas ag archwiliad posibl ar safle a leolir mewn adeilad ysgol.
266	13.01.22	Cytuno â'r cynnig bod y staff hynny â'u canolfan weithio dan gontract mewn dau gartref gofal yn dychwelyd i waith a leolir mewn swyddfa i gynorthwyo Rheolwyr/Dirprwy Reolwyr a rhyddhau staff eraill yn ystod y don gyfredol o Covid-19. Cytuno y gellid defnyddio cyfleusterau caeau pob tywydd y Cyngor yn unol â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch pryd y gallai digwyddiadau chwaraeon awyr agored godi eu uchafswm capasiti i 500.
267	18.01.22	Cytuno mewn egwyddor â'r newidiadau arfaethedig i lacio cyfyngiadau yn llyfrgelloedd Ceredigion o 31 ^{ain} Ionawr 2022, a'r cafeat y bydd y penderfyniad yn cael ei gadarnhau yr wythnos nesaf, ar ôl ystyried y cyfraddau heintio diweddaraf.
268	20.01.22	Cefnogi'r raddfa 'goleuadau traffig' (RAG) a'r ymatebion sy'n seiliedig ar risg ar gyfer achosion statudol yn y Gwasanaethau Gydol Oed a Llesiant i'w gweithredu yn amodol ar roi mwy o eglurder ar y dull cydgysylltiedig i'r cyswllt a wneir ag achosion oedolion a phlant.
269	25.01.22	Cytuno i ailafael mewn darpariaeth â ffocws e.e. cwricwlwm amgen, gweithgareddau targededig. Rhaid i ymwelwyr hanfodol â safleoedd ysgol wneud prawf Llif Unffordd bob dydd e.e. staff ymgynghorol, mentoriaid, gweithwyr ieuencid ac ati o 31 ^{ain} Ionawr 2022. Cytuno i ganiatáu gweithgareddau chwaraeon rhwng ysgolion ar gyfer pobl ifanc 11-13 oed dim ond at bwrpas casglu tystiolaeth ar gyfer arholiadau allanol. Cytuno i ailagor cyfleusterau Hamdden ar 31 ^{ain} Ionawr 2022. Cytuno i ddefnyddio Ystafelloedd Ffitrwydd unwaith eto ac ailddechrau dosbarthiadau (e.e. Sbinio), nofio, Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) a Cherdded er Lles o 31 ^{ain} Ionawr 2022. Cytuno bod y defnydd o'r Neuaddau Chwaraeon yn cael ei gyfyngu i weithgareddau digyswllt fel badminton a sesiynau hyfforddiant clybiau am y tro, a bod chwaraeon cyswllt fel gemau cystadleuol e.e. pêl-droed 5-bob-ochr yn cael eu cynnal mewn cyfleusterau yn yr awyr agored. Cadarnhau cytundeb i'r newidiadau arfaethedig i lacio cyfyngiadau yn llyfrgelloedd Ceredigion o 31 ^{ain} Ionawr 2022 gyda'r cafeat y rhoddir amser i bori mewn llyfrau am gyfnod o hyd at 30 munud yn hytrach nag awr.
270	27.01.22	Cytuno, ar yr adeg bresennol, nad yw offer cyfieithu ar y pryd y Cyngor ar gael i'w logi gan fod swyddfeydd y Cyngor ar gau ar hyn o bryd.

Tudalen 229

Cofnod o Benderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur – Penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 1 Chwefror 2022 a 28 Chwefror 2022		
271	01.02.22	Gan fod Cymru ar Lefel Rhybudd sero erbyn hyn a bod y rhan fwyaf o wasanaethau wedi ailagor, cytunwyd y byddai'r Grŵp Rheoli Aur yn cyfarfod unwaith yr wythnos, ar ddydd Iau, o hyn allan.
272	03.02.22	<p>Cymeradwyo yr ymagwedd a gynigiwyd gan Grŵp Rheoli Arian Addasiad Economaidd tuag at y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol a Masnachu yn yr Awyr Agored.</p> <p>Parhau â'r trefniadau Cymorth Gweinyddol Brys ar gyfer y Cartrefi Gofal preswyl a chytunwyd mai'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal- Ymyrraeth wedi'i Thargedu a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: y Gwasanaethau Democrataidd fyddai'n cynnal adolygiadau pellach.</p> <p>Cytuno mewn egwyddor â'r angen i Benaethiaid, timau arwain ysgolion a rheolwyr y gwasanaethau dderbyn hyfforddiant Lefel 1 Team Teach, gyda'r rhybudd bod yn rhaid ystyried beth yw'r opsiynau eraill i ysgolion sy'n mynychu'r hyfforddiant yn Felin-fach.</p>
273	10.02.22	<p>Cytuno â'r cynnig bod ysgolion yn dychwelyd at fframwaith penderfynu'n lleol o hanner tymor ymlaen.</p> <p>Cytuno â'r cais am dri chyfarfod wyneb yn wyneb ym mhob sir i reolwyr stordai cyfarpar Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro.</p> <p>Cytuno bod ystafelloedd 5, 6 a 7 yn gallu cael eu defnyddio i bobl ddod iddynt i gofrestru o 14 Mawrth 2022 ymlaen.</p> <p>Cytuno i dderbyn y cynnig i dreialu Cerbyd Trydan 26 Tunnell i Gasglu Gwastraff.</p> <p>Cytuno i ganiatáu i 3 Aelod o Staff fynd i ganolfan profi yn Aberystwyth i sefyll prawf ar sgrin gyffwrdd, er mwyn iddynt ennill cymwysterau angenrheidiol.</p> <p>Cytuno y gall Aelodau Staff fynd i'r un hyfforddiant codi a chario, gan llynu'n llym wrth y mesurau rheoli a gafodd eu cynnwys yn yr asesiad risg.</p> <p>Cytuno y gellir gwneud y gwaith paratoi ar gyfer ailddechrau sesiynau nofio i ysgolion.</p>
274	17.02.22	<p>Cytuno ar 2 reolwr ychwanegol er mwyn cynorthwyo i gyflenwi gwasanaethau.</p> <p>Cytuno i gael staff allweddol yn unig yng Nghanolfan Rheidol 18/02/2022. Bydd yr Ystafell Bost ar gau.</p> <p>Cymeradwyo'r amserlennu ar gyfer Gweithdai'r Llyfrgell.</p> <p>Gwrthod y cynnig i Fwrdd Rhanddeiliaid Prosiect gyfarfod wyneb yn wyneb. Pe bai angen, gellid cynnig cymorth i hwyluso cyfarfod rhithiol.</p> <p>Cytuno i beidio â threfnu cyfarfod o'r Grŵp Rheoli Aur yr wythnos nesaf. Gellid ymdrin â rhai eitemau drwy eithriad yn unig yn dilyn cyfarfod y Grŵp Arweiniol ddydd Mercher.</p>

Tudalen 230

275	28.02.22	Cytuno i gynghori'r cyhoedd yn gryf i barhau i ddefnyddio mygydau wyneb yn holl leoliadau'r Cyngor nas enwir yn benodol yn y ddeddfwriaeth Diogelu Iechyd.
		Cytuno y byddai'r sawl sy'n gweithio yn adeiladau'r Cyngor yn dal i orfod gwisgo mygydau wyneb o leiaf hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022.
		Cytuno y bydd rhai aelodau o staff yn cael eu harwain drwy broses gefnogol a fydd yn rhoi ystyriaeth i'r cyhoeddiadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ddydd Gwener ac sy'n ymwneud â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer Orlhain Cysylltiadau.

Tudalen 231

Cofnod o Gamau Gweithredu'r Grŵp Rheoli Aur - Penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 1 Mawrth 2022 a 31 Mawrth 2022		
276	03.03.22	Cymeradwyo bod aelod Staff yn cael mynediad i Benmorfa er mwyn cynorthwyo i sganio Gweithredoedd: hanner diwrnod yr wythnos (boreau Mawrth) yn weithredol o 8/3/22.
		Cytuno i lacio ar nifer y Staff a gaiff fynediad i Ganolfan Rheidol a Phenmorfa er mwyn caniatáu i ddesgiau gael eu clirio a rhoi cychwyn ar y cynigion ynghylch Ffyrdd Newydd o Weithio.
		Cytuno y gellir aildechrau darparu nofio i ysgolion o 14 ^{eg} Mawrth 2022 ac y caniateir i bob ysgol gael uchafswm o 30 disgybl ym mhob gwers nofio.
		Cytuno bod rhaid gwneud cais drwy eithriad ynghylch presenoldeb mewn cyfarfod, hyfforddiant a digwyddiad y tu allan i'r sir, a bod y cais yn cael ei gyflwyno i'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol i'w gymeradwyo.
277	10.03.22	Cytuno ar uchafswm diwygiedig y nifer staff ar gyfer Canolfan Rheidol a Phenmorfa.
		Cytuno y bydd y Grŵp Rheoli Aur yn mabwysiadu rôl fonitro ac yn peidio â chymryd camau lliniaru pellach yn awr er bod ffigurau achosion Covid yn cynyddu ar hyn o bryd.
		Cytuno i ganiatáu i rai staff fynd ar gyrsiau statudol yn ddibynnol ar yr amodau yn y cynnig.
		Cytuno â'r cynnig mewn egwyddor (o ran defnyddio gwirfoddolwyr i ymgymryd ag ystod o dasgau yn Amgueddfa Ceredigion), ond dylid oedi ar weithredu hyd nes ein bod heibio'r cynnydd sydyn cyfredol yn yr achosion o Covid-19.
		Cytuno i weithredu canllawiau lechyd Cyhoeddus Cymru o ran ymweld â Chartrefi Gofal, ar wahân i'r rhai sydd dan fesurau rheoli. Dylid oedi'r darpariaethau sy'n berthnasol i breswylwyr sy'n gadael y cartref ar ymweliadau dydd hyd nes bydd y cynnydd sydyn cyfredol mewn achosion yn dechrau dangos tuedd ar i lawr.
		Cytuno â chynigion Cyfnod Addasu Porth Cymorth Cynnar o 10 ^{fed} Mawrth 2022 hyd at 30 ^{ain} Ebrill 2022.
		Cytuno y gall aelodau staff gweithredu rheng flaen sy'n gweithio wyneb yn wyneb ymgymryd â'u gwerthusiadau staff blynyddol mewn cyfarfod wyneb yn wyneb.
278	17.03.22	Dim penderfyniadau
279	24.03.22	Dim penderfyniadau
280	31.03.22	Cytuno y byddai rhaid i aelodau staff sy'n gweithio yn adeiladau'r Cyngor barhau i wisgo masgiau hyd at 25 ^{ain} Ebrill 2022 gyda'r cafeat eu bod yn gallu eu tynnu os ydynt yn eistedd ar eu pennau eu hunain wrth eu desgiau.

Tudalen 232

	<p>Cytuno bod y neges e-bost wythnosol at aelodau Staff yn cynnwys adran yn cadarnhau'r broses angenrheidiol i weithwyr ei dilyn os oes ganddynt symptomau neu'n profi'n bositif am Covid-19.</p>
	<p>Cytuno â'r cynnig o ddychwelyd yn raddol at wasanaeth llyfrgelloedd llawn erbyn 25^{ain} Ebrill 2022 ymlaen, fel a nodir yn yr asesiadau risg perthnasol.</p>
	<p>Cytuno i ailgyflwyno'r Gwasanaethau Casglu Gwastraff Swmpus a Gwastraff Gardd o'r 25^{ain} o Ebrill 2022.</p>
	<p>Cytuno i ddiddymu'r penderfyniad a wnaed yn gynnar yn y Pandemig a oedd yn rhwystro Staff Porth Gofal rhag gweithio mewn mwy nag un lleoliad (penderfyniad yng Nghyfarfod 28 ar 17^{eg} Ebrill 2020 na ddylai Staff weithio mewn lleoliad gofal plant yn ogystal ag mewn cartref gofal preswyl oherwydd y risg o ledaenu'r clefyd).</p>

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU
a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor - Penmorfa ddydd Dydd Iau, 10 Chwefror 2022**

PRESENNOL: Y Cynghorydd Rowland Rees-Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Bryan Davies, Lyndon Lloyd MBE, Ivor Williams, Wyn Thomas a Marc Davies. (Y Cynghorydd Elizabeth Evans – Sylwedydd yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio).

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, (Arweinydd y Cyngor), y Cynghorwyr Catherine Hughes, Ray Quant (Dirprwy Arweinydd y Cyngor), Alun Williams, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Gareth Lloyd, Catrin Miles (Aelodau o'r Cabinet).

Y Cynghorydd Ceredig Davies (Aelod sydd ddim ar y Pwyllgor).

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Eifion Evans, Prif Weithredwr; Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol; James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Stephen Johnson, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael; Elin Prysor, Swyddog Monitro a Swyddog Arweiniol Corfforaethol; Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol, Cyllid Craidd, Cyllid a Chaffael; Duncan Hall, Rheolwr Corfforaethol, Cyllid a Chyfrifon Gwasanaethau, Cyllid a Chaffael; Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth; Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd; Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; Carwyn Williams a Rhidian Jones, Cyfieithwyr.

(2.00 - 3.17 pm)

48 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Elaine Evans, Dan Potter a Mark Strong am nad oedd modd iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Ymddiheurodd Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd am nad oedd modd iddi fod yn bresennol yn y cyfarfod.

49 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Ni ddatgelwyd dim Buddiannau Personol/ Buddiannau sy'n Rhagfarnu.

50 Cyllideb ddrafft 2022/23

Rhoddodd y Cynghorydd Rowland Rees-Evans, Cadeirydd y Pwyllgor, fraslun o weithdrefn y cyfarfod a chroesawodd i'r cyfarfod Arweinydd y Cyngor - y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ynghyd â'r Aelodau o'r Cabinet a Swyddogion.

Bu i Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn gyflwyno'r adroddiad am gyllideb ddrafft 2022/23 a'r rhaglen gyfalaf tair blynedd, gan esbonio mai setliad dros dro yw hwn a bod disgwyl y setliad terfynol ar 1 Mawrth, 2022. Cyfanswm y setliad refeniw, a elwir yn Gyllid Allanol Cyfun, a ddyrannwyd i Geredigion ar gyfer 2022/23 yw £119.419m, o gymharu â £110.006m yn 2021/22 (wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau) sef cynnydd o 8.6%. Mae Cymru gyfan wedi gweld cynnydd o 9.4% ar gyfartaledd ac mae Ceredigion yn safle 19 o blith yr awdurdodau lleol. Rhoddodd yr Arweinydd wybod i Aelodau'r Pwyllgor fod £50 miliwn o arbedion wedi'u gwneud ers iddi gael ei phenodi yn 2012.

Mae Setliad Ceredigion yn adlewyrchu ystod o symudiadau ailddosbarthu llai ffafriol yn ariannol a welir yn y boblogaeth a dangosyddion niferoedd disgyblion Ysgolion Uwchradd. Mae Aseidiadau o Wariant Safonol yn gyfrifiadau tybiannol o'r swm y mae angen i bob Cyngor ei wario er mwyn darparu lefel safonol o wasanaeth. Yr Aseiad o Wariant Safonol ar gyfer 2022/23 yw £166.372m, sef cynnydd o 7.2% o'r flwyddyn flaenorol (2021/22 - £155.153m). Y cynnydd mwyaf sylweddol o ran gwasanaeth oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol Personol, sef 12.2%.

Mae model y Gyllideb wedi'i ddrafftio i gynnwys yr addasiadau o ran y setliad dros dro. Bydd angen ystyried unrhyw addasiadau sydd eu hangen ac sy'n codi yn y setliad terfynol a'u hymgorffori'n briodol yn y gyllideb.

Mae'r gwaith asesu manwl, a wnaed i nodi'r pwysau costau anochel sy'n wynebu'r Gwasanaethau, wedi'i gwblhau ac mae hwn wedi nodi cyfanswm net o £13.1m a grynhowyd yn Atodiad 1 o bapurau'r agenda. Mae'r swm yma bron yn ddwbl y blynyddoedd cynt ac yn £3.8m yn fwy na'r swm uwch sydd ar gael yn y setliad. Byddai hyn gyfystyr â'r angen i gynyddu Treth y Cyngor gan bron i 8%, fodd bynnag mae rhai arbedion ar gael i broses pennu'r gyllideb.

Daw costau cynyddol Gofal yn unig i £7m, gan gynnwys:

- Cyflog Byw Gwirioneddol £9.90 y DU ac Yswiriant Gwladol Cyflogwyr 1.25% – yn effeithio ar y rhan fwyaf os nad y cyfan o'r Gwasanaethau a Gomisiynir yn ymwneud â Gofal (yn arwain at ffactorau chwyddiant dros dro o 8.87% ar gyfer Gofal Cartref / Byw â Chymorth, 9.13% ar gyfer Gofal Preswyl ac 11.15% ar gyfer Taliadau Uniongyrchol);
- Cartrefi Preswyl – adolygiad pennu ffioedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd;
- Taliadau Uniongyrchol;
- Plant sy'n derbyn gofal;

- Gofal Cartref.

Dyweddodd yr Arweinydd fod darparu ar gyfer chwyddiant mewn cyflogau hefyd yn ffactor arwyddocaol a amcangyfrifir yn £3.4m, ac fel y mae pethau nid oes cytundeb ffurfiol eto ar brif ddyfarniad cyflog 2021/22. Ar ôl cymryd i ystyriaeth y cyllid posibl sydd ar gael, gellir cyflawni cyllideb wedi'i mantoli.

Mabwysiadwyd ffordd gorfforaethol o ymdrin â cholledion a chostau net Covid-19, yn hytrach na bod yn rhaid i bob gwasanaeth ysgwyddo symiau a ddyrennir i bob gwasanaeth. Mae'r dull hwn o weithredu wedi sicrhau bod rheolaeth ariannol cyllidebau 2021/22 a'r gweithgarwch busnes arferol wedi parhau'n gryf. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y costau caledi a'r incwm a gollir yn dod i gyfanswm gros o ychydig dan £7m gyda chymaint â phosibl yn cael ei adennill a'i adhawlio drwy grantiau/arian Llywodraeth Cymru.

Bydd costau ychwanegol yn sgil Covid-19 a rhywfaint o incwm coll yn parhau i mewn i'r flwyddyn 2022/2 a thu hwnt. Felly mae angen cyllideb gorfforaethol £750k o fewn cyllideb y Grŵp Arweiniol, yn ogystal â defnyddio cronfa wrth gefn a glustnodwyd gan gynnwys Cronfa Wrth Gefn Covid-19 a amcangyfrifir yn £1.25m. Nid oes dim ceisiadau am grant yn ddyledus y flwyddyn nesaf gan y bydd y Gronfa Galedi yn cau ac mae'r Setliad bellach yn cynnwys ar gyfer yr angen hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwmo i barhau i gyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol am ddim ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol cyhyd ag y bo angen ac i barhau i ddarparu cyllid ar gyfer Profi, Orlhain a Diogelu.

Bydd angen i Dreth y Cyngor godi i ariannu'r sefyllfa Gyllidebol yn llawn a byddai cynnydd o 6% yn ddelfrydol. Mae 4.75% ychwanegol o Dreth y Cyngor yn codi £2.1m gros, sy'n cyfateb i £1.8m net ar ôl darparu ar gyfer anghenion ychwanegol y gyllideb yn sgil cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Mae polisi adennill Incwm a chostau'r Cyngor yn golygu bod gwasanaethau'n parhau i adennill eu costau chwyddiannol sy'n berthnasol i wasanaethau y gellir codi tâl amdanynt gan ddefnyddwyr gwasanaethau, er mai'r broblem ar hyn o bryd yn y tymor byr yw sicrhau bod ffrydiau incwm yn cael eu hadennill i'r lefelau cyn Covid-19.

Cynghorwyd yr Aelodau i fynegi pryderon am feysydd gwasanaeth penodol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu perthnasol yr wythnos nesaf.

Esboniodd yr Arweinydd mai cyllideb ddrafft a gynigir a hynny ar sail y setliad Dros Dro ac yn destun unrhyw addasiadau y gall fod angen eu gwneud unwaith y bydd y Setliad Terfynol yn hysbys. Gwneir unrhyw addasiadau angenrheidiol yn unol â'r canlynol:

1. bydd gwerth unrhyw grantiau penodol a drosglwyddir i'r Grant Cynnal Refeniw yn cael eu pasio ymlaen at gyllideb y Gwasanaeth perthnasol;
2. bydd unrhyw newidiadau penodol eraill yn cael eu targedu'n uniongyrchol at y Gwasanaeth(au) a effeithir, os bydd hynny'n briodol;
3. ymdrinnir ag unrhyw newidiadau eraill i'r Grant Cynnal Refeniw drwy addasu cyllideb refeniw gorfforaethol y Grŵp Arweiniol.

Mae Ardoll yr Awdurdod Tân yn amodol ar gadarnhad ffurfiol a rhagwelir y bydd yn arwain at bwysau costau o £104k, a fydd angen cyllid brigdoriad.

Gorffennodd yr Arweinydd ei chyflwyniad gyda chrynodeb o bwysau costau ar draws yr holl wasanaethau/y rhan fwyaf ohonynt ac adleisiodd fod adroddiad hwn y gyllideb yn ymdrin â'r setliad dros dro gydag argymhelliad i'r Cyngor ynghylch lefel Treth y Cyngor yn 2022/23. Bydd y Cyngor yn ystyried y gyllideb derfynol ar 3 Mawrth 2022 ar ôl craffu ar bapurau'r gyllideb a'r cynigion drafft.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau a atebwyd yn eu tro gan yr Arweinydd a/neu'r Swyddogion. Y prif bwyntiau a godwyd oedd y canlynol:

1. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cost gynyddol Yswiriant Gwladol ac a oes angen i'r Awdurdod Lleol ysgwyddo'r costau hyn, cadarnhawyd y byddent yn cael eu hysgwyddo yn genedlaethol;
2. O ran taliad newydd Llywodraeth Cymru i staff Gofal Cymdeithasol, ni fydd yn cael effaith ar y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf a dylai gael ei dalu gan gyllid grant;
3. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch ariannu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, cadarnhawyd nad yw'r cyllid rhwng Powys a Cheredigion yn derfynol eto;
4. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a yw Tyfu Canolbarth Cymru yn rhan o'r Cydbwyllgor Corfforaethol, cadarnhawyd ei fod ar wahân ar hyn o bryd;
5. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch Pwysau Cost ac a ydynt wedi'u cynnwys o fewn y Gyllideb a fantolwyd? Cadarnhawyd, os cytunir ar gynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor, y byddai hyn yn talu am y pwysau cost presennol. Os cytunir ar 4.75% byddai angen dyrannu rhagor o arian;
6. Cadarnhawyd mai Cyllideb y Grŵp Arweiniol sy'n gyfrifol am gronfa frys Covid-19, cost Lleoliadau Gofal y Tu Allan i'r Sir, ac arian wrth gefn ar gyfer dyfarniadau Cyflog a fydd o bosib yn uwch na'r 2.5% a ddyrennir i Wasanaethau;
7. Codwyd cwestiwn ynghylch costau sy'n gysylltiedig â'r corffdai dros dro, a sefydlwyd yn ystod ton gyntaf y pandemig. Cadarnhawyd bod 100% o'r costau wedi'u hadennill;
8. Holwyd cwestiwn ynghylch eiddo gwag mewn pentrefi, yn enwedig hen ysgolion a phryd y bydd y rhain yn cael eu gwerthu. Cadarnhawyd bod gan y Panel Asedau broses i'w dilyn mewn achosion o'r fath a'u bod ond yn gallu cynnig eiddo dros ben ar y farchnad agored pan ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Cadarnhawyd bod yr holl arian a ddaw o werthu ysgolion gwag yn cael ei neilltuo i gefnogi Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif;
9. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gwerthu hen gartref preswyl Bodlondeb, Penparcau, Aberystwyth, cadarnhawyd y bydd yr eiddo ar gael i'w brynu ar y farchnad agored ymhen ychydig wythnosau;
10. Awgrymwyd y dylid trin yr arian a geir o werthu asedau Gofal Cymdeithasol yn yr un modd ag asedau Ysgolion, sy'n cael eu

neilltuo ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod a'i ystyried ymhellach ar ôl yr etholiad.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb fel y dangosir yn adroddiad y gyllideb i'r Cabinet, er mwyn helpu i baratoi cyllideb wedi'i mantoli ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i Arweinydd y Cyngor am gyflwyno'r wybodaeth a diolchodd i Stephen Johnson, Duncan Hall a Justin Davies a'u tîm o Swyddogion am eu gwaith caled wrth baratoi'r adroddiadau er mwyn i'r Pwyllgor eu hystyried yn y cyfarfod y prynhawn yma.

51 CONTEST - Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU
Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor na fyddai'r adroddiad hwn yn cael ei ystyried a hynny am nad oedd Swyddogion ar gael. Cytunwyd y byddai'r pwnc yn cael sylw yn ystod tymor nesaf y cyngor.

52 Adroddiad ar gofnod penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur Covid-19
Roedd Elin Prysor yn bresennol i gyflwyno adroddiad ar gofnod penderfyniadau Grŵp Rheoli Aur Covid-19. Cyflwynwyd yr adroddiadau blaenorol ar 20 Ionawr 2021, 16 Mehefin 2021 a 1 Rhagfyr 2021. Roedd y Cofnod o benderfyniadau a wnaed rhwng 1 Medi 2021 a 31 Rhagfyr 2021 wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ac roeddent wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ar ôl trafod, cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys cofnod penderfyniadau cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur Covid-19 a hynny i fonitro'r gwaith o lywodraethu trefniadau'r Cyngor parthed gwneud penderfyniadau. Diolchodd y Cadeirydd i Elin Prysor am yr adroddiad.

53 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyd-lynu a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2021 ac ystyried unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion hynny
Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cydlynu a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2021 yn gywir ac nad oedd dim materion yn codi o'r cofnodion hynny.

Rhoddodd y Cynghorydd Rowland Rees-Evans wybod i'r Aelodau mai hwn oedd cyfarfod olaf y Pwyllgor Cydlynu am y tymor hwn o'r cyngor. Cymerodd y cyfle i ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor am eu cefnogaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf tra bu'n Gadeirydd. Diolchodd i Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet. Hefyd estynnodd ei ddiolch i Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau, ac i Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu, am eu cefnogaeth yn y cyfnod hwnnw. Hefyd estynnodd ei ddiolch i'r Swyddog Monitro, Elin Prysor, i'r Cyfieithwyr Carwyn Williams a Rhidian Jones ac i'r holl Swyddogion am sicrhau fod y cyfarfodydd yn rhedeg yn esmwyth yn y cyfnod hwnnw.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 15 Mehefin 2022

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Cyngor Sir CEREDIGION County Council**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**DYDDIAD:** 15 Mehefin 2022**LLEOLIAD:** Siambr y Cyngor, Penmorfa**TEITL:** Blaenraglen Waith Ddrafft 2022/23**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor**Y RHESWM PAM FOD****CRAFFU WEDI GOFYN AM MAE BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR YN CAEL EI HAROLYGU A'I
Y WYBODAETH HON:** diweddarau ymhob cyfarfod**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwyssau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymhell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisiâu, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisiâu a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

Dewis pynciau

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Gorfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):

Adolygu a diweddarau'r Blaenraglen Waith bresennol.

Enw Cyswllt:	Lisa Evans
Dynodiad:	Swyddog Craffu a Safonau
Dyddiad yr Adroddiad:	6/6/2022
Acronymau:	BW- Blaenraglen Waith FWP- Forward Work Programme

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2022/23

Pwyllgor	Eitem (disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
Cydlynu			
15 Mehefin 2022	<p>CONTEST – Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU</p> <p>Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad a Chyflwyniad i drefniadau Hunanasesu Perfformiad yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021</p> <p>Cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2021 a 7 Mawrth 2022 a'r Aseiad Llesiant Lleol</p> <p>Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 2 a 3 2021-22</p> <p>Adroddiad ar gofnod penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur Covid-19</p>		
7 Medi 2022	Adroddiad Blynyddol Craffu		
23 Tachwedd 2022	RIPA		
18 Ionawr 2023			

9 Chwefror 2023	Paratoi'r cyllideb		
22 Mawrth 2023			
Cyfarfodydd y dyfodol	Diweddariad ar Cylch Caron		

Pwyllgor	Eitem (disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
<i>Cymunedau sy'n Dysgu</i>			
30 Mehefin 2022	<p>Cyflwyniad ar gwasanaethau</p> <p>Diweddariad ar Ysgol Dyffryn Aeron</p> <p>Cyflwyno prosesau hunanarfarnu a gwella ansawdd Gwasanaeth Ysgolion</p> <p>Diweddariad ar Gwricwlwm i Gymru</p>		
29 Medi 2022	Canlyniadau TGAU a lefel A		
8 Rhagfyr 2022			
16 Chwefror 2023 1.30pm	Paratoi'r cyllideb		
30 Mawrth 2023			
Cyfarfodydd y dyfodol	<p>Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant</p> <p>Asesiad Digonolrwydd Chwarae</p>		

Ffrydiau Gwaith	Safonau ac Ysgolion ADY, Cynhwysiant a Lles Porth Cymorth Cynnar	Meinir Ebbsworth Gillian Evans Elen James	
-----------------	--	---	--

Pwyllgor	Eitem (disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
<i>Cymunedau Ffyniannus</i>			
27 Gorffennaf 2022			
19 Hydref 2022			
7 Rhagfyr 2022			
17 Chwefror 2023 9.30am	Paratoi'r cyllideb		
5 Ebril 2023			
Cyfarfodydd y dyfodol			

Pwyllgor	Eitem (disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
Adnoddau Corfforaethol			
21 Mehefin 2022			
3 Hydref 2022			
19 Rhagfyr 2022			
17 Chwefror 2023 1.30pm	Paratoi'r cyllideb		
13 Mawrth 2023			
Cyfarfodydd y dyfodol			

Pwyllgor	Eitem(disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
<i>Cymunedau lachach</i>			
28 Gorffennaf 2022			
27 Hydref 2022			
16 Chwefror 2023 9.30am	Paratoi'r cyllideb		
13 Ebrill 2023			
Eitemau i'r dyfodol	<p>Diweddariad ar Gwasanaethau Dementia – Hafan Deg, Awel Deg and Chartrefi Preswyl</p> <p>Diweddariad ar Faethu – yn dilyn adroddiad 6.10.21</p> <p>Diweddariad ar Gofal cartref – yn dilyn adroddiad 6.10.21</p>		

Maer dudalen yn wag yn fwriadol